Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 127/2025

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2025

# Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-780-4

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr

Awduron: Gillian Parkinson a Ben Tylden-Smith (AlphaPlus), Hefin Thomas a Joanne Davis (Arad Research), Yr Athro Cysylltiol Claire Sinnema (Prifysgol Auckland)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Parkinson, G; Tylden-Smith, B; Thomas, H; Davis, J; Sinnema, C. (2025). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 127/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-y-cwricwlwm-i-gymru-arolwg-o-ddysgwyr-eu-rhieni-gofalwyr

Safbwyntiau’r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Cwricwlwm

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Gwasanaethau

Lywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0255381

E-bost: ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

**Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr** ..... 1

Rhestr o dablau ..... 4

Rhestr o ffigurau ..... 5

Rhestr o dermau ..... 7

1. Crynodeb gweithredol ..... 9

Cefndir a methodoleg ..... 9

Prif ganfyddiadau ..... 11

2. Cyflwyniad ..... 18

Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol ..... 18

Cyd-destun a chefndir ..... 20

Ynglŷn â'r arolwg hwn ..... 23

Ynglŷn â'r adroddiad hwn ..... 24

3. Methodoleg ..... 25

Dyluniad yr holiadur ..... 25

Fframwaith samplu ..... 27

Gwaith maes yr arolwg ..... 30

Glanhau'r gronfa ddata ..... 31

Sampl yr arolwg o ddysgwyr ..... 32

Sampl yr arolwg o rieni ..... 35

Dadansoddiad meintiol o'r arolwg ..... 39

Cyflwyno canfyddiadau meintiol ..... 42

Dadansoddiad ansoddol o'r arolwg ..... 43

Deall y cysylltiadau yn y theori newid ..... 44

Dadansoddi ffactorau ..... 45

Modelu hafaliadau strwythurol (SEM) ..... 46

Cyfyngiadau methodolegol ..... 49

4. Rhan A: Trosolwg o'r canfyddiadau ..... 51

Dysgwyr ..... 51

Rhieni ..... 53

5. Rhan B: Canfyddiadau manwl yr arolwg o ddysgwyr ..... 59

Barn gyffredinol dysgwyr ar yr ysgol ..... 59

Ymwneud dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm ....... 64
Canfyddiad dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben ....... 69
Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg ....... 76
Bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol ....... 82
Lles dysgwyr ....... 85
6. Rhan C: Canfyddiadau manwl yr arolwg o rieni/gofalwyr ....... 90
Ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm ....... 90
Gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm ....... 95
Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm ....... 98
Galluedd rhieni ....... 104
Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm ....... 107
Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol ....... 112
Bodlonrwydd rhieni gydag ysgol eu plentyn ....... 115
Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn ....... 121
Barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru ....... 127
Hyder rhieni yn addysg eu plentyn ....... 130
Barn rhieni ynghylch gwybodaeth bellach, yr elfennau mwyaf buddiol a phryderon am y cwricwlwm ....... 132
7. Rhan D: Cymharu ymatebion rhieni a dysgwyr ....... 137
Cymharu ymatebion rhieni a dysgwyr i gwestiynau cysylltiedig ....... 137
Themâu lle roedd barn rhieni'n debyg i farn dysgwyr ....... 138
Themâu ble roedd gan ddysgwyr farn fwy cadarnhaol na rhieni: ....... 138
Themâu ble roedd gan rieni farn fwy cadarnhaol na dysgwyr ....... 139
8. Rhan E: Archwilio'r cysylltiadau rhwng newidynnau'r arolwg: ....... 140
Dadansoddi ffactorau (FA) a modelu hafaliadau strwythurol (SEM) ....... 140
Dadansoddi ffactorau ....... 140
Modelu hafaliadau strwythurol (SEM) ....... 142

# Rhestr o dablau

Tabl 1. Disgrifiadau a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar grwpiau ac is-grwpiau o ymatebwyr yn yr adroddiad hwn ....... 28
Tabl 2. Nifer a chanran yr ymatebion i'r arolwg o ddysgwyr yn ôl newidynnau demograffig a lefel ysgol ....... 34

Tabl 3. Nifer a chanran yr ymatebion i'r arolwg o rieni yn ôl newidynnau demograffig a lefel ysgol ....38
Tabl 4. Disgrifyddion a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ganrannau'r ymatebwyr yn yr adroddiad hwn....42
Tabl 5. Ymatebion dysgwyr i ddatganiadau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol....79

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Perthynas dybiedig rhwng canfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben a chydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a lles.....48
Ffigur 2. Perthynas dybiedig rhwng canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben a gwahanol gyfuniadau o gyfleoedd i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, hyrwyddo galluedd rhieni ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol....49
Ffigur 3. Barn gyffredinol dysgwyr ynghylch yr ysgol ....61
Ffigur 4. Barn dysgwyr ynghylch eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm....66
Ffigur 5. Barn dysgwyr am eu cynnydd tuag at y pedwar diben....72
Ffigur 6. Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg....77
Ffigur 5. Bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol....83
Ffigur 7. Lles dysgwyr....87
Ffigur 8. Ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm....92
Ffigur 9. Ffynonellau gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm....94
Ffigur 10. Gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm ....96
Ffigur 11. Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm ....100
Ffigur 12. Galluedd rhieni mewn trafodaethau am y cwricwlwm ....105
Ffigur 13. Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben ....108
Ffigur 14. Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at nodau'r Cwricwlwm i Gymru ....110
Ffigur 15. Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol ....113
Ffigur 16. Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol ....117
Ffigur 17. Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn ....123
Ffigur 18. Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn ....125
Ffigur 19. Barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru....127
Ffigur 20. Hyder rhieni yn addysg eu plentyn....130

Ffigur 21. Model dysgwyr: archwilio a oes cysylltiad rhwng cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a lles a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben ........ 144
Ffigur 22. Model rhieni: archwilio a oes cysylltiad rhwng y cyfle i rieni i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol a chanfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm ........ 147

# Rhestr o dermau

**ADY**
Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Bl**
Blwyddyn (Ysgol)

**Bl3+/Bl6+**
Ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr ym Mlwyddyn 3/Blwyddyn 6 ac uwch

**CDU**
Cynllun Datblygu Unigol. Dogfen statudol a ddarperir i ddysgwyr yr ystyrir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**CFI**
Mynegai ffit gymharol

**CYBLD**
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

**Dysgwr Anabl**
Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ddysgwr y mae ei rieni wedi ateb 'Ydw' mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg a ofynnodd a oeddent yn ystyried bod gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu.

**Dysgwyr MAT**
Dysgwyr mwy abl a thalentog

**FA**
Dadansoddi ffactorau

**Rhieni**
Fe'i defnyddir i ddisgrifio'r holl ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant (h.y. rhieni a gofalwyr)

**RMSEA**
Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig

**SEM**
Modelu hafaliadau strwythurol

**SRMR**
Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig

**TLI**
Mynegai Tucker-Lewis

**Y Cwricwlwm**
Y Cwricwlwm i Gymru

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir a methodoleg

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i arwain gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm), gan gyd-weithio â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy. Mae'r holl adroddiadau â gyhoeddwyd hyd yn hyn ar gael ar wefan gwerthusiad ffurfiannol Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o rieni a gofalwyr a'u plant (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad fel "dysgwyr") wedi'i arwain gan gwmni ymchwil Arad ac AlphaPlus Consultancy. Cynhaliwyd arolwg rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 1094 o rieni/gofalwyr a 757 o ddysgwyr 4-14 oed yr arolwg. Roedd y dysgwyr (a'u rhieni a'u gofalwyr) a gymerodd ran yn yr arolwg yn amrywio o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9, gan mai'r rhain oedd y grwpiau blwyddyn a oedd yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru adeg gwaith maes yr arolwg. Archwiliodd yr arolwg farn dysgwyr ar y Cwricwlwm i Gymru a'u profiadau o'u haddysg yn yr ysgol (neu leoliad arall) yn fwy cyffredinol.[Troednodyn 1] Fe wnaeth yr arolwg hefyd archwilio barn rhieni a gofalwyr ar y Cwricwlwm i Gymru ac addysg eu plentyn yn fwy cyffredinol. Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, am resymau'n ymwneud â lle a darllenadwyedd, defnyddir y term "rhieni" i ddisgrifio'r holl ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant (h.y. rhieni a gofalwyr).

### Methodoleg

Cafodd holiadur yr arolwg ei lywio gan y theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu fel y'u cyflwynir yn yr astudiaeth gwmpasu, a'i brofi gyda sampl o rieni/gofalwyr a dysgwyr. Cynlluniwyd yr holiadur i'w gwblhau gan rieni yng nghwmni eu plant. Roedd modd i ddysgwyr Blwyddyn 7 i 9 gwblhau'r cwestiynau yn annibynnol os yr oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Defnyddiwyd dull samplu yn seiliedig ar gwota, gyda thargedau (cwotâu) wedi'u gosod ar gyfer dysgwyr (a'u rhieni) â nodweddion gwahanol. Y prif ddull a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r arolwg oedd hysbysebion wedi'u targedu at rieni ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

---

[1] Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw defnyddir 'ysgolion' i gyfeirio at wahanol leoliadau addysgol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr ysgol (AHY) eraill, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau). Mewn rhai adrannau o'r adroddiad hwn mae'r math o leoliad addysg wedi'i nodi'n benodol, er enghraifft wrth nodi gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

Cafodd yr ymatebion eu monitro, a’r hysbysebion eu diwygio i dargedu grwpiau o ymatebwyr oedd wedi eu tan-gynrychioli tra’r oedd yr arolwg yn fyw. Derbyniodd yr arolwg 757 o ymatebion gan ddysgwyr; roedd 58% o'r rhain mewn ysgolion cynradd a 41% mewn ysgolion uwchradd. Roedd dwy ran o dair (66%) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a thraean (33%) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Derbyniodd yr arolwg 1094 o ymatebion gan rieni.

Mae'r data a gyflwynir yn adrannau canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'i bwysoli (h.y. wedi'i addasu fel bod proffil y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth). Cynhaliwyd dadansoddiad is-sampl i wirio a oedd gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr (e.e. dysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd).

**Cyfyngiadau methodolegol**

Y cyfyngiadau allweddol yw:

- Mae risg o ragfarn dethol - efallai yr oedd gan y rhieni/gofalwyr wnaeth ddewis cymryd rhan ymgysylltiad agosach ag addysg eu plant neu, fel arall, yr oedd ganddynt gymhelliant i dynnu sylw at eu pryderon
- Nid oedd ymatebwyr o dan oedran Derbyn wedi'u cynnwys yn yr arolwg oherwydd teimlwyd y byddai'r rhan fwyaf o blant yr oedran hwnnw yn ei chael hi'n rhy anodd ateb yn ddibynadwy, hyd yn oed gyda chymorth eu rhieni
- Roedd defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg yn golygu bod risg uwch o dderbyn ymatebion gan unigolion a oedd y tu allan i'r gynulleidfa darged, o'i gymharu â defnyddio rhestr gaeedig o ymatebwyr. Cafodd mesurau lliniaru eu defnyddio yn nyluniad yr holiadur ac yn y broses o lanhau’r data
- Nid oedd y sampl a gyflawnwyd yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth gyda, er enghraifft, dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'u rhieni, wedi'u tangynrychioli o'i gymharu â phoblogaeth yr arolwg

## Prif ganfyddiadau

### Y themâu yr ymatebodd dysgwyr fwyaf cadarnhaol iddynt

**Mwynhad dysgwyr o'r ysgol a'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu amdano**: Cytunodd y mwyafrif o ddysgwyr[Troednodyn 2] fod eu hathrawon wedi eu helpu i ddeall pan yr oeddent yn gwella wrth dysgu (67%), eu bod yn mwynhau mynd i'r ysgol (66%) a'u bod yn mwynhau'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol (63%).

**Cynnydd tuag at y pedwar diben** (gofynnwyd gwahanol amrywiadau o'r cwestiynau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran)**:**

- **Uchelgeisiol a galluog**: Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i: gredu ynof fi fy hun a'r hyn y gallaf ei wneud (Dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 2 - 61% yn cytuno), bod y gorau y gallaf fod (59% yn cytuno). Roedd tua hanner dysgwyr Blwyddyn 3 i 9 (49%) yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i ddod yn uchelgeisiol.
- **Egwyddorol a gwybodus:** Cytunodd y mwyafrif o ddysgwyr bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i ddeall a phoeni am bobl a'r byd (Dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 - 76% yn cytuno), ac i fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd (Dysgwyr Blwyddyn 3 i 6 - 69% yn cytuno). Fodd bynnag, lleiafrif o ddysgwyr oedd yn cytuno (Dysgwyr Blwyddyn 7 i 9 - 38%) bod eu dysgu yn eu helpu i ddod yn egwyddorol a gwybodus.
- **Iach a hyderus:** Cytunodd y mwyafrif o ddysgwyr bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i fod yn iachach (Dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 2 - 74% yn cytuno) neu i ddod yn iach ac yn hyderus (Dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 - 64% yn cytuno).
- **Mentrus a chreadigol:** Cytunodd y mwyafrif o ddysgwyr bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i feddwl am syniadau newydd (Dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 - 71%), bod yn fwy creadigol (64%) a dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau (dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 yn unig - 61%).

**Bodlonrwydd dysgwyr gyda'u hysgol:** Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn cytuno bod athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant (72% yn cytuno), eu bod bob amser yn barod i helpu (64% yn cytuno) ac yn hawdd siarad â nhw (63% yn cytuno).

**Lles:** Pan ofynnwyd iddynt am agweddau ar eu lles eu hunain, dywedodd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud rhai pethau'n dda (89% yn

[2] Yn seiliedig ar ddisgrifwyr a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ganrannau. Y trothwyon yw 85% - mwyafrif helaeth; 59-84% - mwyafrif; 42-58% - tua hanner; 15-41% - lleiafrif; o dan 15% - lleiafrif bach

cytuno) eu bod yn meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanynt (87% yn cytuno), a bod yna lawer o bethau y gallent fod yn falch ohonynt (81% yn cytuno). Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn cytuno eu bod wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl (77% yn cytuno), y byddai pethau da yn digwydd yn eu bywyd (74% yn cytuno) a'u bod wedi bod mewn hwyliau da (73% yn cytuno).

### Y themâu yr ymatebodd dysgwyr yn llai cadarnhaol iddynt

**Teimlo bod athrawon yn gwrando arnynt a'u bod yn cael yr holl help yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol**: Cytunodd tua hanner y dysgwyr bod athrawon a staff wir yn gwrando ar blant (53% yn cytuno) a'u bod yn cael yr holl gymorth yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol (51% yn cytuno).

**Bod yr ysgol yn deg i bawb a'u bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn yr ysgol**: Cytunodd tua hanner y dysgwyr bod yr ysgol yn deg i bawb (47%), a'u bod yn teimlo y gallent fod yn nhw eu hunain yn yr ysgol (58% - gofynnwyd hyn i Flynyddoedd 3 i 9 yn unig).

**Gweld y cysylltiadau rhwng pynciau:** Cytunodd lleiafrif o ddysgwyr (31%) eu bod yn gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau yr oeddent yn dysgu amdanynt yn yr ysgol, gyda thua hanner (45%) yn anghytuno (gofynnwyd hyn i Flynyddoedd 7 i 9 yn unig).

**Ymwneud dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm:** Pan ofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â'u hymwneud ag agweddau ar ddylunio'r cwricwlwm, cytunodd tua hanner y dysgwyr bod athrawon yn gwrando arnynt (58% yn cytuno), a gallent ddweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu amdano ai peidio (50% yn cytuno). Dywedodd lleiafrif o ddysgwyr bod athrawon wedi gofyn iddynt beth yr hoffent ei ddysgu amdano (41% yn cytuno) a sut yr hoffent ddysgu (33% yn cytuno), gyda thua hanner y dysgwyr yn anghytuno (dim ond i ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 y gofynnwyd y cwestiynau hyn am beth a sut yr hoffent ddysgu).

**Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg**: Nododd tua hanner y dysgwyr (50%) eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, tra nododd lleiafrif (40%) eu bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

### Tueddiadau o fewn ymatebion dysgwyr

Mynegodd ddysgwyr nad oeddent yn anabl farn mwy cadarnhaol na dysgwyr anabl mewn perthynas â'r mwyafrif o destunau'r arolwg gan gynnwys eu barn cyffredinol ar eu hysgol,

eu bodlonrwydd ag agweddau ar addysgu a dysgu a'u lles eu hunain. Roedd eu hymatebion hefyd yn dangos eu bod yn teimlo'u bod yn ymwneud yn fwy ag agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm gyda, er enghraifft, canrannau uwch o dysgwyr nad oeddent yn anabl o'i gymharu â dysgwyr anabl yn dweud bod athrawon yn gwrando arnynt ac y gallent ddweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu amdano ai peidio. Roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl hefyd yn fwy tebygol na dysgwyr anabl o ystyried bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben. Mae "dysgwr anabl" yn cyfeirio at unrhyw ddysgwr lle'r oedd eu rhieni wedi ateb 'Ydw' i'r cwestiwn a ofynnodd a oeddent yn ystyried bod gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu.

**Mynegodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd mewn perthynas ag ystod o destunau** gan gynnwys rhai o'u safbwyntiau cyffredinol ar eu hysgol, eu bodlonrwydd ag agweddau ar eu dysgu ac addysgu a'u lles eu hunain. Dangosodd eu hymatebion hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn ymwneud yn fwy ag agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm gydag, er enghraifft, canrannau uwch o ddysgwyr cynradd, o'u cymharu â dysgwyr uwchradd, yn nodi bod athrawon yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu dweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu ai peidio. Roedd dysgwyr cynradd hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o ystyried bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

**Roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd** yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn siarad ieithoedd eraill ar yr aelwyd o gael barn gadarnhaol ar rai testunau, yn enwedig eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm a sut yr oedd eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at rai o agweddau'r pedwar diben, eu bod yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg a'u bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

### Y themâu yr ymatebodd rhieni fwyaf cadarnhaol iddynt

**Ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru:** Nododd rhieni fod ganddynt rywfaint o ymwybyddiaeth gyffredinol bod ysgolion bellach wedi paratoi eu cwricwlwm eu hunain (nododd 72% ymwybyddiaeth) a bod ffocws y cwricwlwm ar y pedwar diben (72%). Ymhlith y rhai a nododd ymwybyddiaeth, dywedodd 54% fod hyn oherwydd gwybodaeth a rannwyd gan ysgol eu plentyn; dywedodd 41% eu bod wedi derbyn gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan newyddion, gwefan ysgolion)

neu drwy'r cyfryngau (20%). Adroddodd 13% bod eu plentyn, ac 14% rhieni eraill, wedi bod yn ffynhonnell o wybodaeth am y cwricwlwm.

**Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru**: Dywedodd y mwyafrif o rieni eu bod yn gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau (62% yn cytuno), darparu addysg eang a chytbwys (60% yn cytuno) a darparu profiadau bywyd go iawn (59% yn cytuno).

**Cyfle i glywed am sut i gefnogi dysgu eu plentyn:** Nododd 66% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu llawer iawn o gyfle i glywed am sut i gefnogi dysgu eu plentyn, nododd 33% eu bod wedi cael ychydig iawn neu ddim cyfle.

**Ymwneud rhieni â thrafodaethau am y cwricwlwm:** Cytunodd y mwyafrif o rieni bod ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffyrdd oedd yn gwneud iddynt deimlo yn frwdfrydig i gefnogi addysg eu plentyn (61% yn cytuno). Roedd tua hanner y rhieni yn teimlo bod y trafodaethau hyn yn gwneud iddynt deimlo'n hyderus mewn perthynas ag addysg eu plentyn (58% yn cytuno) ac roedd lleiafrif o rieni yn teimlo bod trafodaethau o'r fath yn gwneud iddynt deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt (41% yn cytuno).

**Bodlonrwydd gydag athrawon a staff yn ysgol eu plentyn**: Roedd y mwyafrif o rieni yn cytuno bod athrawon a staff ysgol yn cymryd gofal da o'u plentyn (75% yn cytuno), yn barod i helpu (73% yn cytuno) ac y gallent ymddiried ynddynt (71% yn cytuno). Nododd mwyafrif hefyd y gallent gael gafael ar athrawon eu plentyn yn hawdd (70% yn cytuno) a bod athrawon a staff yn gwrando arnynt os oedd ganddynt bryder (68% yn cytuno).

**Hyder yn safon addysg eu plentyn:** Dywedodd y  mwyafrif o rieni (64%) eu bod naill ai rhywfaint neu'n gwbl hyderus yn safon addysg eu plentyn tra'r oedd lleiafrif (36%) ddim yn hyderus iawn neu ddim yn hyderus o gwbl.

**Y themâu y gwnaeth rhieni ymateb yn llai cadarnhaol iddynt**

**Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**: Nododd tua hanner y rhieni eu bod wedi cael cyfle i rannu eu syniadau am sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol (nododd 42% ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, nododd 55% ychydig iawn neu ddim cyfle). Dywedodd lleiafrif eu bod wedi cael cyfle i gyfrannu eu profiadau neu eu harbenigedd (41% - ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, 55% - ychydig iawn neu ddim cyfle), rhannu syniadau am yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol (40% - ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, 56% - ychydig iawn neu ddim cyfle), i roi adborth ar gwricwlwm yr ysgol (38% - rhai i lawer o gyfleoedd,  59% - ychydig i ddim cyfle).

**Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm:** Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn hyderus bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn helpu eu plentyn i ddod yn iach ac yn hyderus (55% yn cytuno), yn egwyddorol a gwybodus (55% yn cytuno), yn fentrus a chreadigol (53% yn cytuno) ac yn uchelgeisiol a galluog (48% yn cytuno). Roedd tua hanner y rhieni hefyd yn cytuno bod athrawon eu plentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol eu plentyn (56% yn cytuno), bod eu haddysg yn cefnogi eu lles (54% yn cytuno), bod eu haddysg yn darparu'r cymorth cywir i alluogi eu plentyn i wneud cynnydd (53% yn cytuno), bod eu haddysg yn diwallu anghenion eu plentyn (43% yn cytuno) ac yn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn (42% yn cytuno).

**Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol:** roedd tua hanner y rhieni yn hyderus bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer eu camau nesaf yn eu haddysg (52% yn cytuno), ond dim ond lleiafrif oedd yn hyderus bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer gwaith neu fywyd yn fwy cyffredinol (40% yn cytuno). Roedd tua hanner yr ymatebwyr (51%) naill ai ychydig neu'n gefnogol iawn i'r Cwricwlwm i Gymru yn gyffredinol ac roedd lleiafrif (25%) naill ai ddim yn gefnogol o gwbl neu ychydig yn anghefnogol i'r Cwricwlwm i Gymru.

**Bodlonrwydd rhieni gydag ysgol eu plentyn:** Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn fodlon ag ysgol eu plentyn (roedd 58% yn cytuno), bod yr ysgol yn dda am rannu gwybodaeth gyda nhw (57% yn cytuno) a bod eu plentyn yn derbyn cymorth ychwanegol yn yr ysgol os oedd angen (49% yn cytuno). Dywedodd tua hanner y rhieni eu bod yn fodlon â'r wybodaeth yr oeddent yn ei dderbyn ynglŷn â chynnydd cyffredinol eu plentyn (55% yn fodlon), cynnydd mewn rhifedd (56% yn fodlon) a chynnydd mewn llythrennedd (rhieni dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 - 54% yn fodlon). Gofynnwyd i rieni dysgwyr ysgol uwchradd yn unig i ba raddau yr oeddent yn fodlon â'r wybodaeth yr oeddent yn ei dderbyn ynglŷn a chynnydd eu plentyn yn y Gymraeg (36% yn fodlon) a'r Saesneg (38% yn fodlon). Roedd tua hanner y rhieni yn cytuno eu bod yn fodlon â <u>sut</u> yr oeddent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn (cytunodd 53%) a <u>pha mor aml</u> yr oeddent yn derbyn y wybodaeth hyn (cytunodd 47%).

### Gwybodaeth bellach, elfennau mwyaf buddiol a phryderon

**Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar yr un agwedd o'r Cwricwlwm i Gymru yr hoffent wybod mwy amdano**, dywedodd lleiafrif o rieni y byddent yn hoffi gwybod mwy am yr hyn yr oedd eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol, sut roedd cwricwlwm ysgol eu plentyn

wedi'i gynllunio, sut y gwnaethpwyd penderfyniadau amdano, sut roedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion eu plentyn a sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fesur.

**Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar elfennau mwyaf buddiol cwricwlwm yr ysgol**, nododd lleiafrif o rieni y ffocws ar iechyd a lles, y sgiliau trawsgwricwlaidd, mwy o amrywiaeth o brofiadau dysgu neu agweddau penodol eraill ar y Cwricwlwm i Gymru (er enghraifft, y pedwar diben, creu cysylltiadau rhwng pynciau a'r ffocws ar amrywiaeth a chyd-destun Cymru). Nododd lleiafrif nad oeddent yn credu y byddai unrhyw agweddau ar y cwricwlwm o fudd i ddysgwyr, ond fe wnaethant nodi pryderon am y Cwricwlwm i Gymru.

**Pan ofynnwyd beth oedd yn poeni rhieni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol,** dywedodd lleiafrif nad oedd y cwricwlwm a'r addysg wedi'u teilwra'n ddigonol i ddiwallu anghenion unigol eu plentyn. Mynegodd eraill bryderon am yr hyn oedd yn cael ei addysgu a sut roedd eu plentyn yn cael eu haddysgu, bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli neu nad oedd gan ysgolion yr adnoddau i roi'r cwricwlwm ar waith yn effeithiol. Dywedodd lleiafrif nad oedd ganddynt ymwybyddiaeth, gwybodaeth na dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru tra bod eraill yn pryderu am ansawdd addysg eu plentyn, gan gynnwys pryderon am ADY eu plentyn a'r gefnogaeth oedd ar gael i'w helpu i ddysgu. Mynegodd rhieni eraill bryderon am asesu, cymwysterau a throsglwyddo o addysg orfodol i ddysgu ôl-16.

### Tueddiadau o fewn ymatebion rhieni

**Yn yr un modd â dysgwyr, roedd rhieni plant ysgol gynradd a rhieni plant nad oeddent yn anabl yn gyson fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr uwchradd a phlant anabl, yn y drefn honno,** ar draws y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys eu barn ynglŷn â chyfleoedd i ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm yn ogystal â chanfyddiadau o gynnydd eu plentyn tuag at ddyheadau'r cwricwlwm a bodlonrwydd cyffredinol ag ysgol eu plentyn.

**Mynegodd rhieni dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) farn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDUau** mewn perthynas â'u cyfleoedd i ymwneud ag agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm, eu canfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm a'u hyder yn addysg eu plentyn.

**Roedd gan rieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar agweddau ar y cwricwlwm ac addysg eu**

**plentyn.** Nododd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lefelau uwch o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm, lefelau uwch o fodlonrwydd a hyder cyffredinol yn addysg eu plentyn yn ogystal â bod yn fwy tebygol o gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd barn rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd, yn benodol mewn perthynas â'r canfyddiadau o gynnydd tuag at y pedwar diben, eu bodlonrwydd â'r ysgol a'u bodlonrwydd â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn.

# 2. Cyflwyniad

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i arwain gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Mae Ymchwil Arad yn gweithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau fel rhan o raglen ymchwil eang, sy'n cynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy.

Defnyddir dull cymysg ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys arolygon o uwch arweinwyr ac ymarferwyr, arolygon o rieni a gofalwyr a dysgwyr, astudiaethau achos hydredol i ddeall teithiau ysgolion o ran gweithredu'r cwricwlwm a sawl astudiaeth ansoddol yn seiliedig ar bynciau sy'n archwilio elfennau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o rieni a gofalwyr a'u plant (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad fel "dysgwyr") wedi'i arwain gan Ymchwil Arad ac AlphaPlus Consultancy. Roedd y dysgwyr (a'u rhieni a'u gofalwyr) a gymerodd ran yn yr arolwg yn amrywio o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9, gan mai'r rhain oedd y grwpiau blwyddyn a oedd yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru adeg gwaith maes yr arolwg. Archwiliodd yr arolwg farn rhieni a gofalwyr ar y Cwricwlwm i Gymru ac ar addysg eu plentyn yn fwy cyffredinol, yn ogystal â barn dysgwyr ynglŷn ag agweddau penodol ar y Cwricwlwm a'u profiadau yn yr ysgol (neu leoliad arall) yn fwy cyffredinol.[Troednodyn 3] Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, am resymau'n ymwneud â lle a darllenadwyedd, defnyddir y term “rhieni” i ddisgrifio’r holl ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant (h.y. rhieni a gofalwyr).

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru, yr arolwg o rieni a dysgwyr a strwythur yr adroddiad hwn.

## Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol

Nod y gwerthusiad yw asesu i ba raddau y mae'r diwygiadau'n gweithio yn ôl y disgwyl fel y nodir yn y Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (Y Fframwaith) (Llywodraeth Cymru, 2025a). Amcanion y gwerthusiad yw:

---

[3] Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw defnyddir 'ysgolion' i gyfeirio at wahanol leoliadau addysgol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr ysgol (AHY) eraill, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau). Mewn rhai adrannau o'r adroddiad hwn mae'r math o leoliad addysg wedi'i nodi'n benodol, er enghraifft wrth nodi gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

- adolygu'r theori newid yn yr Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022a), a gwneud diwygiadau os oes angen, yn benodol er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i degwch o fewn y theori newid
- ystyried i ba raddau y mae'r mecanweithiau yn y theori newid, a'r gweithgareddau, yr allbynnau a'r deilliannau tymor byr/canolig disgwyliedig yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl
- ymchwilio i'r amrywiad rhwng dulliau ar draws ysgolion a mathau eraill o ddarpariaeth[Troednodyn 4] a disgrifio pa ffactorau a/neu amodau sy'n cefnogi neu'n rhwystro gwireddu'r diwygiadau'n effeithiol a pha gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen
- archwilio barn, arferion a phrofiadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau eraill a darpariaeth mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn, profiadau ac arferion yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ymarferwyr a lleoliadau, a pham
- archwilio barn a phrofiadau dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaethau eraill mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn a phrofiadau'n wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a pham
- dod i gasgliadau a thynnu sylw at feysydd i'w hystyried ar gyfer polisi ac ymarfer ar draws y system gyfan i gefnogi'r gwaith o wireddu'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu a'u heffeithiolrwydd yn y dyfodol, gan sicrhau bod y rhain yn ystyried yn llawn ehangder y diwygiadau ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, cyd-destunau, darpariaeth a lleoliadau

Mae bob adroddiad a gyhoeddwyd hyd yn hyn fel rhan o’r gwerthusiad ar gael ar dudalen gwefan gwerthusiad ffurfiannol Cwricwlwm i Gymru.

Cyhoeddwyd adroddiadau yn seiliedig ar bedwar astudiaeth ansoddol ym mis Gorffennaf 2025. Roedd y rhain fel a ganlyn:

[4] Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw defnyddir 'ysgolion' i gyfeirio at wahanol leoliadau/darpariaeth addysgol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Mewn rhai adrannau o'r adroddiad hwn mae'r math o leoliad/darpariaeth addysg wedi'i nodi'n benodol, er enghraifft wrth nodi gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

- Gwireddu’r Cwricwlwm i Gymru mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau): astudiaeth ansoddol
- Maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol
- Cynllunio cwricwlwm ac asesu ac addysgeg yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol
- Tegwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol

## Cyd-destun a chefndir

Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg ac i greu system addysg sy’n codi safonau addysgol yng Nghymru ac sy’n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae pedwar diben i'r Cwricwlwm i Gymru sy'n fan cychwyn ac yn ddyhead i holl blant a phobl ifanc Cymru. Mae’r adroddiad 'Improving Schools in Wales' gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2014) a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn amlinellu'r rhesymeg dros y diwygiadau yn ogystal â chynnig argymhellion ynghylch sut i gynllunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru fodern. O dan y diwygiadau mae'n ofynnol i bob ysgol ac UCD ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, o fewn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd yn genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

O dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben yn cael eu hategu gan y sgiliau sy’n hanfodol i’r pedwar diben (neu 'sgiliau cyfannol') sydd i'w datblygu ar draws ystod eang o weithgareddau dysgu ac addysgu. Y sgiliau cyfannol hyn yw: creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu. Mae'r pynciau wedi'u trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;

Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Ar draws y chwe maes hyn, o fewn canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru mae 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig y mae'n rhaid i ysgolion seilio eu cwricwlwm arnynt (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion hefyd ymgorffori themâu trawsbynciol mewn dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r themâu trawsbynciol yn cynnwys Addysg cydberthynas a rhywioldeb; Hawliau dynol; Amrywiaeth; Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn nodi'r egwyddorion a gofynion gorfodol (Llywodraeth Cymru, 2022b) a ddylai arwain y gwaith o baratoi a chynllunio cwricwlwm ysgolion a lleoliadau, y cyfeirir at lawer ohonynt yn adran canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at ddatblygu'r cwricwlwm ar y cyd, cynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, sicrhau bod addysgeg yn cefnogi'r broses o wireddu'r pedwar diben, ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol, gweithio gyda lleoliadau, ysgolion a sefydliadau addysg bellach eraill ac adlewyrchu cyd-destun yr ysgol leol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Cyhoeddwyd canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru yn 2020, gyda diweddariadau blynyddol wedi hynny, i gefnogi ymarferwyr gyda'r camau ymarferol o gynllunio, gwireddu ac adolygu eu cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys canllawiau 'Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith' (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024) (Llywodraeth Cymru, 2024b) sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a dysgu, gan bwysleisio natur gylchol y broses o gynllunio'r cwricwlwm a'r camau y dylai ysgolion eu cymryd i gynllunio, gwerthuso a mireinio eu cwricwlwm. Pwysleisiodd y canllaw hwn bwysigrwydd:

- rôl arweinyddiaeth yn y broses gynllunio
- datblygu cwricwlwm â diben
- defnyddio egwyddorion cynnydd a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i gynllunio ar gyfer cynnydd
- sicrhau bod asesu yn cefnogi dysgwyr unigol i wneud cynnydd
- defnyddio'r disgrifiadau dysgu i lywio cynllunio ac asesu

- sicrhau bod dulliau addysgeg yn manteisio ar alluoged a barn broffesiynol ymarferwyr a bod strategaethau addysgu yn diwallu anghenion newidiol dysgwyr yn eu cyd-destun

Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn adlewyrchu gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru fel cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiben, gan amlinellu gweledigaeth ar gyfer addysg a diben addysgu ledled Cymru. Canfu casgliad cam 1 prosiect Camau i'r Dyfodol fod y Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd agosaf â chwricwlwm yn seiliedig ar fodel proses sy'n canolbwyntio ar brosesau datblygu dysgwyr ac yn "ystyried bod dogfennau cwricwlwm yn ddatganiadau o'r egwyddorion a'r prosesau mae addysg yn ceisio eu datblygu, yn hytrach na set o ddeilliannau." (Llywodraeth Cymru, 2025b). Yng nghyswllt y Cwricwlwm i Gymru, mae'r egwyddorion canolog wedi'u mynegi drwy'r pedwar diben, sydd â'r bwriad o "helpu athrawon i weld ym mha ffyrdd penodol y dylent gyfrannu i'r dysgu gan y plentyn neu'r person ifanc,…helpu plant a phobl ifanc, a'u rhieni a'u gofalwyr, i weld pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut y mae'r agweddau ar ddysgu'n ffitio i'w gilydd… [a ch]yfrannu at lunio disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm a gellir eu defnyddio i bennu a chynllunio'r cynnwys a'r deilliannau arfaethedig." (Donaldson, 2015). Mae'r dull o ddysgu yn pwysleisio rôl ymarferwyr wrth gefnogi cynnydd dysgwyr, gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau dysgwyr i ddatblygu tuag at y nodweddion a'r tueddiadau a amlinellir yn y pedwar diben.

Mae Canllawiau Galluogi Dysgu (Llywodraeth Cymru, 2023), sy'n rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi ysgolion i gynllunio cwricwla sy'n briodol i ddatblygiad pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n symud ymlaen tuag at Gam Cynnydd 1. Mae'n tynnu sylw at dri 'galluogydd' sy'n gysylltiedig â'i gilydd – oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb, ac amgylcheddau effeithiol – sydd gyda'i gilydd yn meithrin datblygiad cyfannol drwy ddysgu seiliedig ar chwarae, dysgu yn yr awyr agored, arsylwi, a phrofiadau dilys. Mae'r canllawiau hefyd yn tanlinellu pum llwybr datblygiadol – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, a llesiant – sydd wedi'u seilio ar feysydd traddodiadol o ddatblygiad plant fel rhai hanfodol ar gyfer cefnogi twf a chynnydd dysgwyr tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

Mae canllawiau a chynlluniau strategol eraill Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i ysgolion ystyried sut y gall gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru gefnogi diwygiadau a blaenoriaethau ehangach, gan gynnwys y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cymraeg 2050, mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a hyrwyddo iechyd a llesiant dysgwyr.

Yn ystod y gwaith ymchwil hwn, cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr hŷn a chyflwyno cymwysterau newydd, cafodd adran ar ddarparu canllawiau pellach ar ddysgu 14 i 16 (Llywodraeth Cymru, 2024c) eu cynnwys yng nghanllawiau fframwaith y Cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ymarferwyr i gynllunio, gweithredu ac adolygu cwricwlwm cynhwysol ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae'r adran hon o ganllawiau statudol y cwricwlwm yn nodi y dylid cynllunio, dylunio, adolygu a mireinio'r holl ddysgu ac addysgu a wneir ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn unol â chanllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru.

Adeg y gwaith ymchwil hwn, roedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob dysgwr oedran cynradd ac ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9.

## Ynglŷn â'r arolwg hwn

Cynhaliwyd arolwg o rieni a dysgwyr rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 1094 o rieni/gofalwyr a 757 o'u plant (dysgwyr) 4-14 oed (Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 9) yr arolwg.[Troednodyn 5] Diffiniwyd hyn fel ymatebwyr a oedd wedi cwblhau dros 50% o gwestiynau'r arolwg a oedd yn gofyn am farn rhieni neu ddysgwyr ar y Cwricwlwm i Gymru neu eu haddysg ehangach ac felly y pennwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel a oedd yn ddigonol i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Mae rhagor o fanylion am broffil sampl yr arolwg a'r boblogaeth i'w gweld ym Mhennod 3 (Methodoleg) ac Atodiad A (atodiad technegol).

Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr am eu barn gyffredinol ar yr ysgol, eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, eu cynnydd tuag at y pedwar diben, eu defnydd o'r Gymraeg, eu bodlonrwydd gyda'r ysgol, a'u lles. Gofynnwyd i rieni am eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am y newidiadau i'r cwricwlwm, eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, eu canfyddiadau o gynnydd eu plentyn, eu hyder yng nghwricwlwm yr ysgol, eu bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn, y wybodaeth a dderbyniwyd am gynnydd eu plentyn a'u barn gyffredinol ar y Cwricwlwm i Gymru yn ogystal ag addysg eu plentyn.

Mae ail don yr arolwg o rieni a dysgwyr wedi'i chynllunio fel rhan o'r gwerthusiad hwn a bwriedir ei chynnal yn ystod y flwyddyn academaidd 2026/27.

[5] Wedi'i ddiffinio fel wedi cwblhau dros 50% o gwestiynau'r arolwg a oedd yn gofyn am farn rhieni neu ddysgwyr ar y Cwricwlwm i Gymru neu eu haddysg yn ehangach ac felly y pennwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad. (gweler Pennod 3 am ragor o fanylion).

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Ym Mhennod 3, amlinellir methodoleg yr arolwg
- Yn Rhan A (Pennod 4) rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau
- Yn Rhan B cyflwynir canfyddiadau'r arolwg o ddysgwyr
- Yn Rhan C cyflwynir canfyddiadau'r arolwg o rieni/gofalwyr (y cyfeirir atynt isod ac yn yr adrannau canfyddiadau fel "rhieni")
- Yn Rhan D cyflwynir cymhariaeth o ymatebion dysgwyr a rhieni
- Yn Rhan E cyflwynir canfyddiadau dadansoddiad pellach sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng gwahanol newidynnau yn yr arolwg ac yn ceisio dilysu rhannau o'r theori newid sy'n sail i ddiwygio'r cwricwlwm ac asesu.
- Mae Atodiadau Technegol A-E yn cynnwys holiadur yr arolwg, gwybodaeth dechnegol am yr arolwg a gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r dadansoddiad ystadegol (dogfen ar wahân)
- Yn Atodiad F (dogfen ar wahân) cyflwynir tablau data'r arolwg

Noder, oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddata a gyflwynir yn yr adroddiad yn seiliedig ar werthoedd wedi'u pwysoli h.y. sut olwg fyddai ar y sampl pe bai'n genedlaethol gynrychioliadol yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer pwysoli (gweler Pennod 3 am ragor o fanylion am y fethodoleg).

# 3. Methodoleg

Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o gynllunio'r holiadur, samplu, gwaith maes yr arolwg a'r broses ddadansoddi yn ogystal â chyfyngiadau'r fethodoleg.

## Dyluniad yr holiadur

Dyluniwyd holiadur yr arolwg gan Arad a'r Athro Cyswllt Claire Sinnema gyda mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd strwythur a themâu'r holiadur yn seiliedig ar y theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu fel y'u cyflwynir yn yr astudiaeth gwmpasu (Llywodraeth Cymru, 2022). Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth a mis Mehefin 2024 i lywio dyluniad yr holiadur.

Cynlluniwyd yr holiadur i'w gwblhau gan riant yng nghwmni ei blentyn. Roedd tair rhan i'r holiadur:

- Roedd Rhan 1 yn gofyn i rieni ddarparu rhywfaint o wybodaeth am broffil (gan gynnwys grŵp blwyddyn ac ysgol y plentyn a oedd yn ateb Rhan 2 o'r arolwg) a'u barn ar addysg eu plentyn.
- Roedd rhan 2 yn gofyn am farn y plentyn ar ei addysg a rhywfaint o wybodaeth broffil ddewisol
  - Anogwyd rhieni i gefnogi plant oedran cynradd (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6) i ateb y  cwestiynau a dywedwyd wrthynt y gallai plant oedran ysgol uwchradd (Blwyddyn 7 i 9) ateb y cwestiynau'n annibynnol pe dymunent.
- Roedd Rhan 3 yn adran ddewisol i rieni a gofalwyr ddarparu rhagor o wybodaeth ddemograffig.

Gofynnwyd i’r dysgwyr am:

- eu barn gyffredinol ar yr ysgol
- eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm
- eu cynnydd tuag at y pedwar diben
- eu defnydd o'r Gymraeg
- eu bodlonrwydd gyda'r ysgol
- eu lles

Gofynnwyd i rieni am:

- eu hymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm
- eu gwybodaeth am y newidiadau i'r cwricwlwm
- eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm
- eu cyfraniad at y cwricwlwm yn ysgol eu plentyn
- eu canfyddiadau o effaith y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu ar eu plentyn a chynnydd eu plentyn tuag at amcanion y Cwricwlwm i Gymru
- eu hyder yng nghwricwlwm yr ysgol
- eu bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn
- eu bodlonrwydd â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn
- eu barn gyffredinol ynghylch y Cwricwlwm i Gymru
- eu hyder yn addysg eu plentyn

Roedd y rhan fwyaf o’r cwestiynau’n gofyn i rieni a dysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â datganiad neu gyfres o ddatganiadau, gyda rhai meysydd testun agored yn rhoi cyfleoedd i rieni roi sylwadau pellach i gefnogi eu hymatebion. Gofynnwyd i rieni hefyd gwblhau tri chwestiwn agored dewisol ar ddiwedd yr arolwg.

Roedd yr opsiynau o ran graddfa gytundeb a gyflwynwyd i ddysgwyr yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd i rieni; cynhwyswyd emojis ochr yn ochr â geiriad yr opsiwn ymateb i ddysgwyr. Cyflwynwyd tri opsiwn ymateb i ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ar gwestiynau ble y defnyddiwyd graddfa cytundeb (sef: “Nac ydw”, “Ddim yn siŵr” ac “Ydw”) tra bod pum opsiwn i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9 (sef: “Wir yn anghytuno”, “Anghytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”, “Cytuno”, “Wir yn cytuno”). Er mwyn gallu cyflwyno canlyniadau ar gyfer pob dysgwr, mae'r opsiynau ymateb "Wir yn cytuno" a "Cytuno" a gyflwynwyd i ddysgwyr o Flynyddoedd 3-9 a'r opsiwn "Ydw" a gyflwynwyd i ddysgwyr Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 2, wedi'u crynhoi a'u cyflwyno fel "Cytuno" drwy'r adroddiad cyfan, tra bod yr opsiynau ymateb "Nac ydw", "Wir yn anghytuno" ac "Anghytuno" wedi'u crynhoi a'u cyflwyno fel "Anghytuno" (cyflwynir dadansoddiadau llawn yn y tablau data yn Atodiad F). Cafodd cwestiynau eu teilwra i ddysgwyr mewn gwahanol grwpiau blwyddyn i geisio sicrhau bod dysgwyr yn cael cwestiynau y byddai dysgwyr eu hoedran nhw yn eu deall. Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Cafodd y cwestiynau i rieni a dysgwyr eu profi'n wybyddol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 gyda 12 o rieni a'u plant, a oedd yn cynnwys pedwar dysgwr Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 2, pedwar dysgwr ym Mlynyddoedd 3-6 a phedwar dysgwr ym Mlynyddoedd 7-9. Parhaodd y cyfweliadau gwybyddol am tua 45 munud, ble roedd ymchwilwyr yn rhannu cwestiynau'r arolwg ar sgrin ac yn gofyn i ymatebwyr 'feddwl yn uchel' wrth gwblhau'r arolwg fel y gallai ymchwilwyr ddeall sut roeddent yn dehongli pob cwestiwn. Fe wnaeth ymchwilwyr holi'r ymatebwyr ymhellach drwy ofyn cwestiynau fel 'Beth oeddech chi'n ei feddwl pan wnaethoch chi ateb y cwestiwn hwnnw?'. Gofynnwyd i ymatebwyr sôn am unrhyw eiriau neu ymadroddion a oedd yn anodd eu hateb neu a oedd yn aneglur, unrhyw gwestiynau yr oeddent yn ystyried eu bod yn bwysig eu gofyn i rieni ac unrhyw gwestiynau yr oeddent yn teimlo eu bod yn llai pwysig eu gofyn. Defnyddiwyd y canfyddiadau i ddiwygio'r holiadur, a chymerodd 6 rhiant a'u plant ran mewn ail gyfweliad byrrach (tua 25 munud) i brofi'r gwelliannau a wnaed.

## Fframwaith samplu

Defnyddiwyd dull samplu yn seiliedig ar gwota ar gyfer rhieni a dysgwyr, gyda thargedau (cwotâu) wedi'u gosod ar gyfer dysgwyr (a'u rhieni) â nodweddion economaidd-gymdeithasol gwahanol. Defnyddiwyd data ar boblogaeth y dysgwyr (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023/24) i greu proffil o ddysgwyr a nod y cwotâu a bennwyd oedd sicrhau bod y sampl mor gynrychioliadol â phosibl o'r boblogaeth. Y rhesymeg dros y dull hwn, yn hytrach na defnyddio sampl haenedig ar hap, oedd nad oedd gan y tîm gwerthuso fynediad at gronfa ddata o rieni na dysgwyr y gellid ei defnyddio i ddewis cyfranogwyr yr arolwg, dosbarthu'r arolwg yn uniongyrchol i'r derbynyddion bwriadedig ac y gellid monitro ymatebion yn eu herbyn. Ar ben hynny, dosbarthwyd yr arolwg yn anuniongyrchol drwy hysbysebion wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy sefydliadau rhanddeiliaid (gweler Pennod 3). Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl gwybod faint o rieni a dysgwyr a dderbyniodd y gwahoddiad i'r arolwg er mwyn gallu amcangyfrif lefelau'r diffyg ymateb.

Cafodd ymatebion rhieni a dysgwyr eu monitro yn erbyn nodweddion hysbys poblogaeth yr arolwg a gosodwyd cwotâu ar gyfer gwahanol haenau. Nod yr arolwg oedd cael sampl o tua 1000 o ddysgwyr. Er mwyn cyflawni hyn, tybiwyd y byddai angen ymatebion gan tua 1500 o rieni, er mwyn caniatáu ar gyfer athreuliad tybiedig wrth drosglwyddo rhwng y rhiant a'r

plentyn.[Troednodyn 6] Targedwyd sampl cwota haenedig o ddysgwyr a rhieni gan ddefnyddio'r cwotâu a nodir yn Nhablau 6 a 7yn Atodiad technegol B.

Defnyddir y disgrifyddion a amlinellir yn Tabl 1 drwy gydol yr adroddiad hwn i ddisgrifio grwpiau ac is-grwpiau o ymatebwyr.

**Tabl 1. Disgrifiadau a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar grwpiau ac is-grwpiau o ymatebwyr yn yr adroddiad hwn**

| Labeli grŵp a ddefnyddir yn yr adroddiad | Labeli is-grŵp a ddefnyddir | Disgrifiad o'r ymatebwyr sydd wedi'u cynnwys yn yr haen |
|---|---|---|
| Rhieni/dysgwyr ysgol gynradd | - | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 a gwblhaodd yr arolwg |
| Rhieni/dysgwyr ysgol uwchradd | - | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) ym Mlynyddoedd 7-9 a gwblhaodd yr arolwg |
| Rhieni/dysgwyr UCD/ysgol arbennig | - | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o UCDau neu ysgolion arbennig a gwblhaodd yr arolwg. Cafodd y dysgwyr/rhieni hyn eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd y samplau bach a gafwyd. |
| Rhieni/dysgwyr ysgol cyfrwng Cymraeg | - | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig ac ysgolion dwy iaith yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (gan gynnwys ysgolion dwyieithog dwy ffrwd, categori A, B ac C yn flaenorol) |
| Dysgwyr neu rieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | - | |
| Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) | - | Dysgwyr y mae eu rhieni wedi nodi bod ganddynt CDU - dogfen gyfreithiol sy'n disgrifio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plentyn neu berson ifanc, y cymorth sydd ei hangen arnynt, a'r deilliannau yr hoffent eu cyflawni. |
| Dysgwyr anabl (neu rieni dysgwyr anabl) | - | Dysgwyr y dywedodd eu rhieni yn yr arolwg fod gan eu plentyn anhawster neu anabledd dysgu |

[6] Tybiwyd, mewn tua thraean o achosion, na fyddai ymateb gan rieni yn ennyn ymateb gan eu plentyn hefyd. Roedd y gyfradd athreuliad yn is na hyn mewn gwirionedd.

| **Labeli grŵp a ddefnyddir yn yr adroddiad** | **Labeli is-grŵp a ddefnyddir** | **Disgrifiad o'r ymatebwyr sydd wedi'u cynnwys yn yr haen** |
|---|---|---|
| Dysgwyr neu rieni (yn achos yr arolwg o rieni) o ysgolion â chanran isel/canolig/uchel o ddysgwyr ag ADY/AAA* | Ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY/AAA | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gyda llai na 7% o ddysgwyr ag ADY/AAA |
| | Ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY/AAA | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gyda 7.1-14% o ddysgwyr ag ADY/AAA |
| | Ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY/AAA | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gyda thros 14% o ddysgwyr ag ADY/AAA |
| Dysgwyr neu rieni (yn achos yr arolwg o rieni) o ysgolion â chanran isel/canolig/uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim* | Ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gyda llai nag 13% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| | Ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gydag 13.1-25% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| | Ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion gydag thros 25% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| Rhieni/dysgwyr ysgolion yng nghanolbarth y de, y canolbarth a'r gorllewin, y gogledd neu'r de-ddwyrain | Ysgolion yn rhanbarth canolbarth y de | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful |
| | Ysgolion yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion sydd yn Sir Benfro, Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin, Abertawe neu Gastell-nedd Porth Talbot |
| | Ysgolion yn rhanbarth y gogledd | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion sydd un Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam neu Sir y Fflint |
| | Ysgolion yn rhanbarth y de-ddwyrain | Dysgwyr (neu rieni dysgwyr) o ysgolion yng Nghaerffili, Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen neu Sir Fynwy |

* Datblygwyd categorïau o ysgolion â lefelau uchel, canolig ac isel o ddisgyblion ag ADY a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan ddefnyddio data CYBLD 2023/24. Defnyddiwyd y trothwyon hyn fel bod tua thraean o ysgolion a lleoliadau yn dod o fewn pob categori. Adeg yr arolwg, roedd dysgwyr yn y broses o gael eu symud o'r system AAA i'r system ADY.

## Gwaith maes yr arolwg

Lansiwyd yr arolwg ar 30 Medi 2024 a daeth i ben ar 20 Rhagfyr 2024. Y prif ddull a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r arolwg oedd hysbysebion wedi'u targedu at rieni ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Dewiswyd platfformau meta (Facebook ac Instagram) fel y prif sianeli dosbarthu oherwydd eu cyrhaeddiad a'r gallu i dargedu defnyddwyr yn seiliedig ar eu lleoliad, eu hoedran a'u diddordebau. Dyluniwyd cyfres o hysbysebion gan asiantaeth ddigidol a chawsant eu dosbarthu drwy gyfrif “Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref” Llywodraeth Cymru. Roedd y testun a oedd yn cyd-fynd â'r hysbysebion hyn yn cynnwys dolen i gwblhau'r arolwg ac roedd hefyd yn ceisio ysgogi cyfranogiad drwy nodi y gallai'r rhai a gwblhaodd yr arolwg gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill taleb siopa os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Cafodd yr ymgysylltiad â'r hysbysebion ei fonitro'n barhaus yn ystod cyfnod yr arolwg ochr yn ochr â nifer yr ymatebion i'r arolwg yn ôl pob haen o'r fframwaith samplu gan gynnwys lleoliad daearyddol, sector (cynradd/uwchradd/arbennig/UCD), cyfrwng iaith yr ysgol, daearyddiaeth, cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ethnigrwydd. Diwygiwyd yr hysbysebion i dargedu grwpiau penodol o ymatebwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, er enghraifft, drwy:

- dargedu'r arolwg at rieni mewn rhanbarthau nad oeddent wedi'u cynrychioli cystal yn y sampl (yn enwedig rhieni yn ardaloedd trefol mawr Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd)
- targedu'r arolwg at rieni mewn ardaloedd â chanrannau uwch o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- sicrhau bod y delweddau a ddefnyddir mewn hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolaeth o ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol
- gofyn i sefydliadau rhanddeiliaid (gweler Atodiad technegol B) sy'n gweithio gyda grwpiau penodol o rieni (rhieni plant ag ADY, rhieni sengl, rhieni Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol) ailbostio manylion yr arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol neu ei ddosbarthu i'w rhwydweithiau drwy e-bost

Cafwyd cyfanswm o 10,740 clic ar yr hysbysebion yn ystod cyfnod yr arolwg gan 9,500 o bobl unigryw. Dangosir enghreifftiau o'r hysbysebion a ddefnyddiwyd yn Atodiad technegol B isod.

Gan fod yr arolwg wedi'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, roedd y risg o gael ymatebion gan bobl nad oeddent yn rhan o'r gynulleidfa darged yn uwch nag mewn arolwg a ddosbarthwyd i restr gaeedig o ymatebwyr. Cymerwyd rhai mesurau lliniaru wrth gynllunio a dosbarthu'r holiadur i geisio eithrio neu gyfyngu ar y tebygolrwydd o gael ymatebion gan unigolion nad oeddent yn rhan o'r gynulleidfa darged. Yn ystod y cam o ddylunio'r holiadur, roedd hyn yn cynnwys:

- rhoi manylion am y gynulleidfa darged ar dudalen flaen yr holiadur
- roedd cwestiynau gorfodol gyda hidlwyr yn anghymhwyso ymatebwyr nad oeddent yn rhan o'r gynulleidfa darged (e.e. y rhai a ddywedodd nad oedd eu plentyn o fewn yr ystod oedran, neu a ddywedodd fod eu plentyn wedi mynd i ysgol y tu allan i Gymru)
- cynnwys cwestiynau a fyddai wedi bod yn anoddach i unigolion nad oeddent yn rhan o'r gynulleidfa darged eu cwblhau, er enghraifft gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd enw ysgol eu plentyn

Yn ystod y cam o ddosbarthu'r holiadur:

- cafodd hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol eu targedu'n ddaearyddol yng Nghymru ac at bobl yr oedd Meta wedi'u hadnabod fel rhieni ac a oedd mewn ystod oedran briodol
- roedd geiriad yr hysbysebion yn ei gwneud yn glir pwy oedd yn cael ei dargedu, a defnyddiwyd geiriad yn ymwneud â lleoliadau penodol yn y camau diweddarach

## Glanhau'r gronfa ddata

Glanhawyd cronfa ddata'r ymatebion gan ddysgwyr a rhieni er mwyn eithrio ymatebion:

- a nodwyd gan feddalwedd yr arolwg fel ymatebion gan bobl o'r tu allan i'r DU
- a oedd yn amlwg heb ddarllen y cwestiynau (e.e. lle roedd yr ymatebwyr wedi ysgrifennu sylwadau nad oeddent yn gysylltiedig â'r arolwg)

- a oedd yn amlwg yn ymatebion dyblyg ac nad oeddent wedi cwblhau 50% o'r cwestiynau a oedd yn gofyn eu barn ar agwedd ar eu haddysg (h.y. ac eithrio'r cwestiynau proffil)

## Sampl yr arolwg o ddysgwyr

Ar ôl eithrio ymatebwyr yn ystod y broses glanhau data, cafwyd 757 o ymatebion i'r arolwg gan ddysgwyr y barnwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae Tabl 2 yn dangos bod 58% o'r ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr yn ddysgwyr mewn ysgolion cynradd, bod 41% yn ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd a:

- bod 20% yn y grŵp Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 2, 40% ym Mlynyddoedd 3-6 a 40% ym Mlynyddoedd 7-9
- bod tua hanner y dysgwyr yn fechgyn (48%) a thua'u hanner yn ferched (47%) gyda 4% yn nodi eu bod yn well ganddynt beidio â dweud
- bod 10% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- bod 32% yn ddysgwyr anabl (fel y nodwyd gan eu rhiant), nad oedd 63% yn ddysgwyr anabl a bod 5% ddim yn siŵr
    - O blith y rhai y dywedodd eu rhieni eu bod yn ddysgwyr anabl, dywedodd 51% fod ganddynt Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a dywedodd 49% nad oedd ganddynt gynllun o'r fath
- o ran iaith yr aelwyd, dywedodd 72% o rieni mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd, dywedodd 16% eu bod yn siarad Cymraeg a Saesneg, roedd 8% yn siarad Cymraeg a 4% yn siarad cyfuniad o ieithoedd eraill a/neu Saesneg/Cymraeg ar yr aelwyd
- bod 66% o ysgolion cyfrwng Saesneg a 33% o ysgolion cyfrwng Cymraeg
- bod 42% mewn ysgolion â lefel ganolig o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gweler Tabl 1 ar gyfer diffiniadau o is-grwpiau), 34% mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 24% mewn ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn

- bod 38% mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY, 32% mewn ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY, a 30% mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd 28% mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, 42% mewn ysgolion â chanran ganolig a 30% mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr o'r cefndiroedd hynny.

**Tabl 2. Nifer a chanran yr ymatebion i'r arolwg o ddysgwyr yn ôl newidynnau demograffig a lefel ysgol**

| Newidyn demograffig | Amlder (nifer y dysgwyr) | % (y dysgwyr yn y sampl) | % (yr ymatebion dilys) (ii) | % (y boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| **Sector ysgol y dysgwyr:** | | | | |
| Cynradd | 439 | 58.0 | 58.0 | 66.0 |
| Uwchradd a phob oed (3-16/18) | 312 | 41.2 | 41.2 | 32.9 |
| UCD | 2 | 0.3 | 0.3 | 0.3 (iii) |
| Ysgolion arbennig | 4 | 0.5 | 0.5 | 1.1 |
| **% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol (vi)** | | | | |
| Isel | 255 | 33.7 | 33.7 | 30.8 |
| Canolig | 318 | 42.0 | 42.0 | 32.7 |
| Uchel | 178 | 23.5 | 23.5 | 32.3 |
| Anhysbys / Dim data | 6 | 0.8 | 0.8 | 4.1 |
| **% yr ysgol o ddysgwyr ag ADY: (vi)** | | | | |
| Isel | 285 | 37.6 | 37.6 | 34.1 |
| Canolig | 240 | 31.7 | 31.7 | 31.0 |
| Uchel | 226 | 29.9 | 29.9 | 30.8 |
| Anhysbys / Dim data | 6 | 0.8 | 0.8 | 4.1 |
| **% yr ysgol o ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol: (vi)** | | | | |
| Isel | 209 | 27.6 | 27.6 | 29.4 |
| Canolig | 315 | 41.6 | 41.6 | 34.8 |
| Uchel | 227 | 30.0 | 30.0 | 31.6 |
| Anhysbys / Dim data | 6 | 0.8 | 0.8 | 4.1 |
| **Cyfrwng iaith yr ysgol:** | | | | |
| Cymraeg (iv) | 249 | 32.9 | 32.9 | 23.1 |
| Saesneg | 502 | 66.3 | 66.3 | 75.7 |
| Heb eu dosbarthu yn ôl cyfrwng iaith | 6 | 0.8 | 0.8 | |
| **Grŵp Blwyddyn y Dysgwr:** | | | | |
| Derbyn – Blwyddyn 2 | 155 | 20.5 | 20.5 | 28.1 |
| Blynyddoedd 3 - 6 | 302 | 39.9 | 39.9 | 40.5 |
| Blynyddoedd 7 - 9 | 300 | 39.6 | 39.6 | 31.3 |
| **A yw'r dysgwr yn anabl: (i)** | | | | |
| Ydy | 239 | 31.6 | 31.6 | (ll) |
| Ddim yn siŵr | 41 | 5.4 | 5.4 | (ll) |
| Nac ydy | 477 | 63.0 | 63.0 | (ll) |
| **A oes gan y dysgwr CDU: (i) (vi)** | | | | |
| Oes | 120 | 15.9 (vii) | 50.6 | 4.5 |
| Ddim yn siŵr | 0 | 0.00 (vii) | 0.00 | (ll) |
| Nac oes | 117 | 15.5 (vii) | 49.4 | 95.5 |
| Dim Ymateb | 520 | 68.7 (vii) | | |

| Newidyn demograffig | Amlder (nifer y dysgwyr) | % (y dysgwyr yn y sampl) | % (yr ymatebion dilys) (ii) | % (y boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Iaith Aelwyd y Dysgwr (i)** | | | | |
| Cymraeg | 50 | 6.6 | 8.3 | (ll) |
| Saesneg | 435 | 57.5 | 72.3 | (ll) |
| Cymraeg a Saesneg | 95 | 12.5 | 15.8 | (ll) |
| Cyfuniad Arall | 22 | 2.9 | 3.7 | (ll) |
| Dim Ymateb | 155 | 20.5 | | |
| **Rhyw'r Dysgwr:** | | | | |
| Bachgen | 283 | 37.4 | 47.6 | 48.9 |
| Merch | 281 | 37.1 | 47.3 | 51.1 |
| Arall | 5 | 0.7 | 0.8 | (ll) |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 25 | 3.3 | 4.2 | (ll) |
| Dim Ymateb | 163 | 21.5 | | |
| **Ethnigrwydd y Dysgwr: (i)** | | | | |
| Gwyn | 590 | 77.9 | 92.9 | 85.5 |
| Ethnigrwydd Lleiafrifol | 45 | 5.9 | 7.1 | 14.5 |
| Dim Ymateb | 122 | 16.1 | | |
| **Cymhwystra dysgwyr i gael prydau bwyd am ddim: (i)** | | | | |
| Ydy | 68 | 9.0 | 10.2 | 21.6 |
| Ddim yn siŵr | 23 | 3.0 | 3.4 | (ll) |
| Nac ydy | 576 | 76.1 | 86.4 | 78.4 |
| Dim Ymateb | 90 | 11.9 | | |
| | | | | |

(i) Fel yr adroddwyd gan y rhiant
(ii) Heb gynnwys ymatebwyr na roddodd unrhyw ymateb i'r cwestiwn am y newidyn demograffig
(iii) Yn seiliedig ar 1276 o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn UCDau yn 2023/24 (Ffynhonnell: Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)).
(iv) Yn cynnwys ysgolion a oedd gynt yn cael eu categoreiddio fel categorïau dwyieithog A, B ac C / dwy ffrwd / pontio sydd bellach wedi'u categoreiddio fel ysgolion dwy iaith, cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sy'n pontio i'r categorïau hynny, yn seiliedig ar y categorïau a ddefnyddiwyd yn CYBLD 2023/24.
(v) Dim data poblogaeth cyfatebol ar gael
(vi) Data poblogaeth yn seiliedig ar ddysgwyr 5-15 oed yn CYBLD 2023-24
(vii) Dim ond rhieni a oedd yn ystyried bod eu plentyn yn ddysgwr anabl y gofynnwyd iddynt a oedd gan eu plentyn CDU. Mae'r canrannau yn y sampl a ddangosir o'r sampl gyfan, yn hytrach na'r ganran a atebodd y cwestiwn er mwyn galluogi cymhariaeth â'r boblogaeth.

## Sampl yr arolwg o rieni

Ar ôl eithrio ymatebwyr yn ystod y broses glanhau data, cafwyd 1094 o ymatebion i'r arolwg gan rieni y barnwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Tabl 3 yn dangos bod tua hanner y rhieni a gwblhaodd yr arolwg (58%) wedi ateb yn seiliedig ar eu profiadau fel rhiant i ddysgwr ysgol gynradd, bod 41% wedi ateb yn seiliedig ar fod yn rhiant i ddysgwr ysgol uwchradd a lleiafrif bach o rieni wedi ateb yn seiliedig ar eu profiad fel rhiant i blentyn mewn UCD neu ysgol arbennig.[Troednodyn 7] Mae hefyd yn dangos:

- bod ymatebwyr wedi nodi amlaf mai Saesneg oedd cyfrwng iaith eu hysgol a'u haelwyd
- bod gan leiafrif o rieni blant yn y grŵp Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 2, bod gan tua 40% o'r ymatebwyr blant ym mlynyddoedd 3 i 6 a bod gan gyfran debyg blant ym mlynyddoedd 7 i 9.
- bod tua thraean o'r ymatebwyr (31%) wedi nodi bod eu plentyn yn ddysgwr anabl, ond o blith y rhain, fodd bynnag, roedd gan lai na'u hanner (48%) CDU
- bod tua hanner y rhieni wedi dweud bod eu plentyn yn “Fachgen” a thua hanner wedi dweud bod eu plentyn yn “Ferch”, gyda lleiafrif bach yn dewis opsiynau ymateb eraill
- lle y darparwyd ymatebion ar gyfer cwestiynau proffil eraill, nododd y mwyafrif helaeth eu bod yn “Wyn” ac nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- roedd gan leiafrif o rieni blant mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ag ADY, neu mewn ysgolion â chanran isel o leiafrifoedd ethnig

[7} Gofynnwyd i rieni ateb yr arolwg yn seiliedig ar eu profiadau gyda'r plentyn a gwblhaodd yr arolwg. Fodd bynnag, roedd y cwestiynau am ymwybyddiaeth o newidiadau i'r cwricwlwm a gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, yn gofyn i rieni ymateb yn seiliedig ar eu barn gyffredinol, a allai fod yn seiliedig ar fwy nag un plentyn neu ysgol.

Tabl 3 yn cyflwyno'r dadansoddiad manwl heb ei bwysoli o nodweddion yr ymatebwyr i'r arolwg o rieni yn ôl nodweddion demograffig.

## Tabl 3. Nifer a chanran yr ymatebion i'r arolwg o rieni yn ôl newidynnau demograffig a lefel ysgol

| Newidyn demograffig | Amlder (nifer y rhieni) | % (o rieni yn y sampl) | % (yr ymatebion dilys) (ii) | % (o'r boblogaeth) (iii) |
|---|---|---|---|---|
| **Sector Ysgol plentyn y rhiant:** | | | | |
| Cynradd | 634 | 58.0 | 58.0 | 66.0 |
| Uwchradd a phob oed (3-16/18) | 451 | 41.2 | 41.2 | 32.9 |
| UCD | 4 | 0.4 | 0.4 | 0.3 |
| Ysgolion arbennig | 5 | 0.5 | 0.5 | 1.1 |
| **% y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol** | | | | |
| Isel | 390 | 35.6 | 35.6 | 30.8 |
| Canolig | 445 | 40.7 | 40.7 | 32.7 |
| Uchel | 250 | 22.9 | 22.9 | 32.3 |
| Anhysbys | 9 | 0.8 | 0.8 | 4.1 |
| **% yr ysgol o ddysgwyr ag ADY:** | | | | |
| Isel | 432 | 39.5 | 39.5 | 34.1 |
| Canolig | 350 | 32.0 | 32.0 | 31.0 |
| Uchel | 303 | 27.7 | 27.7 | 30.8 |
| Anhysbys | 9 | 0.8 | 0.8 | 4.1) |
| **% yr ysgol o ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol:** | | | | |
| Isel | 307 | 28.1 | 28.1 | 29.4 |
| Canolig | 427 | 39.0 | 39.0 | 34.8 |
| Uchel | 351 | 32.1 | 32.1 | 31.6 |
| Anhysbys | 9 | 0.8 | 0.8 | 4.1 |
| **Cyfrwng iaith yr ysgol:** | | | | |
| Cymraeg (ll) | 359 | 32.8 | 32.8 | 23.1 |
| Saesneg | 726 | 66.4 | 66.4 | 75.7 |
| Anhysbys | 9 | 0.8 | 0.8 | |
| **Grŵp Blwyddyn Dysgwyr: (i)** | | | | |
| Derbyn – Blwyddyn 2 | 239 | 21.8 | 21.8 | 28.1 |
| Blynyddoedd 3 - 6 | 425 | 38.8 | 38.8 | 40.5 |
| Blynyddoedd 7 - 9 | 430 | 39.3 | 39.3 | 31.3 |
| **A yw'r dysgwr yn anabl: (i)** | | | | |
| Ydy | 341 | 31.2 | 31.2 | (vi) |
| Ddim yn siŵr | 68 | 6.2 | 6.2 | (vi) |
| Nac ydy | 685 | 62.6 | 62.6 | (vi) |
| **A oes gan y dysgwr CDU: (i)** | | | | |
| Oes | 162 | 14.8 (viii) | 47.8 | 4.5 |
| Ddim yn siŵr | 33 | 3.0 (viii) | 9.7 | (vi) |
| Nac oes | 144 | 13.2 (viii) | 42.5 | 95.5 |
| Dim Ymateb | 755 | 69.0 (viii) | | |

| Newidyn demograffig | Amlder (nifer y rhieni) | % (o rieni yn y sampl) | % (yr ymatebion dilys) (ii) | % (o'r boblogaeth) (iii) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith Aelwyd y Dysgwr: (i)** | | | | |
| Cymraeg | 50 | 4.6 | 8.3 | (vi) |
| Saesneg | 436 | 39.9 | 72.2 | (vi) |
| Cymraeg a Saesneg | 96 | 8.8 | 15.9 | (vi) |
| Cyfuniad Arall | 22 | 2.0 | 3.6 | (vi) |
| Dim Ymateb | 490 | 44.8 | | |
| **Rhyw'r Dysgwr:** | | | | |
| Bachgen | 285 | 26.1 | 47.2 | 48.9 |
| Merch | 286 | 26.1 | 47.4 | 51.1 |
| Arall | 5 | 0.5 | 0.8 | (vi) |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 28 | 2.6 | 4.6 | (vi) |
| Dim Ymateb | 490 | 44.8 | | |
| **Ethnigrwydd y Dysgwr: (i)** | | | | |
| Gwyn | 593 | 54.2 | 92.9 | 85.5 |
| Ethnigrwydd Lleiafrifol | 45 | 4.1 | 7.1 | 14.5 |
| Dim Ymateb | 456 | 41.7 | | |
| **Cymhwystra dysgwyr i gael prydau bwyd am ddim: (i)** | | | | |
| Ydy | 68 | 6.2 | 10.1 | 21.6 |
| Ddim yn siŵr | 23 | 2.1 | 3.4 | (vi) |
| Nac ydy | 580 | 53.0 | 86.4 | 78.4 |
| Dim Ymateb | 423 | 38.7 | | |

(i) Fel yr adroddwyd gan y rhiant
(ii) Heb gynnwys ymatebwyr na roddodd unrhyw ymateb i'r cwestiwn am y newidyn demograffig
(iii) Data dysgwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer proffil y boblogaeth
(iv) Yn seiliedig ar 1276 o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn UCDau yn 2023/24 (Ffynhonnell: Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)).
(v) Yn cynnwys ysgolion a oedd gynt yn cael eu categoreiddio fel categorïau dwyieithog A, B ac C / dwy ffrwd / pontio sydd bellach wedi'u categoreiddio fel ysgolion dwy iaith, cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sy'n pontio i'r categorïau hynny, yn seiliedig ar y categorïau a ddefnyddiwyd yn CYBLD 2023/24.
(vi) Dim data poblogaeth cyfatebol ar gael
(vii) Data poblogaeth yn seiliedig ar ddysgwyr 5-15 oed yn CYBLD 2023-24
(viii) Dim ond rhieni a oedd yn ystyried bod eu plentyn yn ddysgwr anabl y gofynnwyd iddynt a oedd gan eu plentyn CDU. Mae'r canrannau yn y sampl a ddangosir o'r sampl gyfan, yn hytrach na'r ganran a atebodd y cwestiwn er mwyn galluogi cymhariaeth â'r boblogaeth.

## Dadansoddiad meintiol o'r arolwg

Mae'r data a gyflwynir yn adrannau canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u pwysoli (h.y. wedi'u haddasu fel bod proffil y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth) yn ôl gwybodaeth am nodweddion rhieni a dysgwyr y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru ac a nodir isod. Fel rhan o'r broses hon, adolygwyd data'r arolwg i asesu i ba raddau yr oedd ymatebion ar goll ar gyfer pob un o gwestiynau'r arolwg. Defnyddiwyd hyn i benderfynu a oedd nifer digonol o ymatebion i bob cwestiwn y bwriadwyd ei ddefnyddio i bwysoli'r sampl neu i ddadansoddi'r canlyniadau yn ôl nodweddion penodol. Er mwyn

lleihau achosion o lefelau uchel o ymatebion coll yn arwain at gamliwio canfyddiadau'r arolwg, dim ond os oedd o leiaf 50% o gwestiynau'r arolwg wedi'u hateb y cafodd ymatebwyr eu cynnwys yn y dadansoddiad.[Troednodyn 8]

Cynhyrchwyd crynodebau disgrifiadol heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli o'r ymatebion i bob cwestiwn, ar ffurf cyfrifon amlder (h.y. nifer yr ymatebion) a chanrannau. Cyfrifwyd y rhain yn gyffredinol ac fe'u dadansoddwyd hefyd yn ôl y nodweddion a ddefnyddiwyd ar gyfer pwysoli'r data.

Cynhyrchwyd graffiau wedi eu pwysoli a heb eu pwysoli hefyd yn dangos cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd bob ymateb ar gyfer pob cwestiwn yn yr arolwg. Drwy'r adroddiad cyfan, ffynhonnell pob siart yw'r arolwg o ddysgwyr a'u rhieni.

Crëwyd y matricsau pwysoli ar gyfer pob un o gwestiynau unigol yr arolwg gan ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD) 2024. Pwysolwyd y sampl gan ddefnyddio'r nodweddion lefel ysgol a restrir isod a gafodd eu paru ag enw'r ysgol a ddewiswyd gan yr ymatebwyr gan ddefnyddio data eilaidd o CYBLD 2024. Sicrhaodd hyn nad oedd y ffactorau a ddefnyddiwyd ar gyfer pwysoli'r sampl yn dibynnu ar ymatebwyr yn cwblhau pob cwestiwn yn yr arolwg ac nad oedd y broses bwysoli wedi'i hystumio gan ddata coll. Y newidynnau pwysoli a ddefnyddiwyd oedd:

- cyfrwng iaith yr ysgol (Cymraeg/Saesneg/Anhysbys)
- sector yr ysgol (Cynradd/Uwchradd a phob oed (3-16/18)/UCD/Arbennig)
- rhanbarth yr ysgol (y gogledd/y canolbarth a'r gorllewin/canolbarth y de/y de-ddwyrain)
- canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Isel/Canolig/Uchel)
- canran y dysgwyr ag ADY (Isel/Canolig/Uchel)
- canran y dysgwyr Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn yr ysgol (Isel/Canolig/Uchel)

Ar gyfer pob cyfuniad o'r newidynnau uchod, gwerthusodd y matrics pwysoli:

- amleddau'r boblogaeth ar gyfer y cyfuniad penodol o newidynnau
- amleddau'r sampl ar gyfer y cyfuniad penodol o newidynnau

[8] Cafodd cwestiynau proffil eu heithrio o'r broses hon, felly roedd yn rhaid i'r ymatebwyr fod wedi ateb 50% o'r cwestiynau a oedd yn gofyn am eu barn ar agwedd ar eu haddysg nhw neu addysg eu plentyn.

- y pwysau ar gyfer y cyfuniad penodol o newidynnau fel amledd y boblogaeth wedi'i rannu ag amlder y sampl

Cynhaliwyd cyfres o brofion casgliadol i wirio a oedd gwahaniaethau nodedig yn yr ymatebion rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr (e.e. dysgwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd). Gan fod y canlyniadau wedi'u pwysoli, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r canlyniadau a fyddai'n ddisgwyliedig o sampl sy'n genedlaethol gynrychioliadol. Felly, gellir ystyried bod canfyddiadau'r arolwg yn nodedig er nad yw'r ymatebwyr gwirioneddol yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. Lle mae'r newidyn deilliant yn drefnol (h.y. lle roedd trefn glir i'r opsiynau ymateb), cafodd unrhyw ymatebion "Ddim yn siŵr" eu hailgodio i gyd-fynd â'r opsiwn ar ganol y raddfa (e.e. "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno". Roedd y newidynnau demograffig y dadansoddwyd gwahaniaethau mewn ymatebion ar eu cyfer yn cynnwys:

- cyfrwng iaith yr ysgol (Saesneg/Cymraeg)
- sector yr ysgol (cynradd / uwchradd)
- canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Uchel/Canolig/Isel)
- canran y dysgwyr ag ADY (Uchel/Canolig/Isel)
- rhanbarth yr ysgol (y gogledd/y canolbarth a'r gorllewin/canolbarth y de/y de-ddwyrain)
- dysgwr anabl (Ie/Na)
- dysgwyr gyda Chynllun Datblygu Unigol (CDU) (Ie/Na)[Troednodyn 9]
- iaith aelwyd y dysgwr (Saesneg/Cymraeg/Arall)
- ethnigrwydd y dysgwr

Pennwyd bod gwahaniaethau nodedig a nodwyd gan y profion neu'r modelau atchwel yn rhai â gwerthoedd-p islaw 0.05. Mae rhagor o fanylion am y profion a ddefnyddiwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad technegol yn Atodiad B.

[9] Dim ond i rieni dysgwyr anabl (y rhieni a atebodd 'Ydw' mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg a ofynnodd a oeddent yn credu bod gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu) y gofynnwyd a oedd gan eu plentyn CDU. Yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn, mae '(rhieni) dysgwyr heb CDU' yn cyfeirio at ddysgwyr anabl a'u rhieni a ddywedodd nad oedd gan eu plentyn CDU a dysgwyr nad ydynt yn anabl a'u rhieni.

## Cyflwyno canfyddiadau meintiol

Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, defnyddir y disgrifyddion canlynol i adrodd ar y ganran wedi'i phwysoli o ymatebwyr a roddodd ymatebion penodol i gwestiynau.

**Tabl 4. Disgrifyddion a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ganrannau'r ymatebwyr yn yr adroddiad hwn**

| **Canran yr ymatebwyr** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| 85%+ | Y mwyafrif helaeth |
| 59-84% | Y mwyafrif |
| 42-58% | Tua hanner |
| 15-41% | Lleiafrif |
| Llai na 15% | Lleiafrif bach |

Noder, oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddata a gyflwynir yn yr adroddiad yn seiliedig ar werthoedd wedi'u pwysoli h.y. sut olwg fyddai ar y sampl pe bai'n genedlaethol gynrychioliadol yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer pwysoli. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r canfyddiadau a gyflwynir yn gorgynrychioli neu'n tangynrychioli barn un grŵp penodol o'r boblogaeth. Ni ddangosir meintiau samplau o dan bob siart oherwydd bod y nifer a ymatebodd i bob datganiad o fewn cwestiwn yn amrywio. Ar ben hynny, mae'r siartiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar niferoedd wedi'u pwysoli yn hytrach na niferoedd gwirioneddol yr ymatebion, sy'n golygu nad yw nifer crai yr ymatebwyr yn cysylltu'n uniongyrchol â'r canrannau yn y siartiau. Cyflwynir tablau data yn Atodiad F sy'n dangos y niferoedd gwirioneddol ac wedi'u pwysoli o ymatebwyr.

Dim ond gwahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau a drafodir yn yr adroddiad hwn oherwydd nifer y newidynnau a archwiliwyd; felly, mae **pob** gwahaniaeth rhwng grwpiau a drafodir yn wahaniaethau nodedig, ac nid ydym yn ailddatgan hyn cyn pob gwahaniaeth. Diffinnir gwahaniaethau nodedig fel y rhai sy'n ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5% yn y profion casgliadol, ond o ystyried y sampl annhebygolrwydd o ymatebwyr ac anymarferoldeb rhoi cyfrif am bob ffynhonnell o duedd yn y sampl (hyd yn oed wrth bwysoli), ni chânt eu cofnodi fel rhai ystadegol arwyddocaol. Yn yr un modd, crybwyllir yr holl wahaniaethau nodedig mewn is-grŵp yn yr adran berthnasol. Gan mai dim ond

achosion cyflawn y mae'r modelau atchwel yn eu cynnwys, h.y. unigolion ble mae data ar gael ar gyfer y datganiad yn y cwestiwn a'r grŵp demograffig yr adroddir arnynt, mae'r garfan sydd wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad yn is-grŵp o'r holl ymatebwyr a roddodd ymateb i'r cwestiwn unigol. Felly, ni chyflwynir canran yr ymatebwyr ym mhob is-grŵp o newidyn demograffig arwyddocaol yn y crynodebau o ganfyddiadau arwyddocaol er mwyn osgoi cam-gynrychioli’r grŵp y mae'r canfyddiadau arwyddocaol yn seiliedig arno.

Yn yr holl destun yn yr adroddiad hwn, gellir crynhoi cryfderau amrywiol ymatebion cadarnhaol a negyddol i ddatganiad a'u hadrodd fel un gyfran/canran o gyfanswm yr ymatebion. Er enghraifft, lle mae 10% o ymatebwyr yn dewis “Cytuno’n gryf” a 15% yn dewis “Cytuno”, gellir cofnodi hyn fel pe bai 25% o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cytuno i ryw raddau â’r datganiad.

Mae'r siartiau drwy'r adroddiad cyfan yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn ymateb, ond nid yw gwerthoedd islaw 5% yn cael eu dangos oherwydd prinder lle. Ar gyfer crynodebau disgrifiadol a graffiau, cyflwynir yr ymatebion “Ddim yn berthnasol” ac “Ddim yn siŵr” fel opsiynau ymateb ar wahân, fodd bynnag, ar gyfer y dadansoddiad casgliadol (is-grŵp), cyfunwyd yr ymatebion hyn ynghyd ag unrhyw ymateb niwtral arall fel “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”.

Er bod amrywiadau o gwestiynau a oedd yn addas i oedran wedi'u defnyddio ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, cafodd ymatebion yr holl ddysgwyr eu crynhoi yn y canfyddiadau. Er enghraifft, mae hyn yn golygu bod ymatebion i'r cwestiwn a gyflwynwyd i ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 wedi'u cyfuno ag ymatebion i'r cwestiwn a ddangoswyd i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6 a dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9. Er mwyn gwneud hyn, symleiddiwyd ymatebion gan grwpiau blwyddyn hŷn i gyd-fynd â'r opsiynau ymateb "Ydw"/"Nac ydw"/"Ddim yn siŵr" ar gyfer y dysgwyr ieuengaf.

## Dadansoddiad ansoddol o'r arolwg

Defnyddiwyd dull systematig i ddadansoddi'r data ansoddol o ymatebion rhieni i'r cwestiynau testun agored. Roedd hyn yn caniatáu i ni gynnal dadansoddiad strwythuredig o'r ymatebion ac ystyried materion a ddaeth i'r amlwg o'r data ei hun ac nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen o bosibl. Adolygwyd sampl o ymatebion i bob cwestiwn testun agored i ddechrau a phennwyd hyd at bum 'cod' thematig (e.e. “cyfathrebu da gyda’r ysgol”) i bob ymateb yn annibynnol gan o leiaf ddau ymchwilydd. Roedd y codau hyn yn seiliedig ar ddehongliad yr ymchwilydd o'r ymateb. Yna cymharwyd a thrafodwyd y setiau cychwynnol o godau'r ymchwilwyr er mwyn cytuno ar y prif bwyntiau a oedd yn dod i'r amlwg o'r

dystiolaeth, a defnyddiwyd hwn fel sail i godio'r ymatebion a oedd yn weddill a'r dadansoddiad dilynol. Mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn, cyflwynir nifer y rhieni a gwblhaodd bob cwestiwn testun agored wedi'i ddilyn gan y prif bwyntiau a godwyd yn seiliedig ar y broses hon. Ym mhob achos, codwyd pwyntiau gan leiafrif neu leiafrif bach o ymatebwyr.

Cyflwynir ymatebion i gwestiynau testun agored mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn, a nodir ym mhob adran faint o ymatebwyr a ddewisodd roi sylwadau o dan bob cwestiwn. At ei gilydd, roedd yr ymatebion testun agored yn tueddu i gynnwys mwy o gyfeiriadau at y problemau a’r heriau canfyddedig yr oedd rhieni'n eu hwynebu mewn perthynas ag addysg eu plentyn, o gymharu ag ymatebion i’r cwestiynau caeedig. Fodd bynnag, wrth ddehongli’r canfyddiadau hyn mae’n bwysig ystyried bod llai o ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau testun agored o gymharu â’r cwestiynau caeedig ac felly ni ddylid ystyried bod yr ymatebion hyn yn gynrychioliadol o’r holl ymatebwyr.

## Deall y cysylltiadau yn y theori newid

Mae'r ystod o ddadansoddiadau disgrifiadol a chasgliadol uchod yn seiliedig ar ddadansoddiad fesul cwestiwn, ac ni ddefnyddiwyd unrhyw dechnegau ystadegol i ystyried tueddiadau na chysylltiadau rhwng y cwestiynau. Fodd bynnag, mae'r theori newid sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yn seiliedig ar y cysylltiad rhwng cysyniadau a phynciau sy'n berthnasol i lawer o'r datganiadau a'r cwestiynau. Er enghraifft, yn y theori newid damcaniaethir bod cwricwlwm ysgol sydd wedi'i gynllunio'n dda gyda dysgwyr wrth ei wraidd yn arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.

Felly mae deall y berthynas rhwng yr ymatebion i wahanol ddatganiadau yn yr arolwg yn angenrheidiol wrth geisio pennu sut y mae rhannau o'r theori newid yn gweithio yn ôl y disgwyl neu a ydynt yn gweithio yn ôl y disgwyl. Mae gwybod hyn yn ddefnyddiol er mwyn gallu nodi unrhyw rannau o'r theori newid nad ydynt yn ymddangos fel pe baent yn gweithio yn ôl y disgwyl yn ymarferol.

Defnyddiwyd technegau ystadegol cymhleth o'r enw dadansoddi ffactorau (FA) a modelu hafaliadau strwythurol (SEM) i ymchwilio i'r berthynas rhwng yr ymatebion i lawer o ddatganiadau gwahanol. Disgrifir y rhain isod.

## Dadansoddi ffactorau

Mae'r dechneg dadansoddi ffactorau (factor analysis neu FA) yn defnyddio ystadegau i wirio bod y cwestiynau y disgwylir iddynt gydberthyn yn gwneud hynny. Gelwir y broses o archwilio a oes cydberthyniadau yn seiliedig ar ragdybiaeth sy'n bodoli eisoes yn ddadansoddi ffactorau er mwyn cadarnhau (confirmatory factor analysis neu CFA). Mae dadansoddiad ffactorau archwiliadol (exploratory factor analysis neu EFA), ar y llaw arall, yn caniatáu i gydberthyniadau ddod i'r amlwg o unrhyw gyfuniad o ffactorau wrth i'r dadansoddiad gael ei gynnal. Yn yr achos hwn, mae sawl cysylltiad damcaniaethol rhwng elfennau'r theori newid, a adlewyrchwyd yn y ffactorau a grëwyd (megis lles) ac felly defnyddiwyd CFA.

Er mwyn cynnal dadansoddiad o ffactorau er mwyn cadarnhau, mae angen 'mapio' cwestiynau i'r ffactorau y maent yn ymwneud â nhw, er enghraifft drwy nodi cyfres o ddatganiadau sy'n gysylltiedig â'r ffactor "Cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm" i archwilio agweddau ar y ffactor hwn megis cyfleoedd i rieni:

- rannu eu syniadau am beth mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol neu sut mae'n dysgu yn yr ysgol
- rhoi adborth ar gwricwlwm yr ysgol
- clywed am sut y gallent gefnogi dysgu eu plentyn
- cyfrannu eu profiad neu eu harbenigedd i gefnogi'r addysgu a'r dysgu

Mae angen ymgymryd â'r broses fapio hon cyn ei bod yn bosibl gwirio a yw cwestiynau o dan ffactor penodol yn cydberthyn yn ôl y disgwyl. Sefydlwyd y gwaith mapio hwn yn seiliedig ar gwestiynau o arolygon blaenorol mewn rhai achosion. Er enghraifft, roedd cwestiynau ar lesiant dysgwyr yn seiliedig ar Raddfa Llesiant Plant Stirling (Liddle a Carter, 2010), roedd cwestiynau ar ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol yn seiliedig ar waith Adams a Forsyth (2004) (gweler Atodiad C am fwy o fanylion) ac roedd cwestiynau ar gynnydd tuag at y pedwar diben yn seiliedig ar ddisgrifiadau o'r pedwar diben yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cymru. Mewn rhai achosion, cafodd cwestiynau eu hatgynhyrchu, ac mewn achosion eraill, gwnaed addasiadau er mwyn eu defnyddio yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datganiadau yn y cwestiynau a fapiwyd yn erbyn pob ffactor yn ein dadansoddiad i'w gweld yn Atodiad C.

Ar ôl mapio'r datganiadau i ffactorau, defnyddiwyd y feddalwedd ystadegol R i gynhyrchu llwythi ffactorau ar gyfer pob datganiad unigol. Cafodd pob model FA ac SEM eu ffitio i'r

feddalwedd, gan ddefnyddio'r pecyn lavaan (Rosseel, 2012). Yr unig addasiadau i ragosodiadau pecynnau oedd y defnydd o amcangyfrif tebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth lawn i ymdrin â data coll, a phwysoli'r dadansoddiad gan ddefnyddio'r un dull a drafodwyd uchod ar gyfer pob dadansoddiad arall.

## Modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Yn ogystal â'r cysylltiadau damcaniaethol rhwng elfennau, a adlewyrchwyd wrth greu ffactorau, roedd y theori newid hefyd yn cynnwys cysylltiadau damcaniaethol rhwng y ffactorau. Mae SEM yn estyniad o FA sy'n caniatáu ymchwilio i gysylltiadau rhwng ffactorau. Ymchwilir i bob cysylltiad unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchwel - dull ystadegol a ddefnyddir i archwilio patrymau yn y data ac i amcangyfrif cryfder a chyfeiriad y berthynas rhwng ffactorau y tybir eu bod yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae'r atchwel hwn yn cynhyrchu 'cyfernod llwybr' fel allbwn y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthyniad. Mae cyfernodau llwybr SEM o +/- 0-0.5 yn dynodi cydberthyniadau gwan i gymedrol ac mae cyfernodau o +/- 0.5-1 yn dynodi cydberthniadau cymedrol i gryf, sy'n awgrymu perthynas rhwng newidynnau, ond nid achosiaeth o reidrwydd. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y derminoleg 'cydberthynol i', yn hytrach na 'rhagfynegwyd gan' sydd hefyd yn cael ei defnyddio'n gyffredin yn y math hwn o ddadansoddiad, wrth ddisgrifio'r cyfernodau llwybr.

Yn fras, defnyddiwyd yr un data yn union ar gyfer y dadansoddiad FA a SEM ag ar gyfer y dadansoddiad arall a ddisgrifir uchod. Yr unig eithriad i hyn oedd, os atebodd y cyfranogwyr “ddim yn siŵr” neu “ddim yn berthnasol” i gwestiwn a oedd â threfn ymhlyg (megis cwestiwn gydag ymatebion yn amrywio o “hyderus iawn” i “ddim yn hyderus o gwbl”), yna cafodd yr ymatebion hyn eu hailgodio fel rhai ar goll at ddibenion yr FA a'r SEM. Roedd hyn oherwydd bod angen i'r newidyn cyfan gael ei drin fel pe bai ganddo drefn ymhlyg er mwyn ffitio'r modelau ar FA a SEM.

Yn ystod y broses FA, roedd ymatebion coll i'r arolwg yn her o ran asesu a oedd y data'n ffitio pob model. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, defnyddiwyd amcangyfrif tebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth lawn i ymdrin â data coll o fewn y model heb fewnbynnu gwerthoedd. Pan fo modd, byddai modelau'n cael eu rhedeg ar achosion cyflawn yn unig, yn hytrach na thebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth gadarn i ymdrin â data coll. Ar ôl adolygu'r hyn a oedd ar goll, roedd hyn yn ymarferol ar gyfer pob


SEM heblaw un, oherwydd cyfraddau cwblhau uchel yn gyffredinol nad oeddent yn athreulio'r set ddata yn ormodol.

Yna archwiliwyd y cysylltiadau rhwng ffactorau ym mhob model SEM a gynigiwyd i asesu ffit pob model. Lle yr ymchwiliwyd i nifer o SEMs ar gyfer rhagdybiaeth benodol, dewiswyd y model mwyaf addas i adrodd arno'n llawn yn yr adroddiad hwn, er ein bod yn nodi ystadegau ffit allweddol modelau llai llwyddiannus er gwybodaeth. Mae hyn oherwydd mai nod yr SEMs yw disgrifio'r prosesau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu orau.

Mae rhagor o fanylion am y dull SEM wedi'u cynnwys yn Rhan E ac Atodiad D.

Yn fras, ar gyfer yr arolwg o ddysgwyr ymchwiliwyd i a oedd cysylltiad rhwng **cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm**, **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol**, a **lles dysgwyr** a **chanfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben**. Dangosir hyn yn Ffigur 1 isod.


**Ffigur 1. Perthynas dybiedig rhwng canfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben a chydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a lles**




Ar gyfer yr arolwg o rieni, cynigiwyd pedwar model SEM ychydig yn wahanol yn egluro'r berthynas rhwng ffactorau, gweler Ffigur 2. Archwiliwyd pob un o'r pedwar model hyn i weld pa mor dda oedd y cydberthyniad rhwng y data o'i gymharu â'r cysylltiadau tybiedig, a dewiswyd y model oedd â'r ffit orau fel y model 'gorau' oedd yn egluro mwy o'r patrymau a welir yn y data na'r lleill. Wedi dweud hynny, ym mhob model, y berthynas yr ymchwiliwyd iddi oedd a ellir cysylltu **canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben** â rhyw gyfuniad o **gyfle i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm**, **hyrwyddo galluedd rhieni** ac **ymddiriedaeth y rhiant yn yr ysgol**. Roedd pob un o'r rhain yn weithgaredd neu'n ddeilliant yn y theori newid.[Troednodyn 10]

[10] Archwiliwyd **bodlonrwydd rhieni gyda gwybodaeth (**yn gysylltiedig â deilliannau tymor byr yn y theori newid) hefyd ond nid yw wedi'i ddangos yn y diagram uchod oherwydd nad oedd yn rhan o'r model 'gorau'.

**Ffigur 2. Perthynas dybiedig rhwng canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben a gwahanol gyfuniadau o gyfleoedd i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, hyrwyddo galluedd rhieni ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol**




## Cyfyngiadau methodolegol

Wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o gyfyngiadau'r fethodoleg.

Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd o ran dethol y sampl o ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg. Efallai fod ymatebwyr a oedd yn cymryd mwy o ddiddordeb yn addysg eu plentyn neu yng ngweithredu'r cwricwlwm yn fwy tueddol o gwblhau'r arolwg. Er enghraifft, nododd lleiafrif o rieni yn eu hymatebion testun agored eu bod yn gweithio yn y sector addysg, a allai fod wedi golygu eu bod yn fwy tebygol na rhieni eraill o gwblhau'r arolwg. Yn yr un modd, efallai fod y rhai a oedd yn llai ymgysylltiedig ag addysg eu plentyn wedi bod yn llai tebygol o gwblhau'r arolwg, ac efallai fod ymatebwyr nad oeddent yn fodlon ar addysg eu plentyn wedi gweld yr ymchwil fel cyfle i amlygu unrhyw broblemau yr oeddent yn eu hwynebu. Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risg hon drwy dargedu rhieni nad oeddent wedi'u cynrychioli 'n ddigonol yn y sampl (yn seiliedig ar y cwotâu a osodwyd o fewn yr haenau yn y fframwaith samplu) i gynyddu ymatebion gan y grwpiau hyn.

Ni chynhwyswyd ymatebwyr o dan oedran Dosbarth Derbyn yn yr arolwg oherwydd, hyd yn oed gyda chymorth rhieni, teimlwyd y byddai'r rhan fwyaf o blant yr oed hynny yn ei chael

hi’n rhy anodd i ymateb mewn ffordd dibynadwy. Golyga hyn na chynhwyswyd barn dysgwyr 3-4 oed oedd yn derbyn addysg feithrin mewn ysgolion neu leoliadau addysg feithrin nas cynhelir.

Ar gyfer rhai cwestiynau yn yr arolwg, cyflwynwyd sawl opsiwn ymateb niwtral, er enghraifft ar gyfer un datganiad gallai ymatebwyr ddewis "Ddim yn siŵr", "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno" neu "Ddim yn berthnasol" yn ogystal â'r opsiynau ymateb cadarnhaol neu negyddol. Mewn rhai o'r dadansoddiadau, mae'r opsiynau ymateb niwtral hyn wedi'u cyfuno, er enghraifft, mae ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn siŵr" wedi'u grwpio gyda'r rhai a ddewisodd "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno". Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd o golli manylder os oedd yr opsiynau ymateb a gyfunwyd yn cynrychioli gwahanol bethau.

Er mwyn sicrhau geiriad addas i oedran, cafodd cwestiynau eu teilwra yn ôl grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, cafodd yr ymatebion eu crynhoi i alluogi dadansoddiad ar draws yr holl ddysgwyr a chymariaethau rhwng cohortau cynradd ac uwchradd. Mae'r symleiddio hwn yn golygu bod manylion wedi'u colli o'r ymatebion a gynhwyswyd mewn dadansoddiadau ar gyfer rhai dysgwyr ac felly efallai nad yw tueddiadau neu wahaniaethau posibl mewn ymatebion wedi'u nodi mwyach.

Gan fod yr arolwg wedi'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, roedd y risg o gael ymatebion gan unigolion nad oeddent yn rhan o'r gynulleidfa darged yn uwch nag mewn arolwg a ddosberthir i restr gaeedig o ymatebwyr. Cymerwyd rhai mesurau lliniaru wrth ddylunio'r holiadur ac yna yn y broses glanhau data ddilynol er mwyn eithrio neu gyfyngu ar y tebygolrwydd y byddai ymatebwyr o'r fath yn cael eu cynnwys.

Nid oedd y sampl a gafwyd yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ac, er enghraifft, roedd dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau am ddim a dysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a'u rhieni, wedi'u tangynrychioli o'u cymharu â phoblogaeth yr arolwg. Roedd lefelau'r ymatebion coll i rai cwestiynau am nodweddion demograffig yn golygu nad oedd yn bosibl pwysoli'r sampl yn ôl nodweddion unigol. I liniaru hyn, defnyddiwyd nodweddion yn seiliedig ar yr ysgol er mwyn pwysoli.

Nid oedd sampl y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u rhieni yn ddigon mawr i alluogi cymariaethau rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys (a'u rhieni).

# 4. Rhan A: Trosolwg o'r canfyddiadau

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau ym Mhenodau 4-20.

## Dysgwyr

### Barn gyffredinol dysgwyr ynghylch yr ysgol

Nododd mwyafrif y dysgwyr fod eu hathrawon wedi eu helpu i ddeall pan oeddent yn gwella wrth ddysgu, eu bod yn mwynhau mynd i'r ysgol a'u bod yn mwynhau'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol. Ymatebodd dysgwyr yn llai cadarnhaol pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cael yr holl help yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol ac a oedd yr ysgol yn deg i bawb, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau hyn. Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn yr ysgol (gofynnwyd hyn i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 yn unig), a nododd lleiafrif eu bod yn gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau yr oeddent yn dysgu amdanynt yn yr ysgol (gofynnwyd hyn i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn unig).

### Ymwneud y dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm

Pan ofynnwyd cwestiynau iddynt am eu hymwneud ag agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm, roedd tua hanner y dysgwyr yn cytuno bod athrawon yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu dweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu. Nododd lleiafrif o ddysgwyr fod athrawon wedi gofyn iddynt beth yr hoffent ei ddysgu a sut yr hoffent ddysgu, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn anghytuno (dim ond i ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 y gofynnwyd y cwestiynau ynghylch beth yr hoffent ei ddysgu a sut yr hoffent ddysgu).

### Canfyddiad y dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben

Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y rhan fwyaf o agweddau'r pedwar diben. Yr unig eithriadau i hyn oedd bod tua hanner y dysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i ddod yn uchelgeisiol (dim ond i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 y gofynnwyd hyn), ac roedd lleiafrif o ddysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn eu helpu i ddod yn egwyddorol ac yn wybodus (dim ond i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 y gofynnwyd hyn).

### Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg

Roedd mwyafrif y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gan nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n fwy cyfartal mewn ysgolion cyfrwng Saesneg: roedd lleiafrif y dysgwyr yn cytuno, yn anghytuno ac wedi rhoi ymateb niwtral pan

ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg. Nododd tua hanner y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a nododd lleiafrif eu bod yn gwneud hynny.

**Bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol**

Mewn ymateb i gwestiynau am eu bodlonrwydd gyda'r ysgol, roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno bod athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant, eu bod bob amser yn barod i helpu ac yn hawdd siarad â nhw, ac roedd tua hanner y dysgwyr yn cytuno bod athrawon a staff wir yn gwrando ar blant. Roedd lleiafrif yn anghytuno â'r datganiadau ar bob un o'r agweddau hyn ar fodlonrwydd dysgwyr â'r ysgol.

**Lles dysgwyr**

Pan ofynnwyd iddynt am agweddau ar eu lles eu hunain, dywedodd mwyafrif helaeth y dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud rhai pethau'n dda a'u bod yn meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanynt. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno eu bod yn credu y byddai pethau da yn digwydd yn eu bywydau, bod llawer o bethau y gallent fod yn falch ohonynt, eu bod wedi bod mewn hwyliau da a'u bod wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl.

**Tueddiadau o fewn ymatebion y dysgwyr**

Mynegodd dysgwyr mewn ysgolion cynradd farn mwy cadarnhaol na’r rhai mewn ysgolion uwchradd mewn perthynas ag ystod o destunau gan gynnwys eu barn gyffredinol ynglŷn ysgol, eu bodlonrwydd ag agweddau o ddysgu ac addysgu a’u lles. Dangosodd eu hymatebion hefyd eu bod yn teimlo'n fwy cysylltiedig ag agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm gydag, er enghraifft, canrannau uwch o ddysgwyr cynradd, o'u cymharu â dysgwyr uwchradd, yn nodi bod athrawon yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu dweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu ai peidio. Roedd dysgwyr cynradd hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o ystyried bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

Mynegodd dysgwyr nad oeddent yn anabl farn mwy cadarnhaol na’r rhai oedd yn anabl mewn perthynas â’r mwyafrif o destunau gan gynnwys y cwricwlwm a'u haddysg yn gyffredinol, gan gynnwys eu bodlonrwydd ag agweddau ar addysgu a dysgu a'u lles eu hunain. Roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl hefyd yn fwy tebygol na dysgwyr anabl o ystyried bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben. Mae “dysgwr anabl” yn cyfeirio at unrhyw ddysgwr lle’r oedd eu rhieni wedi ateb 'Ydw' i'r

cwestiwn a ofynnodd a oeddent yn ystyried bod gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu.

Er bod gan ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol farn fwy cadarnhaol na dysgwyr gwyn ar ambell agwedd ar eu dysgu a'u profiadau o'r ysgol, nid oedd unrhyw duedd glir i'w gweld.

Nid oedd tuedd glir yn ymatebion dysgwyr â CDUau o'u cymharu â'r rhai heb CDUau; mewn rhai achosion roedd gan ddysgwyr â CDUau farn fwy cadarnhaol ac mewn achosion eraill mynegodd y rhai heb CDUau farn fwy cadarnhaol. Dim ond i rieni dysgwr anabl y gofynnwyd a oedd gan eu plentyn CDU. Yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn, mae "dysgwyr heb CDU" yn cyfeirio at ddysgwyr anabl a'u rhieni a ddywedodd nad oedd gan eu plentyn CDU a dysgwyr nad ydynt yn anabl a'u rhieni.

Roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, Saesneg a Chymraeg ac ieithoedd eraill ar yr aelwyd o gytuno bod:

- eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y rhan fwyaf o agweddau'r pedwar diben
- eu bod yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg a'u bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Roedd dysgwyr mewn ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion â chanran uchel neu isel o ddysgwyr ag ADY o gytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at sawl agwedd ar y pedwar diben ac i fod yn hyderus yn defnyddio’r Gymraeg.

Nid oedd tuedd glir o ran barn dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg a dim patrwm clir wrth gymharu ymatebion dysgwyr o ysgolion â chanrannau uchel, canolig ac isel o ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Rhieni

### Ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm

O ran ymwybyddiaeth rhieni o'r Cwricwlwm i Gymru, nododd mwyafrif y rhieni fod ganddynt rywfaint o ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cwricwlwm a'i ffocws ar y pedwar diben. Nododd lleiafrif o rieni nad oeddent yn ymwybodol o gwbl ohono. Nododd tua hanner y rhieni a oedd â rhywfaint o ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cwricwlwm i Gymru mai ffynhonnell eu hymwybyddiaeth oedd gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgol eu plentyn; nododd lleiafrif o rieni eu bod wedi cael gwybodaeth ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan

newyddion, gwefan yr ysgol) neu drwy'r cyfryngau, gyda lleiafrif bach yn nodi eu plentyn neu rieni eraill fel ffynhonnell wybodaeth.

**Gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm**

Dywedodd mwyafrif y rhieni eu bod yn gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau, darparu addysg eang a chytbwys a darparu profiadau bywyd go iawn. Ar gyfer pob un o'r elfennau hyn, nododd lleiafrif o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt wybodaeth ohonynt.

**Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y rhan fwyaf o rieni wedi cael cyfle i glywed am sut y gallant gefnogi dysgu eu plentyn a bod tua hanner wedi nodi eu bod wedi cael cyfle i rannu eu syniadau am sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Nododd lleiafrif eu bod wedi cael cyfle i roi adborth ar gwricwlwm yr ysgol, rhannu syniadau am yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol neu gyfrannu eu profiadau neu eu harbenigedd.

**Galluedd rhieni**

Roedd mwyafrif y rhieni yn cytuno bod ysgol eu plentyn wedi eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffyrdd a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n frwdfrydig i gefnogi'r addysg yr oedd eu plentyn yn ei derbyn. Roedd tua hanner y rhieni yn teimlo bod y trafodaethau hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n hyderus yn addysg eu plentyn. Teimlai lleiafrif o rieni fod trafodaethau o'r fath yn gwneud iddynt deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Ar draws yr holl ddatganiadau, nododd lleiafrif o ymatebwyr rywfaint o anghytundeb.

**Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn hyderus bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn helpu eu plentyn i ddod yn iach a hyderus, yn egwyddorol a gwybodus, yn fentrus a chreadigol ac yn uchelgeisiol a galluog. Roedd tua hanner y rhieni yn cytuno bod addysg eu plentyn yn cefnogi ei les, yn diwallu anghenion eu plentyn ac yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn. Roedd tua hanner y rhieni hefyd yn cytuno bod athrawon eu plentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol eu plentyn a'u bod yn darparu'r cymorth cywir i alluogi eu plentyn i wneud cynnydd. Roedd lleiafrif o rieni yn anghytuno â phob un o'r datganiadau hyn.

**Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol**

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod tua hanner y rhieni'n cytuno bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer camau nesaf ei addysg ond dim ond lleiafrif a oedd yn cytuno bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer gwaith neu fywyd yn fwy cyffredinol.

### Bodlonrwydd rhieni gydag ysgol eu plentyn

O ran bodlonrwydd ag athrawon a staff yn ysgol eu plentyn, roedd mwyafrif y rhieni yn cytuno bod athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o'u plentyn, eu bod yn barod i helpu a'u bod yn gallu ymddiried ynddynt. Nododd mwyafrif hefyd y gallent gael gafael ar athrawon eu plentyn yn hawdd a bod athrawon a staff yn gwrando arnynt os oedd ganddynt bryderon. Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol os oedd ei angen, eu bod yn dda am rannu gwybodaeth gyda nhw a'u bod yn fodlon ag ysgol eu plentyn. Ar gyfer pob un o'r wyth datganiad yn ymwneud â bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn, nododd lleiafrif o rieni eu bod yn anghytuno â nhw.

### Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn

Dywedodd tua hanner y rhieni eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd cyffredinol eu plentyn a'i gynnydd mewn rhifedd a llythrennedd. Dim ond i rieni dysgwyr ysgol uwchradd y gofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn yn y Gymraeg. Dywedodd lleiafrif eu bod yn fodlon â'r wybodaeth hon. Nododd lleiafrif o rieni eu bod yn anfodlon â'r wybodaeth a gawsant am bob un o'r agweddau hyn ar gynnydd eu plentyn.

Roedd tua hanner y rhieni yn cytuno eu bod yn fodlon ar sut roeddent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn yn ogystal â pha mor aml yr oeddent yn derbyn y wybodaeth honno.

### Barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru a hyder yn addysg eu plentyn

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn gefnogol neu'n gefnogol iawn o'r Cwricwlwm i Gymru yn gyffredinol ac roedd lleiafrif nad oeddent yn gefnogol neu a oedd ychydig yn anghefnogol o'r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd mwyafrif y rhieni eu bod ychydig yn hyderus neu’n gwbl hyderus yn safon addysg eu plentyn.

### Gwybodaeth bellach, yr elfennau mwyaf buddiol a'r pryderon

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar yr un agwedd o'r Cwricwlwm i Gymru yr hoffent wybod mwy amdani, dywedodd lleiafrif o rieni yr hoffent wybod mwy am beth yr oedd eu plentyn yn cael ei addysgu yn yr ysgol, sut yr oedd cwricwlwm ysgol eu plentyn wedi'i gynllunio a sut yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ei gylch. Roedd eraill eisiau gwybod sut roedd y Cwricwlwm yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion eu plentyn a sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fesur.

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar yr agweddau mwyaf buddiol ar gwricwlwm yr ysgol, cyfeiriodd lleiafrif o rieni at y ffocws ar iechyd a lles, y sgiliau trawsgwricwlaidd, amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu neu agweddau penodol eraill ar y Cwricwlwm i Gymru (er enghraifft, y pedwar diben, gwneud cysylltiadau rhwng pynciau a'r ffocws ar amrywiaeth a'r cyd-destun Cymreig). Nid oedd lleiafrif o'r farn y byddai unrhyw agweddau ar y cwricwlwm o fudd i ddysgwyr ond codwyd pryderon ynghylch y Cwricwlwm i Gymru.

Pan ofynnwyd beth oedd yn poeni rhieni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol, dywedodd lleiafrif nad oedd y cwricwlwm a’r addysg wedi’u teilwra’n ddigonol i ddiwallu anghenion unigol eu plentyn. Mynegodd eraill bryderon ynghylch yr hyn a ddysgir fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i ddehongliad neu fod gan ysgolion ddiffyg adnoddau i weithredu'r cwricwlwm yn effeithiol. Dywedodd lleiafrif nad oedd ganddynt ymwybyddiaeth, gwybodaeth na dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru tra bod eraill yn pryderu am ansawdd addysg eu plentyn, gan gynnwys pryderon am ADY eu plentyn a'r cymorth sydd ar gael i'w helpu i ddysgu. Dywedodd rhieni eraill eu bod yn poeni am asesu, cymwysterau a'r cyfnod pontio o addysg orfodol i ddysgu ôl-16.

**Tueddiadau o fewn ymatebion rhieni**

Yn yr un modd â dysgwyr, roedd rhieni plant ysgol gynradd a rhieni plant nad ydynt yn anabl yn gyson fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr uwchradd a phlant anabl yn y drefn honno ar draws y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys eu barn ynglŷn â chyfleoedd i ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm yn ogystal â chanfyddiadau o gynnydd eu plentyn tuag at ddyheadau'r cwricwlwm a bodlonrwydd cyffredinol ag ysgol eu plentyn.

Mynegodd rhieni dysgwyr â CDUau farn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDUau mewn perthynas â'u cyfleoedd i ymwneud â rhai agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm, eu canfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm a'u hyder yn addysg eu plentyn.

Roedd gan rieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar rai agweddau ar y cwricwlwm ac addysg eu plentyn. Nododd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lefelau uwch o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhai agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm, lefelau uwch o fodlonrwydd a hyder cyffredinol yn addysg eu plentyn yn ogystal â bod yn fwy tebygol o gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd barn rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd, yn benodol mewn

perthynas â'r canfyddiadau o gynnydd tuag at y pedwar diben, eu bodlonrwydd â'r ysgol a'u bodlonrwydd â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn.

Nid oedd tuedd glir yn yr ymatebion gan rieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, rhieni dysgwyr o ysgolion â chanrannau uchel, canolig ac isel o ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddysgwyr ag ADY.

**Cymharu barn dysgwyr a'u rhieni**

Gofynnwyd cwestiynau arolwg gwahanol, ond cysylltiedig, i rieni a dysgwyr ar draws sawl thema. Roedd gan rieni farn debyg i ddysgwyr mewn perthynas â chydweithio neu eu hymwneud â'r cwricwlwm. Ar y llaw arall, roedd gan ddysgwyr farn fwy cadarnhaol na rhieni mewn perthynas â lles, cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt, bodlonrwydd gyda'r ysgol neu fwynhad ohoni, teimlo'n wybodus am gynnydd dysgwyr, yr ysgol yn helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn a chynnydd tuag at y pedwar diben. Roedd gan rieni farn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ran teimlo bod staff ac athrawon yn gwrando arnynt.

**Archwilio'r cysylltiadau rhwng newidynnau'r arolwg**

Defnyddiwyd technegau ystadegol cymhleth, sef Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM), i archwilio'r cysylltiadau rhwng setiau wedi'u grwpio o gwestiynau (ffactorau) yn yr arolwg er mwyn archwilio cryfder y cysylltiadau rhyngddynt. Profwyd dau fodel damcaniaethol: “model dysgwyr” a “model rhieni”. Roedd y modelau hyn yn seiliedig ar rai o'r cysylltiadau a nodir yn y theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu.

Roedd y “Model dysgwyr” yn rhagdybio y byddai lefelau cydweithio dysgwyr ar gynllunio'r cwricwlwm, eu hymddiriedaeth yn yr ysgol a'u lles yn effeithio ar ganfyddiadau dysgwyr o’u cynnydd tuag at y pedwar diben. Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn ddeilliannau tymor canolig neu'n weithgareddau yn y theori newid. Dangosodd y canfyddiadau fod cysylltiad cryf rhwng cydweithrediad dysgwyr ar gynllunio'r cwricwlwm ac ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol, a bod cysylltiad cymedrol rhwng hynny a lles dysgwyr. Dangosodd y canfyddiadau hefyd gysylltiad cryf rhwng ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben, a bod cysylltiad gwan rhwng lles dysgwyr a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben.

Roedd y “Model rhieni” yn rhagdybio y byddai'r cyfleoedd i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni a lefelau ymddiriedaeth rhieni mewn ysgolion yn effeithio ar ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm. Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn ddeilliannau tymor canolig neu'n weithgareddau yn y

theori newid. Dangosodd y canfyddiadau fod cysylltiad cryf rhwng y cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm a hyrwyddo galluedd rhieni gan ysgolion ond bod cysylltiad gwan rhwng hynny a lefelau ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol. Dangosodd y canfyddiadau hefyd fod cysylltiad cryf rhwng hyrwyddo galluedd rhieni gan ysgolion a lefelau ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol a bod cysylltiad cryf hefyd rhwng hynny a chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau cwricwlwm.

Gellid archwilio'r cysylltiadau hyn, a chanfyddiadau eraill yr arolwg, ymhellach yn adroddiad nesaf yr arolwg, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cam diweddarach o'r gwerthusiad.

# 5. Rhan B: Canfyddiadau manwl yr arolwg o ddysgwyr

Lle bo angen, cyflwynwyd amrywiadau gwahanol o gwestiwn a oedd yn addas i oedran i ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2, Blynyddoedd 3 i 6 a Blynyddoedd 7 i 9.[Troednodyn 11] Roedd yr opsiynau ymateb hefyd yn amrywio yn dibynnu ar grwpiau blwyddyn y dysgwyr, gyda dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 yn gallu dewis o blith “Nac ydw”, “Ddim yn siŵr” ac “Ydw”, tra bod dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 yn dewis ymatebion yn amrywio o “Wir yn anghytuno” i “Wir yn cytuno”.[Troednodyn 12] Mae'r ymatebion “Ydw”, “Cytuno” a “Wir yn cytuno” wedi’u crynhoi mewn un categori, sef “Cytuno” ac mae'r ymatebion “Nac ydw”/“Anghytuno”/“Wir yn anghytuno” wedi'u crynhoi mewn un categori, sef “Anghytuno”, drwy'r adroddiad cyfan. At hynny, cafodd yr ymatebion “Ddim yn siŵr” a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” eu cyfuno mewn categori “Niwtral” hefyd. Dangosir y canlyniadau llawn wedi'u dadgyfuno yn y tablau data yn Atodiad F.

## Barn gyffredinol dysgwyr ar yr ysgol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr (dysgwyr) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu barn gyffredinol ar yr ysgol.

Cyflwynwyd y datganiadau canlynol i ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn:

- “Rwy’n mwynhau mynd i’r ysgol”
- “Rwy’n mwynhau beth dwi'n ddysgu yn yr ysgol”
- “Rwy’n cael yr holl help dwi ei angen yn yr ysgol”
- “Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb”
- “Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fydda i wedi gwneud yn dda neu wedi symud ymlaen wrth ddysgu” (Defnyddiwyd geiriad gwahanol ar gyfer dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2, sef: “Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu”)

Cyflwynwyd y datganiadau canlynol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 yn unig hefyd:

[11] Fel y nodir ym Mhennod 3, roedd y dysgwyr a holwyd yn amrywio o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9, gan mai'r rhain oedd y grwpiau blwyddyn a oedd yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru adeg gwaith maes yr arolwg.
[12] Yr ymatebion a ddangoswyd oedd “Wir yn cytuno”, “Cytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”, “Anghytuno” ac “Wir yn anghytuno”.

- “Rwy’n teimlo y galla'i fod yn fi fy hun yn yr ysgol”

Cyflwynwyd y datganiad canlynol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn unig:

- “Rwy'n gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau dwi'n dysgu amdanynt yn yr ysgol”

**Crynodeb o'r canfyddiadau: barn gyffredinol dysgwyr ar yr ysgol**

- Nododd mwyafrif y dysgwyr fod eu hathrawon wedi eu helpu i ddeall pan oeddent yn gwella wrth ddysgu, eu bod yn mwynhau mynd i'r ysgol yn ogystal â mwynhau'r hyn roeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol.
- Roedd tua hanner y dysgwyr yn teimlo y gallent fod yn nhw eu hunain yn yr ysgol (dim ond i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 y gofynnwyd y cwestiwn hwn), eu bod yn cael yr holl help oedd ei angen arnynt yn yr ysgol a bod yr ysgol yn deg i bawb.
- Nododd lleiafrif o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 eu bod yn gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau yr oeddent yn dysgu amdanynt yn yr ysgol.

**Y canfyddiadau: barn gyffredinol dysgwyr ar yr ysgol**

Nododd mwyafrif y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu” (67% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- “Rwy’n mwynhau mynd i’r ysgol” (66% yn cytuno, 24% yn anghytuno)
- “Rwy’n mwynhau beth dwi'n ddysgu yn yr ysgol” (63% yn cytuno, 19% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Rwy’n teimlo y galla'i fod yn fi fy hun yn yr ysgol” (roedd 58% o ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 yn cytuno, 29% yn anghytuno)
- “Rwy’n cael yr holl gymorth sydd ei angen arnaf yn yr ysgol” (51% yn cytuno, 26% yn anghytuno)
- “Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb” (47% yn cytuno, 34% yn anghytuno)


Nododd lleiafrif o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 (31%) eu bod yn cytuno â'r datganiad “Rwy'n gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau dwi'n dysgu amdanynt yn yr

ysgol", gyda thua hanner (45%) yn anghytuno a lleiafrif arall (24%) yn dewis yr ymateb niwtral.

### Ffigur 3. Barn gyffredinol dysgwyr ynghylch yr ysgol

Ymatebion dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 i'r cwestiwn: "Beth ydych chi'n ei feddwl o'r datganiadau canlynol?"

Ymatebion dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"*




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb "Wir yn cytuno" a "Cytuno" wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel "Cytuno"; mae'r ymatebion "Wir yn anghytuno" ac "Anghytuno" wedi'u hailgodio fel "Anghytuno". Ar gyfer dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2, mae "Ydw" wedi'i ail-godio fel "Cytuno" ac mae "Nac ydw" wedi'i ail-godio fel "Anghytuno". Mae'r ymatebion "Ddim yn siŵr" (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno" (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel "Niwtral".

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n mwynhau beth dwi'n ddysgu yn yr ysgol", roedd yr ymatebion yn fwy cadarnhaol ar gyfer dysgwyr ysgol gynradd o'i gymharu â dysgwyr ysgol uwchradd. Roedd yr ymatebion hefyd yn fwy cadarnhaol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â dysgwyr anabl ac ar gyfer dysgwyr o ganolbarth y de o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n mwynhau mynd i'r ysgol", roedd y gwahaniaethau yn ymatebion y dysgwyr yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran isel a chanolig o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn
- roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig gwyn

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n cael yr holl help dwi ei angen yn yr ysgol", roedd ymatebion dysgwyr nad ydynt yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr â CDU o'u gymharu â'r rhai heb CDU.[Troednodyn13]

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb", roedd y gwahaniaethau yn ymatebion y dysgwyr yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl

[13] Roedd y cwestiwn yn ymwneud ag anableddau dysgwyr yn seiliedig ar ganfyddiad rhieni ynghylch a oedd gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu. Roedd y cwestiwn ar CDUau yn gofyn i rieni a oedd gan eu plentyn ddogfen CDU, sef dogfen statudol a ddarperir i'r rhai y pennir bod ganddynt ADY. Mae'r rhai heb CDU yn cyfeirio at yr holl rai heb CDU, p'un a yw eu rhieni wedi nodi eu bod yn anabl ai peidio.

- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Saesneg yn unig, Cymraeg yn unig neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad ieithoedd eraill ar yr aelwyd

Ar gyfer y datganiad “Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu”, roedd ymatebion dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol nag ymatebion dysgwyr ysgol uwchradd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â dysgwyr anabl, a chan ddysgwyr o ganolbarth y de o'u cymharu â'r gogledd. Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd o ranbarth y gogledd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin.

Ar gyfer y datganiad  “Rwy’n cael yr holl help dwi ei angen yn yr ysgol” a welwyd gan ddysgwyr blynyddoedd 3 i 9, roedd ymatebion dysgwyr nad ydynt yn anabl yn fwy cadarnhaol o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol hefyd o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig gwyn Roedd ymatebion dysgwyr o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY.

Ar gyfer y datganiad “Rwy'n gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau dwi'n dysgu amdanynt yn yr ysgol” a welwyd gan ddysgwyr oedran ysgol uwchradd yn unig, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan y rhai a oedd yn siarad Saesneg, Cymraeg, neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â’r rhai a oedd yn siarad ieithoedd eraill ar yr aelwyd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan y rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o'u gymharu â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chan ddysgwyr yng nghanolbarth y de o'u cymharu â'r rhai yn y de-ddwyrain.

## Ymwneud dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm

Gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm. Roedd y cwestiynau a'r opsiynau ymateb yn amrywio yn dibynnu ar grŵp blwyddyn y dysgwr, gyda'r opsiynau ymateb yn cynnwys "Nac ydw", "Ddim yn siŵr" ac "Ydw" ar gyfer dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ac yn amrywio o "Wir yn cytuno" i "Wir yn anghytuno" ar gyfer dysgwyr Blynyddoedd 3-9.

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn oedd:

- “Mae athrawon yn yr ysgol yn gwrando arna i”
- “Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i’n hoffi beth dwi'n dysgu amdano neu ddim”

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 oedd:

- “Mae athrawon yn gofyn i mi beth hoffwn i ddysgu amdano”
- “Mae athrawon yn gofyn i mi sut hoffwn i ddysgu”

### Crynodeb o'r canfyddiadau: ymwneud dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm

- Roedd tua hanner y dysgwyr yn cytuno bod athrawon yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu dweud wrth athrawon a oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu, ac roedd lleiafrif o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiadau hyn.
- Ar gyfer y datganiadau a welwyd gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 yn unig, roedd lleiafrif yn cytuno bod athrawon wedi gofyn iddynt beth yr hoffent ei ddysgu a sut yr hoffent ddysgu, ac roedd tua hanner yr ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiadau hyn.

### Y canfyddiadau: ymwneud dysgwyr â chynllunio'r cwricwlwm

Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- “Mae athrawon yn yr ysgol yn gwrando arna i” (58% yn cytuno, 23% yn anghytuno)
- “Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i’n hoffi be dwi'n dysgu amdano neu ddim” (50% yn cytuno, 28% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Mae athrawon yn gofyn i mi beth hoffwn i ddysgu amdano” (41% yn cytuno, 43% yn anghytuno)
- “Mae athrawon yn gofyn i mi sut hoffwn i ddysgu” (33% yn cytuno, 44% yn anghytuno)

**Ffigur 4. Barn dysgwyr ynghylch eu hymwneud â chynllunio'r cwricwlwm**

Ymatebion dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 i'r cwestiwn: “Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol?” Ymatebion dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"*




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb “Wir yn cytuno” a “Cytuno” wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel “Cytuno”; mae'r ymatebion “Wir yn anghytuno” ac “Anghytuno” wedi'u hailgodio fel “Anghytuno”. Mae'r ymatebion “Ddim yn siŵr” (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi’u cyfuno a’u hailgodio fel “Niwtral”.

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad “Mae athrawon yn yr ysgol yn gwrando arna i”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr ysgol gynradd o’u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â dysgwyr anabl a chan ddysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'r rhai o ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn.

Ar gyfer y datganiad “Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i’n hoffi beth dwi'n dysgu amdano neu ddim”, roedd y gwahaniaethau yn ymatebion y dysgwyr yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o'r gogledd
- roedd dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr heb CDU
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, Saesneg a Chymraeg ac ieithoedd eraill ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr o ysgolion uwchradd â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ysgolion â chanran ganolig o'r dysgwyr hyn
- roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd

Ar gyfer y datganiad a welwyd gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9, “Mae athrawon yn gofyn i mi beth hoffwn i ddysgu amdano”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr nad oeddent yn anabl
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol gynradd anabl
- roedd dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr heb CDU
- roedd dysgwyr heb CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr o ysgolion â chanran uchel neu isel o ddysgwyr ag ADY

- roedd ymatebwyr o ranbarth y de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin

Ar gyfer y datganiad a welwyd gan ddysgwyr Blwyddyn 3 i 9, “Mae athrawon yn gofyn i mi sut hoffwn i ddysgu”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol gynradd anabl
- roedd dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na'r rhai heb CDU
- roedd dysgwyr heb CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad iaith wahanol i Saesneg yn unig, Cymraeg yn unig neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr o ranbarthau'r gogledd, y de-ddwyrain a chanolbarth y de yn fwy cadarnhaol na'r rhai o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol gynradd o ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn
- roedd dysgwyr o ysgolion uwchradd â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o'r dysgwyr hyn
- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

## Canfyddiad dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben

Gofynnwyd i ddysgwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau am eu cynnydd canfyddedig tuag at y pedwar diben. Cyflwynwyd amrywiadau ar y cwestiynau ac opsiynau ymateb sy'n addas i oedran i'r gwahanol grwpiau blwyddyn, fel y dangosir isod.

Datganiadau'n ymwneud â phob un o'r pedwar diben a ddangoswyd i ddysgwyr: "Mae'r ysgol yn fy helpu i..."

| Y diben y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef | Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 (Opsiynau ymateb "Nac ydw", "Ddim yn siŵr", "Ydw") | Blynyddoedd 3 – 6 (Opsiynau ymateb "Wir yn anghytuno" i "Wir yn cytuno") | Blynyddoedd 7 – 9 (Opsiynau ymateb "Wir yn anghytuno" i "Wir yn cytuno") | Datganiadau gyda geiriad gwahanol wedi'u cyfuno ar gyfer dadansoddi? |
|---|---|---|---|---|
| Uchelgeisiol a galluog | Heb ei ofyn | "dod yn uchelgeisiol" | "dod yn uchelgeisiol ac yn alluog" | Ie, wedi'i labelu fel "dod yn uchelgeisiol" |
| Uchelgeisiol a galluog | "credu ynof fi fy hun a'r hyn y gallaf ei wneud" | "credu ynof fi fy hun a'r hyn y gallaf ei wneud" | Heb ei ofyn | Ddim yn berthnasol |
| Uchelgeisiol a galluog | "bod y gorau y gallaf fod" | "bod y gorau y gallaf fod" | "cyrraedd fy mhotensial llawn" | Ie, wedi'i labelu fel "bod y gorau y gallaf fod" |
| Iach a hyderus" | "bod yn iachach" | "bod yn iach ac yn hyderus" | "bod yn iach ac yn hyderus" | Na |
| Mentrus a chreadigol | "meddwl am syniadau newydd" | "meddwl am syniadau newydd" | Heb ei ofyn | Ddim yn berthnasol |
| Mentrus a chreadigol | Heb ei ofyn | "dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau" | "dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau" | Ddim yn berthnasol |
| Mentrus a chreadigol | "bod yn fwy creadigol" | "bod yn fwy creadigol" | "dod yn fentrus ac yn greadigol" | Ie, wedi'i labelu fel "bod yn fwy creadigol" |
| Egwyddorol a gwybodus | "deall a phoeni am bobl a'r byd" | "deall a phoeni am bobl a'r byd" "bod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd" | "dod yn egwyddorol ac yn wybodus" | Na |

Ar gyfer y dadansoddiad a gyflwynir yn y bennod hon, cafodd yr ymatebion i'r cwestiwn a oedd eu dysgu yn eu helpu i “fod y gorau y gallaf fod” fel y'i gwelwyd gan ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 eu cyfuno â'r ymatebion i'r cwestiwn a oedd yr ysgol yn eu helpu i “gyrraedd fy mhotensial llawn” fel y'i gwelwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 7 i 9 a’u cyflwyno fel “bod y gorau y gallaf fod”.

Cafodd ymatebion i'r cwestiwn a oedd eu dysgu yn eu helpu i “ddod yn uchelgeisiol” fel y’i gwelwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 6 eu cyfuno ag ymatebion i'r cwestiwn a oedd eu dysgu yn eu helpu i “ddod yn uchelgeisiol ac yn alluog” fel y’i gwelwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 7 i 9 eu cyfuno a’u cyflwyno fel “dod yn uchelgeisiol”.

Cafodd ymatebion i'r cwestiwn a oedd eu dysgu yn eu helpu i “fod yn fwy creadigol” fel y’i gwelwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 6 eu cyfuno ag ymatebion i'r cwestiwn a oedd eu dysgu yn eu helpu i “ddod yn fentrus ac yn greadigol” fel y’i gwelwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 7 i 9 eu cyfuno a’u cyflwyno fel “dod yn greadigol”.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: cynnydd canfyddedig disgyblion tuag at y pedwar diben**

- Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y rhan fwyaf o agweddau'r pedwar diben. Yr unig eithriadau i hyn oedd bod tua hanner y dysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i ddod yn uchelgeisiol (dim ond i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 y gofynnwyd hyn), ac roedd lleiafrif o ddysgwyr yn cytuno bod eu dysgu yn eu helpu i ddod yn egwyddorol ac yn wybodus (dim ond i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 y gofynnwyd hyn).

**Y canfyddiadau: cynnydd canfyddedig disgyblion tuag at y pedwar diben**

Nododd mwyafrif y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol bod eu hysgol yn eu helpu i:

- “ddeall a phoeni am bobl a’r byd”, dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn unig, (76% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- “bod yn iachach”, dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 yn unig (74% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- “meddwl am syniadau newydd”, dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn unig, (71% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- “bod yn fwy ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd yn y byd”, dysgwyr Blynyddoedd 3 i 6 yn unig (69% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

- “bod yn fwy creadigol” (64% yn cytuno, 16% yn anghytuno)
- “bod yn iach ac yn hyderus”, dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 yn unig (64% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- “dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau”, dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 yn unig (61% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- “credu ynof fi fy hun a’r hyn rwy'n gallu ei wneud”, dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 yn unig (61% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- “bod y gorau y gallaf fod” (59% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol bod eu hysgol yn eu helpu i:


- “ddod yn uchelgeisiol”, dysgwyr Blwyddyn 3 i 9 yn unig (49% yn cytuno, 24% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o ddysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol bod eu hysgol yn eu helpu i:

- “ddod yn egwyddorol ac yn wybodus”, dysgwyr Blwyddyn 7 i 9 yn unig (38% yn cytuno, 31% yn anghytuno

**Ffigur 5. Barn dysgwyr am eu cynnydd tuag at y pedwar diben**

Ymatebion dysgwyr i'r cwestiwn: “Mae'r ysgol yn fy helpu i...”




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb “Wir yn cytuno” a “Cytuno” wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel “Cytuno”; mae'r ymatebion “Wir yn anghytuno” ac “Anghytuno” wedi'u hailgodio fel “Anghytuno”. Mae'r ymatebion “Ddim yn siŵr” (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi’u cyfuno a’u hailgodio fel “Niwtral”.

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad “Mae'r ysgol yn fy helpu i fod y gorau y gallaf fod”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr ysgol gynradd o’u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â dysgwyr anabl. Roedd yr ymatebion gan ddysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol hefyd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig gwyn. Cafwyd ymatebion mwy

cadarnhaol gan ddysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad iaith heblaw Cymraeg, Saesneg neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad  “Mae'r ysgol yn fy helpu i gredu ynof fi fy hun a'r hyn rwy'n gallu ei wneud” a welwyd gan ddisgyblion Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg, neu iaith arall ar wahân i Saesneg, Cymraeg neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd. Roedd yr ymatebion gan ddysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig gwyn

Ar gyfer y datganiad a welwyd gan ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 9, “Mae'r ysgol yn fy helpu i ddod yn uchelgeisiol”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o'r gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin
- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn fwy creadigol”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ysgolion uwchradd â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr ysgol gynradd o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY

- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd

Ar gyfer y datganiad “Mae'r ysgol yn fy helpu i feddwl am syniadau newydd”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran uchel neu isel o ddysgwyr ag ADY, a chan ddysgwyr a oedd yn siarad Saesneg yn unig neu'r Gymraeg yn unig ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r ysgol yn fy helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr ysgol gynradd o’u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd, a chan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl.

Ar gyfer y datganiad  “Mae'r ysgol yn fy helpu i ddeall a phoeni am bobl a'r byd”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran uchel neu isel o ddysgwyr ag ADY. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'r rhai o ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn.

Ar gyfer y datganiad  “Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ADY.

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn egwyddorol ac yn wybodus”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol na'r rhai o ranbarth y de-ddwyrain
- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg, neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig neu iaith heblaw'r Gymraeg, Saesneg neu'r Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn iachach”, a welwyd gan ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan y rhai o ysgolion â chanran ganolig neu uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu ag ysgolion â chanran isel o'r disgyblion hyn Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg, neu iaith arall ar wahân i Saesneg, Cymraeg neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r ysgol yn fy helpu i ddod yn iach ac yn hyderus”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr ysgol gynradd o’u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd, a chan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan ddysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY.

## Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg

Gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau am eu defnydd o'r Gymraeg (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Wir yn anghytuno"; i "Wir yn cytuno" ar gyfer dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9, a "Nac ydw", "Ddim yn siŵr" ac "Ydw" ar gyfer dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2).

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 am eu defnydd o'r Gymraeg oedd:

- "Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg"
- "Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth"

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr Blynyddoedd 3 i 9 am eu defnydd o'r Gymraeg oedd:

- "Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio fy sgiliau Cymraeg"
- "Rwy'n defnyddio fy sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth" [Troednodyn 14]

**Crynodeb o'r canfyddiadau: defnydd dysgwyr o'r Gymraeg**

- Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg, tra bod lleiafrif wedi nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Roedd mwyafrif y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gan nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n fwy cyfartal mewn ysgolion cyfrwng Saesneg: roedd lleiafrif o ddysgwyr yn cytuno, yn anghytuno a ddim yn cytuno nac yn anghytuno pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg. Nododd tua hanner y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg nad

[14] Ar gyfer y dadansoddiad a gyflwynir yn y bennod hon, cafodd yr ymatebion i'r datganiadau "Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg" fel y'u gwelwyd gan ddysgwyr Dosbarth Derbyn i flwyddyn 2 ac "Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio fy sgiliau Cymraeg" fel y'u gwelwyd gan ddysgwyr blynyddoedd 3 i 9 eu cyfuno ac fe'u cyflwynir fel "Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg". Cafodd yr ymatebion i'r datganiadau "Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth" fel y'u gwelwyd gan ddysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ac "Rwy'n defnyddio fy sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth" fel y'u gwelwyd gan ddysgwyr blynyddoedd 3 i 9 eu cyfuno a'u cyflwyno fel "Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth".

oeddent yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a nododd lleiafrif eu bod yn gwneud hynny

**Y canfyddiadau: defnydd dysgwyr o'r Gymraeg**

Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiad canlynol:


- “Rwy’n teimlo’n hyderus yn defnyddio’r Gymraeg” (50% yn cytuno, 30% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o ddysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol

- “Rwy’n defnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth” (40% yn cytuno, 47% yn anghytuno)

**Ffigur 6. Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg**

Ymatebion dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 i'r cwestiwn: “Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol?” Ymatebion dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb “Wir yn cytuno” a “Cytuno” wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel “Cytuno”; mae'r ymatebion “Wir yn anghytuno” ac “Anghytuno” wedi'u hailgodio fel “Anghytuno”. Mae'r ymatebion “Ddim yn siŵr” (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi’u cyfuno a’u hailgodio fel “Niwtral”.

Cyflwynir crynodebau wedi'u pwysoli o ymatebion dysgwyr yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol yn Nhabl 5 isod. Maent yn dangos bod mwyafrif y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gan nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bod lleiafrif yn anghytuno â'r ddau ddatganiad hyn. Roedd yr

ymatebion wedi'u rhannu'n fwy cyfartal mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gyda lleiafrif o ddysgwyr yn cytuno, yn anghytuno a ddim yn cytuno nac yn anghytuno pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg. Nododd tua hanner y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a nododd lleiafrif eu bod yn gwneud hynny.

**Tabl 5. Ymatebion dysgwyr i ddatganiadau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol**

| Cwestiwn | Cyfrwng iaith yr ysgol | Ymateb | % yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cytuno | 75.7 |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Niwtral | 8.5 |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Anghytuno | 15.8 |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Saesneg | Cytuno | 41.3 |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Saesneg | Niwtral | 24.8 |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg | Cyfrwng Saesneg | Anghytuno | 33.9 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Cymraeg | Cytuno | 69.0 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Cymraeg | Niwtral | 9.2 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Cymraeg | Anghytuno | 21.8 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Saesneg | Cytuno | 29.0 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Saesneg | Niwtral | 16.5 |
| Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cyfrwng Saesneg | Anghytuno | 54.5 |

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n teimlo’n hyderus yn defnyddio’r Gymraeg”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd

- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg neu iaith arall heblaw'r Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn siarad iaith heblaw'r Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol na'r rhai o'r gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin. Roedd dysgwyr o'r canolbarth a'r gorllewin a'r de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol na'r rhai o'r gogledd
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na'r rhai o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr heb CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n defnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol na'r rhai o'r gogledd
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ysgolion â chanran isel neu uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr nad oedd ganddynt CDU a dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr eraill
- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig neu iaith heblaw'r Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd

- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â dysgwyr o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn

## Bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol

Gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau am eu bodlonrwydd gyda'r ysgol mewn perthynas ag athrawon a staff eraill (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Wir yn anghytuno"; i "Wir yn cytuno" ar gyfer dysgwyr Blynyddoedd 3 i 9, a "Nac ydw", "Ddim yn siŵr" ac "Ydw" ar gyfer dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2).

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr ym mhob blwyddyn am eu bodlonrwydd oedd:

- "Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu"
- "Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff"
- "Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant"
- "Mae athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant"

**Crynodeb o'r canfyddiadau: bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol**

- Roedd tua hanner y dysgwyr yn cytuno a lleiafrif yn anghytuno bod athrawon a staff wir yn gwrando ar blant, ac roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno a lleiafrif yn anghytuno bod athrawon yn cymryd gofal da o blant, eu bod bob amser yn barod i helpu ac yn hawdd siarad â nhw.

**Y canfyddiadau: bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol**

Nododd mwyafrif y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Mae athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant" (72% yn cytuno, 11% yn anghytuno)
- "Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu" (64% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- "Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff" (63% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant" (53% yn cytuno, 25% yn anghytuno)

**Ffigur 5. Bodlonrwydd dysgwyr gyda'r ysgol**

Ymatebion dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 i'r cwestiwn: “Gan feddwl am athrawon a staff eraill yn eich ysgol, beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol?” Ymatebion dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 i'r cwestiwn: “Gan feddwl am athrawon a staff eraill yn eich ysgol, a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol?”




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb “Wir yn cytuno” a “Cytuno” wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel “Cytuno”; mae'r ymatebion “Wir yn anghytuno” ac “Anghytuno” wedi'u hailgodio fel “Anghytuno”. Mae'r ymatebion “Ddim yn siŵr” (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi’u cyfuno a’u hailgodio fel “Niwtral”.

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, “Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu”, roedd y gwahaniaeth yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd
- roedd dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr heb CDU

- roedd dysgwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol na'r rhai o ranbarth y gogledd
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na dysgwyr eraill

Ar gyfer y datganiad, “Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff”, roedd y gwahaniaeth yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr o ysgolion â chanran isel neu ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr heb CDU
- roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig gwyn
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na dysgwyr eraill

Ar gyfer y datganiad, “Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant'”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, Cymraeg a Saesneg, neu iaith arall ar wahân i Saesneg, Cymraeg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.
- roedd dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr heb CDU

Ar gyfer y datganiad, “Mae athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr ysgol gynradd o’u cymharu â dysgwyr ysgol uwchradd a chan dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de-ddwyrain.

## Lles dysgwyr

Gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu lles. Gallai dysgwyr o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ddewis atebion o blith "Nac ydw", "Ddim yn siŵr" ac "Ydw", tra bod opsiynau ymateb i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 yn amrywio o "Wir yn anghytuno" i "Wir yn cytuno".

Y datganiadau a gyflwynwyd i ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn oedd:

- "Rwy'n meddwl y bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd"
- "Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud rhai pethau'n dda"
- "Rwy'n medd bod llawer o bobl yn poeni amdanaf"
- "Rwy'n meddwl bod llawer o bethau y gallaf fod yn falch ohonynt"
- "Rwyf wedi bod mewn hwyliau da"
- "Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl"

**Crynodeb o'r canfyddiadau: lles dysgwyr**

Pan ofynnwyd iddynt am agweddau ar eu lles eu hunain, dywedodd mwyafrif helaeth y dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud rhai pethau'n dda a'u bod yn meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanynt. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno eu bod yn credu y byddai pethau da yn digwydd yn eu bywydau, bod llawer o bethau y gallent fod yn falch ohonynt, eu bod wedi bod mewn hwyliau da a'u bod wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl.

**Y canfyddiadau: lles dysgwyr**

Nododd mwyafrif helaeth y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud rhai pethau'n dda" (89% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanaf" (87% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Nododd mwyafrif y dysgwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Rwy’n meddwl bod llawer o bethau y gallaf fod yn falch ohonynt” (81% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- “Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl” (77% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- “Rwy’n meddwl y bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd” (74% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- “Rwyf wedi bod mewn hwyliau da” (73% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

**Ffigur 7. Lles dysgwyr**

Ymatebion dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 i'r cwestiwn: “Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol?” Ymatebion dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 9 i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"*




*Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 3-9, mae'r opsiynau ymateb “Wir yn cytuno” a “Cytuno” wedi'u cyfuno a'u hailgodio fel “Cytuno”; mae'r ymatebion “Wir yn anghytuno” ac “Anghytuno” wedi'u hailgodio fel “Anghytuno”. Mae'r ymatebion “Ddim yn siŵr” (dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2) a “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” (dysgwyr ym Mlynyddoedd 3 i 6) wedi’u cyfuno a’u hailgodio fel “Niwtral”.

Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion dysgwyr â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n meddwl y bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd

- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- roedd dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na'r rhai heb CDU
- roedd dysgwyr heb CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU
- roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol na'r rhai o grwpiau ethnig gwyn

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n teimlo fy mod i’n gallu gwneud rhai pethau'n dda”, roedd yr ymatebion yn fwy cadarnhaol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn o’i gymharu â dysgwyr lleiafrifoedd ethnig. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan y rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chan y rhai o ysgolion â chanran ganolig ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'u cymharu ag ysgolion â chanran uchel o'r disgyblion hyn. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad iaith heblaw Cymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanaf”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl a chan ddysgwyr sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd o gymharu â'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn unig.

Ar gyfer y datganiad “Rwy’n meddwl bod llawer o bethau y gallaf fod yn falch ohonynt”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan ddysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Roedd dysgwyr ysgol uwchradd o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd

Ar gyfer y datganiad, “Rwyf wedi bod mewn hwyliau da”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr heb CDU
- roedd dysgwyr heb CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU

- roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o gefndiroedd ethnig gwyn
- roedd dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd

Ar gyfer y datganiad, "Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd dysgwyr ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd
- roedd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na dysgwyr anabl
- roedd dysgwyr ysgol uwchradd â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr mewn ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd dysgwyr nad oedd ganddynt CDU a dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol na dysgwyr ysgol uwchradd a oedd â CDU

# 6. Rhan C: Canfyddiadau manwl yr arolwg o rieni/gofalwyr

## Ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn ymwybodol o amrywiol elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Ddim yn ymwybodol” i “Ymwybodol iawn”) ac wedi hynny beth oedd ffynhonnell unrhyw wybodaeth yr oedd ganddynt ar y Cwricwlwm i Gymru.[Troednodyn 15] Yn benodol, gofynnwyd i’r ymatebwyr i ddechrau pa mor ymwybodol oeddent o’r canlynol:

- “Bod ysgolion bellach yn paratoi eu cwricwlwm eu hunain fel rhan o’r Cwricwlwm i Gymru”
- “Bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y pedwar diben ar gyfer dysgwyr”

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r rhai a ddywedodd eu bod yn "ymwybodol iawn" neu "rywfaint yn ymwybodol" bod ysgolion bellach yn paratoi eu cwricwlwm eu hunain fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn o ba ffynonellau gwybodaeth y datblygodd rhieni eu hymwybyddiaeth o’r Cwricwlwm i Gymru ohonynt, ac yn caniatáu i rieni ddewis sawl opsiwn o blith y canlynol:

- “gwybodaeth a ddarparwyd i mi gan ysgol(ion) fy mhlentyn/mhlant” (54% ie, 46% na)
- “Gwybodaeth a welais ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan newyddion, gwefan yr ysgol)”
- “Gwybodaeth a welais ar y cyfryngau (e.e. Radio/Teledu, papur newydd, cyfryngau cymdeithasol)”
- “Siarad gyda rhieni eraill”
- “Siarad gyda fy mhlentyn /mhlant”
- "Arall"

Os oedd rhieni'n dewis yr opsiwn “Arall”, fe’u gwahoddwyd i roi rhagor o fanylion mewn maes testun agored.

[15] Gofynnwyd i rieni ateb y cwestiwn yn seiliedig ar eu hymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cwricwlwm i Gymru a allai fod yn seiliedig ar fwy nag un plentyn neu ysgol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm**

- Nododd mwyafrif y rhieni fod ganddynt ryw lefel o ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru a'i ffocws ar y pedwar diben. Nododd lleiafrif o rieni nad oedd ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o gwbl ohono.
- Dywedodd tua hanner y rhieni a oedd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru mai ffynhonnell eu hymwybyddiaeth oedd gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgol eu plentyn; nododd lleiafrif o rieni eu bod wedi cael gwybodaeth ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan newyddion, gwefan yr ysgol) neu drwy'r cyfryngau, gyda lleiafrif bach yn nodi mai eu plentyn neu rieni eraill oedd eu ffynhonnell wybodaeth.


**Y canfyddiadau: ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm**

Nododd mwyafrif y rhieni fod ganddynt ymwybyddiaeth (gan ddewis “rhywfaint yn ymwybodol” neu “ymwybodol iawn”) o'r elfennau canlynol o’r cwricwlwm:

- “Bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y pedwar diben ar gyfer dysgwyr” (72% yn ymwybodol, 28% ddim yn ymwybodol)
- “Bod ysgolion bellach yn paratoi eu cwricwlwm eu hunain fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru” (72% yn ymwybodol, 28% ddim yn ymwybodol)

**Ffigur 8. Ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: “Pa mor ymwybodol ydych chi o’r canlynol?”




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, "Bod ysgolion bellach yn paratoi eu cwricwlwm eu hunain fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru”, roedd rhieni dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol o’u cymharu â’r rhai sy'n siarad iaith heblaw’r Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “Bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y pedwar diben ar gyfer dysgwyr”, roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn yn fwy ymwybodol o’i gymharu â’r rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos bod gan rieni y tu allan i ranbarth y gogledd a rhieni ysgol gynradd yn y gogledd fwy o ymwybyddiaeth na rhieni ysgol uwchradd yn rhanbarth y gogledd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad iaith heblaw Cymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

Nododd tua hanner y rhieni fod ffynhonnell wybodaeth eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- “gwybodaeth a ddarparwyd i mi gan ysgol(ion) fy mhlentyn/mhlant” (54% ie, 46% na)

Nododd lleiafrif o rieni fod ffynhonnell wybodaeth eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:


- “gwybodaeth a welais ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan newyddion, gwefan yr ysgol)” (41% ie, 59% na)
- “gwybodaeth a welais ar y cyfryngau (e.e. Radio/Teledu, papur newydd, cyfryngau cymdeithasol)” (20% ie, 80% na)

Nododd lleiafrif bach o rieni fod ffynhonnell wybodaeth eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- “siarad gyda rhieni eraill” (14% ie, 86% na) “siarad gyda fy mhlentyn/mhlant” (13% ie, 87% na)

**Ffigur 9. Ffynonellau gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "Rwy'n ymwybodol o'r Cwricwlwm i Gymru drwy... (ticiwch bob un sy'n berthnasol)"




**Ymatebion testun agored: Rwy'n ymwybodol o'r Cwricwlwm i Gymru drwy... (Arall – nodwch os gwelwch yn dda)**

Gofynnwyd i rieni roi rhagor o fanylion os oeddent wedi cael gwybod am y Cwricwlwm i Gymru drwy ffynhonnell arall. Dewisodd cyfanswm o 232 o rieni wneud sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn (131 o rieni ysgol gynradd, a 101 o rieni ysgol uwchradd). Y ffynonellau gwybodaeth eraill a grybwyllwyd amlaf gan rieni a ddewisodd "Arall" mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd eu bod yn athro neu'n llywodraethwr mewn ysgol neu eu bod nhw (neu rywun a oedd yn perthyn iddynt) yn gweithio yn y byd addysg (ond nid oeddent yn benodol ynglŷn â'u rôl). Ffynonellau gwybodaeth eraill am y Cwricwlwm i Gymru a grybwyllwyd gan rieni oedd eu hymchwil eu hunain, siarad â rhieni eraill, neu radd neu gymhwyster arall yn ymwneud ag addysg (38 o rieni).

## Gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau am eu gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Anghytuno'n gryf” i “Cytuno'n gryf”)[16] Yn benodol, gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r canlynol:

- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu addysg eang a chytbwys”
- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau”
- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau bywyd go iawn”

**Crynodeb o'r canfyddiadau: gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm**

- Dywedodd mwyafrif y rhieni eu bod yn gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau, darparu addysg eang a chytbwys a darparu profiadau bywyd go iawn. Ar gyfer pob un o'r tri datganiad, nododd lleiafrif o ymatebwyr nad oedd ganddynt wybodaeth am ffocws y Cwricwlwm i Gymru ar y maes hwnnw.

**Canfyddiadau: gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm.**


Nododd mwyafrif y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau” (62% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu addysg eang a chytbwys” (60% yn cytuno, 16% yn anghytuno)
- “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau bywyd go iawn” (59% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

[16] Gofynnwyd i rieni ateb y cwestiwn yn seiliedig ar eu hymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cwricwlwm i Gymru a allai fod yn seiliedig ar fwy nag un plentyn neu ysgol.

**Ffigur 10. Gwybodaeth rhieni am y newidiadau i'r cwricwlwm**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: “Gan feddwl am eich dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, a ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol?”




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu addysg eang a chytbwys”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd
- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr ysgol gynradd a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd

- roedd rhieni dysgwyr yn rhanbarth canolbarth y de yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr yn y canolbarth a'r gorllewin
- roedd rhieni dysgwyr ysgol gynradd yn y de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin. Roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn y de-ddwyrain.
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol na rheini dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o’u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd. Roedd rhieni dysgwyr ysgol gynradd a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd. Roedd rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn unig ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd. Roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin a rhanbarth y gogledd yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn rhanbarth y de-ddwyrain.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy’n gwybod bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau bywyd go iawn”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebion gan rieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY.

## Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm

Gofynnwyd i rieni faint o gyfle yr oeddent wedi'i gael yn ysgol eu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Dim o gwbl" i "Llawer iawn". Yn benodol, gofynnwyd iddynt faint o gyfle yr oeddent wedi'i gael yn ysgol eu plentyn i:

- "Rannu eich syniadau am beth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol"
- "Rhannu eich syniadau am sut mae eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol"
- "Rhoi adborth ar gwricwlwm yr ysgol"
- "Clywed am sut y gallwch gefnogi dysgu eich plentyn"
- "Cyfrannu eich profiad neu arbenigedd i gefnogi'r addysgu a'r dysgu."

Gwahoddwyd ymatebwyr hefyd i wneud sylwadau ysgrifenedig pellach i gefnogi eu hatebion mewn cwestiwn testun agored.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**

- Nododd mwyafrif y rhieni eu bod wedi cael cyfle i glywed am sut y gallent gefnogi dysgu eu plentyn. Nododd tua hanner eu bod wedi cael cyfle i rannu eu syniadau ynglŷn â sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Cafodd lleiafrif gyfle i roi adborth ar gwricwlwm yr ysgol, rhannu syniadau am beth mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol neu gyfrannu eu profiadau neu eu harbenigedd

**Y canfyddiadau: ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**

Nododd mwyafrif y rhieni eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- "clywed am sut y gallwch gefnogi dysgu eich plentyn" (nododd 66% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, a nododd 33% eu bod wedi cael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl)

Nododd tua hanner y rhieni eu bod wedi cael  ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:


- "rhannu eich syniadau am sut mae eich plentyn yn dysgu yn yr ysgol" (nododd 42% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, a nododd 55% eu bod wedi cael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl)

Nododd mwyafrif y rhieni eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:[Troednodyn17]

- “cyfrannu eich profiad neu arbenigedd i gefnogi’r addysgu a’r dysgu” (nododd 41% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, nododd 55% eu bod wedi cael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl)
- “rhannu eich syniadau am beth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol” (nododd 40% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu lawer iawn o gyfle, a nododd 56% eu bod wedi cael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl)
- “rhoi adborth ar gwricwlwm yr ysgol” (nododd 38% eu bod wedi cael ychydig, llawer neu  lawer iawn o gyfle, nododd 59% eu bod wedi cael ychydig iawn o gyfle neu ddim cyfle o gwbl)

[17] Fel y nodir yn Nhabl 4, diffinnir “lleiafrif” fel rhwng 15% a 41%, a “tua hanner” fel 42% i 58%.

**Ffigur 11. Ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**
Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "Yn ysgol eich plentyn faint o gyfle ydych chi wedi'i gael i"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad ar gyfleoedd rhieni i "rannu eich syniadau am beth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol", roedd yr ymatebion yn dangos bod mwy o gyfleoedd i rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl wneud hynny o'i gymharu â rhieni dysgwyr anabl. Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg, a bod y rhai sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â'r rhai sy'n siarad Saesneg ar yr aelwyd. Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn. Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY.

Ar gyfer y datganiad ar gyfleoedd i rieni "rannu eich syniadau am sut mae eich plentyn yn dysgu yn yr ysgol", roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl yn

cael mwy o gyfleoedd o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd nag ysgolion cyfrwng Saesneg a bod rhieni dysgwyr â CDU yn cael mwy o gyfleoedd o gymharu â rhieni dysgwyr heb CDU.

Ar gyfer y datganiad ar gyfleoedd rhieni i “roi adborth ar gwricwlwm yr ysgol”, roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg, a bod rhieni dysgwyr â CDU yn cael mwy o gyfleoedd na’r rhai heb gynllun o'r fath. Nododd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl e a rhieni dysgwyr ysgol uwchradd anabl eu bod yn cael mwy o gyfleoedd i roi adborth o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd anabl. Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn. Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni yn rhanbarth y gogledd yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â'r rhai yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin.

Ar gyfer y datganiad ar gyfleoedd rhieni i “glywed am sut y gallwch gefnogi dysgu eich plentyn”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- nododd rhieni dysgwyr ysgol gynradd eu bod yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd
- nododd rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl eu bod yn cael mwy o gyfleoedd na rhieni dysgwyr anabl
- nododd rhieni dysgwyr â CDU eu bod yn cael mwy o gyfleoedd na rhieni dysgwyr heb CDU
- nododd rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY eu bod yn cael mwy o gyfleoedd na rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- nododd rhieni yn rhanbarth y gogledd eu bod yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin.
- nododd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yn rhanbarth canolbarth y de eu bod yn cael mwy o gyfleoedd o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yn rhanbarth y gogledd

Ar gyfer y datganiad ar gyfleoedd rhieni i “gyfrannu eich profiad neu arbenigedd i gefnogi’r addysgu a’r dysgu”, roedd yr ymatebion yn dangos bod rhieni ysgolion cynradd yn cael mwy

o gyfleoedd i wneud hynny o’u cymharu â rhieni ysgolion uwchradd, a bod rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl yn cael mwy o gyfle o gymharu â rhieni dysgwyr anabl. Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos bod rhieni dysgwyr â CDU yn cael mwy o gyfleoedd na'r rhai heb gynlluniau o'r fath.

**Ymatebion testun agored: ymwneud rhieni â chynllunio'r cwricwlwm**

Gofynnwyd i rieni ymhelaethu ar eu hymatebion mewn blwch testun agored, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Gwnaeth 243 o rieni sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn (136 o rieni ysgol gynradd, 105 o rieni ysgol uwchradd a 2 riant o ysgol ag UCD). Nodir y pwyntiau a godwyd amlaf isod.

**Cododd rhieni bryder ynglŷn ag addysg eu plentyn yn gyffredinol.** Y pryderon a godwyd amlaf gan y rhieni hyn oedd y ffaith nad oedd yr ysgol yn diwallu anghenion eu plentyn (gan gynnwys pryderon ynghylch ADY neu les eu plentyn), nad oedd eu plentyn yn gwneud digon o gynnydd neu fod angen iddynt gefnogi dysgu eu plentyn gartref er mwyn diwallu ei anghenion.

Roedd rhieni yn **bryderus ynghylch sut yr oedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu**, ac roedd canfyddiad nad oedd gan ysgolion yr arbenigedd i'w weithredu'n gywir.

**Roedd profiadau rhieni a wnaeth sylwadau ar eu hymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru yn ysgol eu plentyn yn amrywio**. Roedd rhai o’r rhieni hyn yn fodlon ar eu hymwneud â'r Cwricwlwm, gan nodi bod ysgolion yn awyddus i rannu gwybodaeth gyda rhieni, cael adborth, bod eu syniadau’n cael eu croesawu a bod rhywun yn gwrando arnynt. Teimlai rhai yn wahanol, gan ddweud nad yw'r ysgol yn gwrando ar rieni nac yn gofyn i rieni am eu mewnbwn, nad yw rhieni wedi bod yn rhan o'r broses, ac y byddent yn hoffi cael eu cynnwys yn fwy yn yr hyn a oedd yn cael ei ddysgu.

Roedd rhieni'n teimlo **nad oeddent wedi cael digon o ohebiaeth na gwybodaeth gan ysgol eu plentyn.** Roedd rhai o'r rhieni hyn eisiau mwy o wybodaeth neu ohebiaeth ar faterion penodol yr oedd eu plentyn yn eu hwynebu, a soniodd rhai y byddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am yr hyn a addysgir yn yr ysgol, am gynnydd eu plentyn neu sut y gallent gefnogi dysgu eu plentyn.

Roedd rhieni'n teimlo **nad oedd gan ysgolion yr adnoddau yr oedd eu hangen arnynt i gefnogi dysgu eu plentyn**. Soniodd y rhieni hyn am yr angen am well trefniadau dysgu proffesiynol i athrawon neu bryderon ynghylch cadw staff yn ysgol eu plentyn. Cyfeiriodd rhai o'r rhieni hyn at enghreifftiau o adnoddau yr oeddent yn teimlo bod ysgolion yn brin

ohonynt (e.e. adnoddau digidol neu adnoddau Cymraeg), tra bod rhieni eraill yn poeni am y diffyg cyllid ar gyfer ysgolion yn gyffredinol.

## Galluedd rhieni

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynghylch sut y mae dull ysgol eu plentyn o'u cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm yn gwneud iddynt deimlo (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Anghytuno'n gryf” i “Cytuno'n gryf”) Gofynnwyd i rieni'n benodol a oedd ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffordd a oedd yn:

- gwneud iddyn nhw deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt
- gwneud iddyn nhw deimlo'n hyderus yn addysg eu plentyn
- gwneud iddyn nhw deimlo'n frwdfrydig i gefnogi addysg eu plentyn

**Crynodeb o'r canfyddiadau: galluedd rhieni**

- Roedd mwyafrif y rhieni yn cytuno bod ysgol eu plentyn wedi eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffyrdd a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n frwdfrydig i gefnogi'r addysg yr oedd eu plentyn yn ei derbyn. Roedd tua hanner y rhieni yn teimlo bod y trafodaethau hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n hyderus yn addysg eu plentyn. Teimlai lleiafrif o rieni fod trafodaethau o'r fath yn gwneud iddynt deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Ar draws yr holl ddatganiadau, nododd lleiafrif o'r ymatebwyr rywfaint o anghytundeb

**Y canfyddiadau: galluedd rhieni**

Nododd mwyafrif y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch sut y mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm:

- “gwneud i mi deimlo’n frwdfrydig i gefnogi addysg fy mhlentyn” (61% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch sut y mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm:


- “gwneud i mi deimlo’n hyderus yn addysg fy mhlentyn” (58% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o rieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch sut y mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm:

- “gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf” (41% yn cytuno, 23% yn anghytuno)

**Ffigur 12. Galluedd rhieni mewn trafodaethau am y cwricwlwm**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: “Mae ysgol fy mhlentyn yn fy nghynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffordd sy’n…”




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

O ran sut mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau mewn ffordd sy'n "gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY o'u cymharu ag ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr yn rhanbarth y gogledd o'u cymharu â rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin a rhanbarth canolbarth y de. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'u cymharu â rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn.

O ran sut y mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau mewn ffordd sy'n "gwneud i mi deimlo'n hyderus yn addysg fy mhlentyn", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni o ranbarth y gogledd o'u cymharu â rhanbarthau'r de-ddwyrain a chanolbarth y de.

Roedd rhieni o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin hefyd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canolbarth y de.

O ran sut y mae ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau mewn ffordd sy'n "gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig i gefnogi addysg fy mhlentyn", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni o ranbarth y gogledd o'u cymharu â rhanbarth canolbarth y de.

## Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau ynghylch effaith ganfyddedig y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu ar eu plentyn (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Anghytuno'n gryf" i "Cytuno'n gryf"). Yn benodol, gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn eu helpu i ddod yn:

- "dod yn uchelgeisiol ac yn alluog"
- "iach a hyderus"
- "mentrus a chreadigol"
- "egwyddorol a gwybodus"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae athrawon fy mhlentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol fy mhlentyn"
- "Mae athrawon fy mhlentyn yn darparu'r cymorth cywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd"
- "Mae addysg fy mhlentyn yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn"
- "Mae addysg fy mhlentyn yn diwallu ei anghenion"
- "Mae addysg fy mhlentyn yn cefnogi ei les"

**Crynodeb o'r canfyddiadau: canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**

- Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn hyderus bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn helpu eu plentyn i ddod yn iach a hyderus, yn egwyddorol a gwybodus, yn fentrus a chreadigol ac yn uchelgeisiol a galluog. Roedd tua hanner y rhieni yn cytuno, a lleiafrif yn anghytuno, bod lles eu plentyn yn cael ei gefnogi, bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu, bod athrawon yn deall eu plentyn, bod athrawon yn darparu'r cymorth cywir ac yn helpu eu plentyn i gyrraedd ei botensial.

### Y canfyddiadau: canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm


Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch eu hyder bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn helpu eu plentyn i ddod yn:

- "iach a hyderus" (55% yn cytuno, 24% yn anghytuno)

- “egwyddorol a gwybodus” (55% yn cytuno, 19% yn anghytuno)
- “mentrus a chreadigol” (53% yn cytuno, 21% yn anghytuno)
- “uchelgeisiol a galluog” (48% yn cytuno, 26% yn anghytuno)

**Ffigur 13. Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?" Rwy'n hyderus bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol fy mhlentyn yn ei helpu i ddod yn..."




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

O ran hyder rhieni bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn ei helpu i ddod yn "uchelgeisiol a galluog", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr ysgol gynradd o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr â CDU o'u cymharu â'r rhai heb gynllun o'r fath, a chan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o gymharu â Saesneg neu iaith heblaw am y Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg.

O ran hyder rhieni bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn ei helpu i ddod yn "iach ac yn hyderus", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg neu iaith heblaw Cymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

O ran hyder rhieni bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn ei helpu i ddod yn "fentrus a chreadigol", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr ysgol gynradd o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr yn rhanbarth y de-ddwyrain o'u cymharu â rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin.

O ran hyder rhieni bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn ei helpu i ddod yn "egwyddorol a gwybodus", cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr ysgol gynradd o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd, a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd.


Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Mae athrawon fy mhlentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol fy mhlentyn” (56% yn cytuno, 27% yn anghytuno)
- “Mae addysg fy mhlentyn yn cefnogi ei les” (54% yn cytuno, 26% yn anghytuno)
- “Mae athrawon fy mhlentyn yn darparu’r cymorth cywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd” (53% yn cytuno, 30% yn anghytuno)

- “Mae addysg fy mhlentyn yn diwallu ei anghenion” (43% yn cytuno, 37% yn cytuno)
- “Mae addysg fy mhlentyn yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn” (42% yn cytuno, 40% yn anghytuno)

**Ffigur 14. Canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at nodau'r Cwricwlwm i Gymru**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol?"




Ar gyfer y datganiad, “Mae athrawon fy mhlentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol fy mhlentyn”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin hefyd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canolbarth y de.
- roedd rhieni o ganolbarth y de yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd o'r canolbarth a'r gorllewin

- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o'r dysgwyr hyn.

Ar gyfer y datganiad, “Mae athrawon fy mhlentyn yn darparu’r cymorth cywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni ysgol gynradd o’u cymharu â rhieni ysgol uwchradd a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr â CDU o'u gymharu â rhieni dysgwyr heb CDU.

Ar gyfer y datganiad, “Mae addysg fy mhlentyn yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr a oedd siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg neu iaith arall ar wahân i Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “Mae addysg fy mhlentyn yn diwallu ei anghenion”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDU

Ar gyfer y datganiad, “Mae addysg fy mhlentyn yn cefnogi ei les”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni ysgol gynradd o’u cymharu â rhieni ysgol uwchradd a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â dysgwyr anabl.

## Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau ynghylch eu hyder yn addysg eu plentyn o ran ei baratoi ar gyfer y dyfodol (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Anghytuno'n gryf" i "Cytuno'n gryf"). Yn benodol, gofynnwyd i rieni nodi i ba raddau yr oeddent yn hyderus bod yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol:

- "yn ei helpu i baratoi ar gyfer ei gamau nesaf yn ei addysg"
- "yn ei helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol"

**Crynodeb o'r canfyddiadau: hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol**

- Roedd tua hanner y rhieni'n cytuno bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer camau nesaf ei addysg ond dim ond lleiafrif a oedd yn cytuno bod cwricwlwm yr ysgol yn paratoi eu plentyn ar gyfer gwaith neu fywyd yn fwy cyffredinol.

**Y canfyddiadau: hyder yng nghwricwlwm yr ysgol**

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â'u hyder yng nghwricwlwm yr ysgol:


- "yn ei helpu i baratoi ar gyfer ei gamau nesaf yn ei addysg" (52% yn cytuno, 26% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o rieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â'u hyder yng nghwricwlwm yr ysgol:

- "yn ei helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol" (40% yn cytuno, 33% yn anghytuno)

**Ffigur 14. Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

O ran hyder rhieni bod yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu, “yn ei helpu i baratoi ar gyfer ei gamau nesaf yn ei addysg”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

O ran hyder rhieni bod yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu, “yn ei helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl

- cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg neu iaith heblaw Cymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn
- roedd rhieni yn rhanbarth y de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin.
- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yng nghanolbarth y de yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd o'r de-ddwyrain

## Bodlonrwydd rhieni gydag ysgol eu plentyn

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau am eu gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru (roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Anghytuno'n gryf” i “Cytuno'n gryf”). Yn benodol, gofynnwyd i rieni nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- “Mae’r ysgol yn dda am rannu gwybodaeth â mi”
- “Gallaf ymddiried yn yr athrawon a'r staff yn ysgol fy mhlentyn”
- “Mae athrawon a staff ysgol fy mhlentyn yn barod i helpu”
- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn gwrando arnaf os oes gen i bryderon”
- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o fy mhlentyn”
- “Mae gan fy mhlentyn fynediad at gymorth ychwanegol yn yr ysgol os oes angen”
- “Gallaf gael gafael ar athro/athrawon fy mhlentyn yn hawdd”
- “Rwy’n fodlon ag ysgol fy mhlentyn”

**Crynodeb o'r canfyddiadau: bodlonrwydd rhieni ag ysgol eu plentyn**

- Roedd mwyafrif y rhieni yn cytuno, a lleiafrif yn anghytuno, bod athrawon yn cymryd gofal da o'u plentyn, bod athrawon yn ysgol eu plentyn yn barod i helpu a'u bod yn gallu ymddiried ynddynt, eu bod yn gallu cael gafael ar athrawon yn hawdd a bod athrawon yn gwrando ar rieni os oedd ganddynt bryder. Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno bod gan eu plentyn fynediad at gymorth ychwanegol os oedd ei angen, bod yr ysgol yn dda am rannu gwybodaeth gyda nhw a'u bod yn fodlon ag ysgol eu plentyn.

**Y canfyddiadau: bodlonrwydd rhieni ag ysgol eu plentyn**

Nododd mwyafrif y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch eu bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn:

- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o fy mhlentyn” (75% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- “Mae athrawon a staff ysgol fy mhlentyn yn barod i helpu” (73% yn cytuno, 11% yn anghytuno)


- “Gallaf ymddiried yn yr athrawon a'r staff yn ysgol fy mhlentyn” (71% yn cytuno, 11% yn anghytuno)
- “Gallaf gael gafael ar athro/athrawon fy mhlentyn yn hawdd” (70% yn cytuno, 17% yn anghytuno)
- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn gwrando arnaf os oes gen i bryderon” (68% yn cytuno, 17% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch eu bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn:

- “Rwy’n fodlon ag ysgol fy mhlentyn” (58% yn cytuno, 23% yn anghytuno)
- “Mae’r ysgol yn dda am rannu gwybodaeth â mi” (57% yn cytuno, 29% yn anghytuno)
- “Mae gan fy mhlentyn fynediad at gymorth ychwanegol yn yr ysgol os oes angen” (49% yn cytuno, 21% yn anghytuno)

**Ffigur 15. Hyder rhieni yng nghwricwlwm yr ysgol**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Ar gyfer y datganiad, “mae’r ysgol yn dda am rannu gwybodaeth â mi”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr ysgol gynradd o’i gymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd, a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Roedd ymatebion rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd hefyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd.

Ar gyfer y datganiad, “gallaf ymddiried yn yr athrawon a'r staff yn ysgol fy mhlentyn”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd

- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o gymharu â rhieni dysgwyr eraill
- roedd rhieni y tu allan i ranbarth y de-ddwyrain a rhieni dysgwyr ysgol gynradd yn rhanbarth y de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol uwchradd o'r de-ddwyrain

Ar gyfer y datganiad, “mae athrawon a staff ysgol fy mhlentyn yn barod i helpu”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion uwchradd â chanran isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion uwchradd â chanran ganolig o'r dysgwyr hyn.
- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd yn y gogledd a chanolbarth y de yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni yn y de-ddwyrain

Ar gyfer y datganiad, “mae athrawon a staff yn gwrando arnaf os oes gen i bryderon”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol

Ar gyfer y datganiad, “mae athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o fy mhlentyn”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
- roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg
- roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY.

Ar gyfer y datganiad, “Mae gan fy mhlentyn fynediad at gymorth ychwanegol yn yr ysgol os oes angen”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr â CDU o'u gymharu â rhieni dysgwyr heb gynllun o'r fath.

Ar gyfer y datganiad, “Gallaf gael gafael ar athro/athrawon fy mhlentyn yn hawdd”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni ysgol uwchradd dysgwyr anabl yn fwy cadarnhaol na rheini dysgwyr nad oeddent yn anabl
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na rheini ysgol gynradd dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel neu ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd rhieni yn y canolbarth a'r gorllewin yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni yng nghanolbarth y de

- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig neu Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd
- roedd rhieni a oedd yn siarad iaith arall ar wahân i Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig

Ar gyfer y datganiad, “rwy'n fodlon ag ysgol fy mhlentyn”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni ysgol gynradd o’u cymharu â rhieni ysgol uwchradd, a chan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o’u cymharu â rhieni dysgwyr anabl. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr â CDU o'u gymharu â rhieni dysgwyr heb gynllun o'r fath.

## Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu bodlonrwydd â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn. Cyflwynwyd amrywiadau o rai cwestiynau i rieni dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 a rhieni dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9. Roedd yr holl opsiynau ymateb yn amrywio o “Anfodlon iawn” i “Bodlon iawn” waeth beth fo'r math o gwestiwn a ofynnwyd.

Gofynnwyd yn benodol i rieni dysgwyr Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6 pa mor fodlon oeddent â’r wybodaeth a gawsant am:

- “gynnydd cyffredinol fy mhlentyn”
- “cynnydd fy mhlentyn mewn llythrennedd”
- “cynnydd fy mhlentyn mewn rhifedd”

Gofynnwyd yn benodol i rieni dysgwyr Blynyddoedd 7 i 9 pa mor fodlon oeddent â’r wybodaeth a gawsant am:

- “gynnydd cyffredinol fy mhlentyn”
- “cynnydd fy mhlentyn yn Saesneg”
- “cynnydd fy mhlentyn yn y Gymraeg”
- “cynnydd fy mhlentyn mewn mathemateg a rhifedd”

Yna gofynnwyd i bob rhiant nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau ynghylch eu bodlonrwydd â sut yr oedd gwybodaeth am gynnydd eu plentyn yn cael ei rhannu â nhw. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Anghytuno’n gryf” i “Cytuno’n gryf” a gofynnwyd i rieni’n benodol a oeddent yn fodlon â:

- “sut y maent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn”
- “pa mor aml y maent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn”

Ar gyfer y dadansoddiad a gyflwynir yn y bennod hon, cyfunwyd yr ymatebion i'r datganiadau ar fodlonrwydd rhieni â'r wybodaeth a gânt ar "Gynnydd fy mhlentyn mewn rhifedd" fel y'i gwelwyd gan rieni dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 a "chynnydd fy mhlentyn mewn mathemateg a rhifedd" fel y'i gwelwyd gan rieni dysgwyr Blynyddoedd 7 i 9, ac fe'u cyflwynir fel "cynnydd eich plentyn mewn rhifedd".

**Crynodeb o'r canfyddiadau: bodlonrwydd rhieni â chynnydd eu plentyn**

- Ar gyfer y datganiadau a welwyd gan rieni ysgol uwchradd ynghylch eu bodlonrwydd gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd am gynnydd eu plentyn yn y Gymraeg a'r Saesneg, nododd lleiafrif o rieni eu bod yn fodlon. Ar gyfer y ddau ddatganiad a welwyd gan yr holl rieni a'r datganiad ar lythrennedd a welwyd gan rieni ysgolion cynradd, nododd tua hanner eu bod yn fodlon ar y wybodaeth a gawsant ar gynnydd mewn rhifedd, llythrennedd ac yn gyffredinol. Ar gyfer pob datganiad, nododd lleiafrif o rieni eu bod yn anfodlon.

**Y canfyddiadau: bodlonrwydd rhieni â chynnydd eu plentyn**

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn fodlon ar y wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn yn y meysydd canlynol:


- “cynnydd eich plentyn mewn rhifedd” (56% yn fodlon, 25% yn anfodlon)
- “cynnydd cyffredinol eich plentyn” (55% yn fodlon, 26% yn anfodlon)
- “cynnydd eich plentyn mewn llythrennedd”, rhieni dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn unig, (54% yn fodlon, 25% yn anfodlon)

Nododd lleiafrif o rieni eu bod yn fodlon ar y wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn yn y meysydd canlynol:

- “cynnydd eich plentyn yn Saesneg”, rhieni dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn unig, (38% yn fodlon, 25% yn anfodlon)
- “cynnydd eich plentyn yn y Gymraeg”, rhieni dysgwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn unig, (36% yn fodlon, 24% yn anfodlon)

**Ffigur 16. Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: “Pa mor fodlon ydych chi â’r wybodaeth yr ydych yn ei derbyn gan ysgol eich plentyn am...”




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

O ran boddhad rhieni gyda'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am "gynnydd cyffredinol eich plentyn", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl yn fwy cadarnhaol na rheini dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd

O ran bodlonrwydd rhieni â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn ar "gynnydd eich plentyn mewn llythrennedd", fel y'i gwelwyd gan rieni dysgwyr ysgol gynradd, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni dysgwyr nad ydynt yn anabl o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl.

Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol hefyd gan rieni dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg neu iaith arall ar wahân i Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd.

O ran bodlonrwydd  rhieni â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn ar "gynnydd eich plentyn yn Saesneg", fel y'i gwelwyd gan rieni dysgwyr ysgol uwchradd, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan y rhai yn rhanbarth canolbarth y de o'u cymharu â rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin a rhanbarth y de-ddwyrain. Roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig neu uchel o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn.

O ran bodlonrwydd  rhieni gyda'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am "gynnydd eich plentyn mewn rhifedd", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni dysgwyr nad ydynt yn anabl yn fwy cadarnhaol na rheini dysgwyr anabl
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr a oedd yn siarad Saesneg neu iaith arall heblaw'r Gymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd
- roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel neu ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY
- roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn.


O ran bodlonrwydd  rhieni â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn ar "gynnydd eich plentyn yn y Gymraeg", fel y'i gwelwyd gan rieni dysgwyr ysgol uwchradd, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan y rhai yn rhanbarth canolbarth y de o'u gymharu â rhanbarth y de-ddwyrain. Roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran isel o'r dysgwyr hyn.

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch eu bodlonrwydd â sut yr oeddent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn:

- “Rwy’n fodlon â sut yr wyf yn derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn” (53% yn cytuno, 29% yn anghytuno)
- “Rwy’n fodlon â pha mor aml rwy'n derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn” (47% yn cytuno, 37% yn anghytuno)

**Ffigur 17. Bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd eu plentyn**

Ymatebion rhieni i'r cwestiwn: "Rwy'n fodlon â…"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

O ran bodlonrwydd rhieni gyda "sut yr wyf yn derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni ysgol uwchradd dysgwyr anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rheini dysgwyr nad oeddent yn anabl
- roedd rhieni ysgol gynradd dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol na rheini ysgol gynradd dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr ysgol gynradd â CDU yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr ysgol gynradd heb CDU
- roedd rhieni dysgwyr ysgol uwchradd â CDU yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr ysgol uwchradd nad oedd ganddynt CDU
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd

O ran bodlonrwydd rhieni gyda "pha mor aml rwy'n derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn", roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni dysgwyr â CDU yn fwy cadarnhaol na rhieni dysgwyr heb CDU
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol o gymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd

## Barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru

Gofynnwyd i rieni pa mor gefnogol oeddent o'r Cwricwlwm i Gymru yn gyffredinol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o “Ddim yn gefnogol o gwbl” i “Cefnogol iawn”, gyda’r ymatebwyr yn cael eu gwahodd wedyn i roi sylwadau ysgrifenedig pellach ynghylch lefel eu cefnogaeth mewn cwestiwn testun agored.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru**

- dywedodd tua hanner yr ymatebwyr eu bod ychydig yn gefnogol neu'n gefnogol iawn o'r Cwricwlwm i Gymru a dywedodd lleiafrif nad oeddent yn gefnogol neu eu bod ychydig yn anghefnogol o'r Cwricwlwm i Gymru


**Y canfyddiadau: barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru**

Nododd tua hanner y rhieni eu bod yn gefnogol mewn ymateb i'r datganiad canlynol:

- "Ar y cyfan, pa mor gefnogol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru?" (51% yn gefnogol, 25% yn anghefnogol)

**Ffigur 18. Barn gyffredinol rhieni ar y Cwricwlwm i Gymru**

Ymatebion rhieni/gofalwyr i'r cwestiwn: "Ar y cyfan, pa mor gefnogol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru?"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Mewn ymateb i'r cwestiwn “Ar y cyfan, pa mor gefnogol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru”, cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol gan rieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd o'u cymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg, Cymraeg a Saesneg neu iaith heblaw

Cymraeg, Saesneg, neu Gymraeg a Saesneg ar yr aelwyd. Roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai o gefndir ethnig gwyn ac roedd rhieni dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd rhieni yn y de-ddwyrain yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin.

**Ymatebion testun agored: Ar y cyfan, pa mor gefnogol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru? A allwch egluro'ch ymateb ymhellach:**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allent egluro eu hymateb ymhellach mewn blwch testun agored. Rhoddodd 391 o rieni sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn (221 o rieni ysgol gynradd, 167 o rieni ysgol uwchradd ac 1 rhiant o ysgol arbennig). Nodir y pwyntiau a godwyd amlaf isod.

**Dywedodd lleiafrif o rieni nad oeddent yn gwybod dim am y Cwricwlwm i Gymru ac yr hoffent gael rhagor o wybodaeth amdano**. Nododd y rhieni hyn nad oeddent yn gwybod llawer am y Cwricwlwm i Gymru neu nad oeddent yn ei ddeall yn ddigonol i ffurfio barn. Dywedodd lleiafrif bach o rieni y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth yn gyffredinol, neu well cyfathrebu gan yr ysgol.

**Cododd lleiafrif o rieni bryder ynghylch yr hyn a ddysgwyd i'w plentyn yn yr ysgol**. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch ffocws annigonol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd, sgiliau bywyd a gweithgarwch corfforol yn ogystal â phryderon ynghylch sut yr oedd addysg grefyddol neu addysg rhyw yn cael eu haddysgu. Roedd pryderon hefyd gan leiafrif bach o rieni ynghylch bwlch cyrhaeddiad, safonau addysgol ac ansawdd athrawon yn fwy cyffredinol.

Roedd lleiafrif bach o **rieni'n hoffi'r syniad o'r Cwricwlwm i Gymru** ond yn teimlo hefyd bod ei lwyddiant yn dibynnu ar ansawdd yr athrawon a pha mor dda yr oedd ysgolion yn gallu ei gyflawni. Teimlai rhai o'r rhieni hyn ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus ai peidio ac roedd rhai yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth neu adnoddau ar ysgolion i helpu i'w weithredu.

Soniodd lleiafrif bach am sut yr oedd y **Cwricwlwm i Gymru o fudd i ddysgwyr**. Gwnaeth y rhieni hyn sylwadau cadarnhaol eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn fwy cyfannol ac yn cynnwys mwy o ffocws ar sgiliau bywyd a lles, yn ogystal â chyrhaeddiad a chymwysterau. Soniodd rhai o'r rhieni hyn am elfennau penodol y Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys addysg awyr agored, llais y dysgwr, cyd-destunau ar gyfer dysgu, meddwl yn feirniadol a sgiliau datrys problemau yn ogystal â ffocws ar yr unigolyn.

Gwnaeth lleiafrif bach o **rieni sylwadau nad oedd yr ysgol yn diwallu anghenion pob dysgwr.** Roedd rhai o'r rhieni hyn yn teimlo nad oedd ysgol eu plentyn yn 'ymestyn' eu plentyn yn ddigonol, tra bod eraill yn teimlo nad oedd yr ysgol yn cefnogi dysgwyr sy'n wynebu heriau i wneud cynnydd.

## Hyder rhieni yn addysg eu plentyn

Gofynnwyd i rieni pa mor hyderus oeddent yn teimlo am safon addysg eu plentyn yn gyffredinol, gyda'r opsiynau ymateb yn amrywio o “Ddim yn hyderus o gwbl” i “Yn gwbl hyderus”.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: hyder yn addysg eu plentyn**

- Dywedodd mwyafrif y rhieni eu bod ychydig yn hyderus neu’n gwbl hyderus yn safon addysg eu plentyn, a dywedodd lleiafrif nad oeddent yn hyderus iawn neu nad oeddent yn hyderus o gwbl.


### Y canfyddiadau: hyder yn addysg eu plentyn

Nododd mwyafrif y rhieni eu bod yn teimlo bod ganddynt rywfaint o hyder mewn ymateb i'r datganiadau canlynol ynghylch addysg eu plentyn:

- “Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am safon addysg eich plentyn” (roedd 64% ychydig yn hyderus, nid  oedd 36% yn hyderus iawn neu nid oeddent yn hyderus o gwbl)

**Ffigur 19. Hyder rhieni yn addysg eu plentyn**

Ymatebion rhieni/gofalwyr i'r cwestiwn: " Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am safon addysg eich plentyn?"




Amlinellir isod wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion rhieni â nodweddion gwahanol. Amlinellir y dull a ddefnyddiwyd i ganfod gwahaniaethau nodedig ym Mhennod 3.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, “ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am safon addysg eich plentyn”, roedd y gwahaniaethau yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- roedd rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni ysgol uwchradd
- roedd rhieni dysgwyr nad oeddent yn anabl yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr anabl
- roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn fwy cadarnhaol o gymharu â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd
- roedd rhieni dysgwyr o ysgolion â chanran ganolig o ddysgwyr ag ADY yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â rhieni dysgwyr mewn ysgolion â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY

## Barn rhieni ynghylch gwybodaeth bellach, yr elfennau mwyaf buddiol a phryderon am y cwricwlwm

Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â thri chwestiwn testun agored dewisol. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- "yr un agwedd o gwricwlwm yr ysgol yr hoffwn wybod mwy amdano yw…"
- "yr un rhan o gwricwlwm yr ysgol a fydd o'r budd mwyaf i fy mhlentyn yw…"
- "y peth sy'n fy mhoeni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol yw..."

### Crynodeb o'r canfyddiadau: barn rhieni ynghylch gwybodaeth bellach, yr elfennau mwyaf buddiol a phryderon am y cwricwlwm

Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r un agwedd o gwricwlwm yr ysgol yr hoffent wybod mwy amdano, dywedodd lleiafrif o rieni:

- eu bod eisiau gwybod mwy am yr hyn yr oedd eu plentyn yn cael ei addysgu yn yr ysgol, sut yr oedd cwricwlwm ysgol eu plentyn wedi'i gynllunio a sut yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â hynny
- nad oeddent yn gwybod dim am y Cwricwlwm i Gymru, gan ddweud nad oeddent ychwaith wedi cael unrhyw wybodaeth amdano gan yr ysgol
- yr hoffent wybod mwy am sut yr oedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion eu plentyn
- eu bod eisiau gwybod mwy am sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fesur

Pan ofynnwyd iddynt pa ran o gwricwlwm yr ysgol fyddai o'r budd mwyaf i'w plentyn, dywedodd lleiafrif o rieni:

- mai'r ffocws ar iechyd a lles yn y Cwricwlwm i Gymru fyddai o'r budd mwyaf i'w plentyn
- bod un neu fwy o'r sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol) yn bwysig, gan nodi y dylai eu hysgol ganolbwyntio arnynt
- mai'r amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu fyddai o fudd i'w plentyn
- y byddai agweddau penodol ar y Cwricwlwm i Gymru o fudd i'w plentyn (e.e. y pedwar diben, gwneud cysylltiadau rhwng pynciau a'r ffocws ar amrywiaeth a'r cyd-destun Cymreig)

- nad oeddent yn credu y byddai unrhyw agweddau ar y cwricwlwm o fudd i ddysgwyr ond codwyd pryderon ynghylch y Cwricwlwm i Gymru.

Pan ofynnwyd i rieni beth oedd yn eu poeni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol, dywedodd lleiafrif o rieni:

- eu bod yn poeni nad oedd y cwricwlwm, nac addysg eu plentyn yn fwy cyffredinol, wedi'i deilwra'n ddigonol i ddiwallu anghenion unigol eu plentyn
- bod ganddynt bryderon yn ymwneud â'r hyn a oedd yn cael ei ddysgu
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i ddehongliad
- eu bod yn poeni nad oedd gan ysgolion yr adnoddau i weithredu'r cwricwlwm yn effeithiol
- nad oedd ganddynt ddigon o ymwybyddiaeth, gwybodaeth na dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru
- eu bod yn poeni am ansawdd addysg eu plentyn, safonau ac ansawdd yr addysgu yn ehangach, gan gynnwys pryderon am ADY eu plentyn a'r cymorth sydd ar gael i'w helpu i ddysgu
- eu bod yn poeni am asesu, cymwysterau a'r cyfnod pontio o addysg orfodol i ddysgu ôl-16

### Canfyddiadau: yr agweddau o gwricwlwm yr ysgol yr hoffai rhieni wybod mwy amdanynt

Gofynnwyd i rieni roi sylwadau testun agored mewn ymateb i'r datganiad “yr un agwedd o gwricwlwm yr ysgol yr hoffwn wybod mwy amdano yw…”. Rhoddodd cyfanswm o 421 o rieni ymatebion testun agored i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys 224 o rieni cynradd, 195 o rieni uwchradd a 2 riant â phlant mewn UCD. Nodir y pwyntiau a godwyd amlaf isod. Codwyd pob un o'r pwyntiau gan gyfrannau tebyg o rieni ysgolion cynradd ac uwchradd oni nodir yn wahanol.

**Roedd rhieni eisiau gwybod mwy am yr hyn yr oedd eu plentyn yn cael ei addysgu yn yr ysgol**. Esboniodd y rhieni hyn y byddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth er mwyn iddynt allu cefnogi dysgu eu plentyn gartref. Roedd rhai o'r rhieni hyn eisiau dadansoddiad rheolaidd o bynciau i weld beth yr oedd eu plentyn yn ei ddysgu ar draws y flwyddyn ac ym mha bynciau. Mynegodd rhai yr angen am fwy o wybodaeth am sut yr oedd pynciau penodol yn cael eu haddysgu (megis mathemateg, llythrennedd, crefydd neu addysg rhyw) neu pam yr oedd eu plentyn yn dysgu am bynciau penodol.

Roedd rhieni **eisiau gwybod mwy am sut yr oedd cwricwlwm ysgol eu plentyn yn cael ei gynllunio a sut yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â hynny**. Esboniodd y rhieni hyn y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth er mwyn iddynt allu cefnogi dysgu eu plentyn gartref, neu eu bod am ddeall pam mae rhai pynciau wedi cael blaenoriaeth dros eraill.

**Dywedodd rhieni nad oeddent yn gwybod dim am y Cwricwlwm i Gymru**, gan ddweud nad oeddent ychwaith wedi cael unrhyw wybodaeth amdano gan yr ysgol.

**Dywedodd rhieni yr hoffent wybod mwy am sut yr oedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion eu plentyn**. Dywedodd rhai o'r rhieni hyn yr hoffent wybod sut y byddai'r cwricwlwm yn ystyried sut y mae plant yn hoffi dysgu, ADY eu plentyn a sut y byddai'r Cwricwlwm i Gymru yn herio eu plentyn.

**Roedd rhieni eisiau cael gwybod mwy am sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fesur,** ac roedd hyn yn cael ei godi'n amlach gan rieni ysgol gynradd. Soniodd rhieni ysgol uwchradd yn amlach am eu hawydd i gael gwybod mwy am gymwysterau gan gynnwys TGAU. Fe wnaeth lleiafrif bach o rieni, yn bennaf rhieni dysgwyr ysgol uwchradd, sylwadau hefyd eu bod eisiau cael mwy o wybodaeth am asesu a sut y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd ac yn cysylltu ag asesiadau, yn benodol sut y byddai eu plentyn yn cael ei asesu, sut olwg fyddai ar yr arholiadau neu'r asesiadau, pa gymwysterau y byddai eu plentyn yn eu cael a sut y byddent yn cymharu â gwledydd eraill y DU.

### Y canfyddiadau: pa ran o gwricwlwm yr ysgol fydd o'r budd mwyaf i'w plentyn

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau testun agored mewn ymateb i'r datganiad canlynol: “Yr un rhan o gwricwlwm yr ysgol a fydd o’r budd mwyaf i fy mhlentyn yw…” Rhoddodd cyfanswm o 339 o rieni ymatebion testun agored i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys 188 o rieni cynradd, 149 o rieni uwchradd a 2 riant â phlant mewn UCD. Nodir y pwyntiau a godwyd amlaf isod.

**Nododd rhieni mai'r ffocws ar iechyd a lles yn y Cwricwlwm i Gymru fyddai o'r budd mwyaf i'w plentyn**. Roedd hyn yn cynnwys rhieni’n sôn yn benodol am iechyd a lles, iechyd meddwl a dod yn iachach ac yn fwy hyderus. Cyfeiriodd rhai o'r rhieni hyn at sesiynau lles a gynhaliwyd yn ysgol eu plentyn a'r cymorth a gafodd eu plentyn i reoli ei les emosiynol, tra bod eraill wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithgarwch corfforol i'w plentyn.

**Gwnaeth rhieni sylwadau ar bwysigrwydd un neu fwy o'r sgiliau trawsgwricwlaidd** (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol), gan nodi y dylai eu hysgol ganolbwyntio arnynt. Disgrifiodd rhai o'r rhieni hyn ffyrdd yr oedd eu hysgol yn ymgorffori sgiliau trawsgwricwlaidd yn

y cwricwlwm. Ar ben hynny, crybwyllwyd “sgiliau bywyd” yn benodol gan leiafrif bach o rieni fel yr agwedd fwyaf buddiol ar y cwricwlwm. Ymhelaethodd rhieni ar hyn drwy ddarparu enghreifftiau, yn amrywio o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol (e.e. rhyngweithio, rheoli perthnasoedd) i sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben (e.e. datrys problemau, annibyniaeth, arloesi) a sgiliau ymarferol (e.e. coginio, rheoli arian).

**Roedd rhieni'n ystyried y byddai'r amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu o fudd i'w plentyn.** Ymhelaethodd rhieni ar hyn drwy gyfeirio at enghreifftiau gan gynnwys gweithgareddau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, dysgu yn yr awyr agored (e.e. Ysgolion Coedwig), mentora gan gyfoedion ac amlygiad i yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Cyfeiriodd rhieni at fanteision cael eu hamlygu i fwy o brofiadau bywyd go iawn drwy eu haddysg.

**Soniodd rhieni am agweddau penodol ar y Cwricwlwm i Gymru yr oeddent yn teimlo y byddent o fudd i'w plentyn.** Roedd y rhain yn cynnwys y pedwar diben, gwneud cysylltiadau rhwng pynciau a'r ffocws ar amrywiaeth a'r cyd-destun Cymreig.

**Ni nododd rhieni unrhyw agweddau ar y cwricwlwm a fyddai o fudd i ddysgwyr ond yn hytrach codwyd pryderon ynghylch y Cwricwlwm i Gymru**, gan gynnwys canfyddiad nad oedd digon o ffocws ar weithgarwch corfforol, pryderon ynghylch pynciau penodol a'r angen am fwy o ffocws ar sgiliau trawsgwricwlaidd. Ailbwysleisiodd rhai hefyd nad oeddent yn gwybod digon am y Cwricwlwm i Gymru.

### Y canfyddiadau: yr hyn sy'n poeni rhieni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau testun agored mewn ymateb i'r datganiad canlynol: “Y peth sy’n fy mhoeni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol yw...”. Rhoddodd cyfanswm o 444 o rieni ymatebion testun agored i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys 250 o rieni cynradd, 192 o rieni uwchradd a 2 riant â phlant mewn UCD. Nodir y pwyntiau a godwyd amlaf isod.

**Roedd rhieni'n poeni nad oedd y cwricwlwm, nac addysg eu plentyn yn ehangach, wedi'i deilwra'n ddigonol i ddiwallu anghenion unigol eu plentyn.** Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys rhieni a oedd yn pryderu na fyddai eu plentyn yn cyrraedd ei botensial llawn yn ogystal â rhieni dysgwyr ag ADY a dysgwyr MAT a oedd yn teimlo nad oedd anghenion penodol eu plentyn yn cael eu diwallu.

**Cododd rhieni bryderon ynghylch yr hyn a addysgir.** Roedd hyn yn cynnwys pryderon nad oedd y cwricwlwm yn ymdrin â rhai agweddau yn ddigon manwl (e.e. sgiliau trawsgwricwlaidd,

Gwyddoniaeth), a chanfyddiad bod y cwricwlwm yn cynnwys gormod o bynciau. Cododd rhai o'r rhieni hyn bryderon ynghylch elfennau penodol a oedd wedi'u cynnwys yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac roedd rhai yn pryderu bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio'n ormodol ar gyd-destunau lleol a chenedlaethol.

**Teimlai rhieni fod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i ddehongliad, ac nad oedd gan ysgolion yr adnoddau i wireddu'r cwricwlwm yn effeithiol.** Roedd rhai o'r rhieni hyn yn pryderu am anghysondebau rhwng ysgolion a'r potensial y gallai eu plentyn golli cyfle mewn perthynas â rhai agweddau ar ddysgu, o'u cymharu â dysgwyr mewn ysgolion eraill. Amser staff ac adnoddau ariannol a grybwyllwyd amlaf gan y rhai a gododd bryderon am adnoddau.

**Dywedodd rhieni nad oedd ganddynt ymwybyddiaeth, gwybodaeth na dealltwriaeth o’r Cwricwlwm i Gymru**. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio o'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod dim neu'n gwybod ychydig iawn am y Cwricwlwm i Gymru i'r rhai a oedd â rhywfaint o ymwybyddiaeth ond a oedd yn teimlo nad oedd eu hysgol wedi'i egluro iddynt yn ddigon da.

**Cododd rhieni bryderon cyffredinol ynghylch ansawdd addysg eu plentyn, safonau addysgol ac ansawdd addysgu yn fwy cyffredinol** a chapasiti athrawon yn ysgol eu plentyn i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â'r bwriad. Cododd rhai o'r rhieni hyn bryderon ynghylch ADY eu plentyn a'r cymorth sydd ar gael i'w helpu i ddysgu. Crybwyllwyd pryderon ynghylch iechyd a lles eu plentyn yn ogystal â phryderon ehangach ynghylch ymddygiad ac agweddau dysgwyr at ddysgu ochr yn ochr â'r materion hyn.

**Cododd rhieni faterion ynghylch asesu, cymwysterau a'r cyfnod pontio o addysg orfodol i addysg ôl-16**. Ymhlith y rhain, cododd ysgolion cynradd bryderon ynghylch pontio i'r ysgol uwchradd a sut y byddai cynnydd eu plentyn yn cael ei fonitro. Cododd rhieni ysgolion uwchradd bryderon ynghylch perthnasedd cymwysterau yn 16 oed a'u gwerth ymhlith cyflogwyr a'r tu allan i Gymru.

# 7. Rhan D: Cymharu ymatebion rhieni a dysgwyr

## Cymharu ymatebion rhieni a dysgwyr i gwestiynau cysylltiedig

Yn yr arolygon i rieni a dysgwyr, gofynnwyd rhai cwestiynau ar themâu tebyg, gyda geiriad gwahanol, i rieni a dysgwyr. Isod rhoddir crynodeb o ymatebion rhieni a dysgwyr i gwestiynau cysylltiedig ar draws y themâu hyn. Mae'n bwysig nodi bod gwahanol gwestiynau wedi cael eu defnyddio ar gyfer rhieni a dysgwyr, a dylid ystyried hyn wrth gymharu eu hymatebion. Er enghraifft, roedd rhai cwestiynau'n gofyn i rieni fyfyrio ar eu profiadau eu hunain, tra bod eraill yn gofyn am eu canfyddiadau o brofiadau eu plentyn.

Cyflwynir y canfyddiadau sy'n ymwneud â themâu lle roedd gan ddysgwyr a rhieni farn debyg yn gyntaf, ac yna themâu lle roedd gan ddysgwyr farn fwy cadarnhaol na rhieni (ac i'r gwrthwyneb). O dan bob thema, cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer yr holl ddysgwyr a rhieni yn gyntaf, ac yna ganfyddiadau'n ymwneud â dysgwyr cynradd ac yna ddysgwyr uwchradd. Mae'r ymatebion yr adroddir arnynt yn rhai ble y nododd yr ymatebwyr eu bod yn cytuno â datganiadau neu ble y cafwyd ymateb cadarnhaol i gwestiynau (e.e. gan gyfuno “Cytuno” a “Cytuno’n gryf”).

**Crynodeb: cymharu ymatebion rhieni a dysgwyr**

Gofynnwyd cwestiynau arolwg gwahanol, ond cysylltiedig, i rieni a dysgwyr ar draws sawl thema.

Roedd gan rieni farn debyg i ddysgwyr mewn perthynas â chydweithio neu eu hymwneud â'r cwricwlwm.

Roedd gan ddysgwyr farn fwy cadarnhaol na rhieni mewn perthynas â rhai themâu:

- lles dysgwyr
- dysgwyr yn cael yr holl help sydd ei angen arnynt
- bodlonrwydd  gyda'r ysgol neu fwynhad o'r ysgol
- teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am gynnydd dysgwyr
- ysgol yn helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn
- eu cynnydd tuag at y pedwar diben

Roedd gan rieni farn fwy cadarnhaol na dysgwyr o ran teimlo bod staff ac athrawon yn gwrando arnynt.

## Themâu lle roedd barn rhieni'n debyg i farn dysgwyr

### Cydweithio ar y cwricwlwm neu ymwneud â'r cwricwlwm

Nododd canrannau tebyg o rieni a dysgwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd cydweithio yn ymwneud â'r cwricwlwm. Dywedodd tua hanner y rhieni a dysgwyr ysgol gynradd eu bod wedi ymwneud ag amrywiol agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm. Yn yr un modd, dywedodd lleiafrif o rieni a dysgwyr uwchradd eu bod ymwneud â gwahanol agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm.

Roedd ychydig o dan hanner y rhieni yn cytuno eu bod wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn ysgol eu plentyn naill ai drwy rannu eu syniadau am beth neu sut mae eu plentyn yn dysgu neu drwy roi adborth ar y cwricwlwm. Roedd canrannau tebyg o ddysgwyr yn cytuno bod eu hathrawon yn gofyn iddynt beth yr hoffent ei ddysgu ac y gallent ddweud wrth eu hathrawon os oeddent yn hoffi'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu. Roedd canrannau uwch o ddysgwyr a rhieni cynradd yn cytuno â'r datganiadau'n ymwneud â chydweithio ac ymwneud â'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm o'u cymharu â dysgwyr a rhieni uwchradd.

### Anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu / cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt

Nododd canran debyg o ddysgwyr eu bod wedi cael yr holl gymorth yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol, o gymharu â chanran y rhieni a nododd fod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu drwy eu haddysg. Roedd tua hanner y dysgwyr yn cytuno eu bod wedi cael yr holl gymorth yr oedd ei angen arnynt yn yr ysgol ac roedd tua hanner y rhieni yn cytuno bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu. Ymatebodd dysgwyr cynradd a rhieni yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn y sector uwchradd.

## Themâu ble roedd gan ddysgwyr farn fwy cadarnhaol na rhieni:

### Teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am gynnydd

Nododd canran uwch o ddysgwyr o'u cymharu â rhieni eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am eu cynnydd (neu gynnydd eu plentyn). Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno bod eu hathro yn eu "helpu i ddeall pan fydda i wedi gwneud yn dda neu wedi symud ymlaen

wrth ddysgu" (gwelodd dysgwyr Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 eiriad amgen: "Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu") ac roedd tua hanner y rhieni'n fodlon â'r wybodaeth maen nhw'n ei derbyn gan ysgol eu plentyn am gynnydd cyffredinol eu plentyn. Ymatebodd dysgwyr a rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn y sector uwchradd.

#### Mae'r ysgol yn helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn/bod y gorau y gallant fod

Nododd canran uwch o ddysgwyr fod yr ysgol yn eu helpu i fod y gorau y gallant fod, o'u cymharu â chanran y rhieni a nododd fod ysgol eu plentyn yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn.

Ymatebodd dysgwyr a rhieni ysgol gynradd yn fwy cadarnhaol na'r rhai yn y sector uwchradd. Roedd mwyafrif y dysgwyr ysgol gynradd yn cytuno bod yr ysgol yn eu helpu i fod y gorau y gallant fod o'u cymharu â thua hanner y rhieni cynradd a gytunodd fod "ysgol fy mhlentyn yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn". Roedd lleiafrif o ddysgwyr uwchradd a lleiafrif o rieni yn cytuno bod yr ysgol yn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn.

#### Cynnydd tuag at y pedwar diben

Roedd mwyafrif y dysgwyr yn cytuno â phob un ac eithrio dau o'r datganiadau a ofynnodd iddynt a oedd eu hysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at wahanol agweddau ar y pedwar diben. Mewn cymhariaeth, roedd tua hanner y rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i wneud cynnydd tuag at bob un o'r pedwar diben.

Roedd dysgwyr a rhieni ysgol gynradd hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

### Themâu ble roedd gan rieni farn fwy cadarnhaol na dysgwyr

#### Teimlo bod staff ac athrawon yn gwrando arnynt

Nododd canran uwch o rieni eu bod yn teimlo bod staff ac athrawon yn gwrando arnynt os oedd ganddynt bryderon, o'u cymharu â chanran y dysgwyr a oedd yn cytuno bod "athrawon a staff wir yn gwrando ar blant". Roedd rhieni a dysgwyr ysgol gynradd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod staff ac athrawon yn gwrando arnynt o'u cymharu â rhieni a dysgwyr ysgol uwchradd.

# 8. Rhan E: Archwilio'r cysylltiadau rhwng newidynnau'r arolwg:

## Dadansoddi ffactorau (FA) a modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Mae'r penodau canlynol yn archwilio'r cysylltiadau rhwng setiau o gwestiynau wedi'u grwpio (ffactorau) yn yr arolwg er mwyn archwilio cryfder y cysylltiad rhyngddynt. Roedd y fethodoleg ar gyfer hyn yn cynnwys technegau ystadegol cymhleth, sef Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM). Mae SEM yn estyniad o FA gan ei fod yn caniatáu dadansoddi cysylltiadau rhwng ffactorau a nodir drwy FA. Ymchwilir i bob perthynas unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchwel, sy'n cynhyrchu 'cyfernod llwybr' y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthyniad. Nid yw SEM yn sefydlu achosiaeth – bod un ffactor yn arwain at un arall – dim ond bod sgoriau'r ymatebwyr ar ddau ffactor yn cydberthyn. Ond serch hynny, gall ddarparu mewnwelediadau defnyddiol a fydd o gymorth i rowndiau pellach o arolygon, yn ogystal â helpu i ddeall y cysylltiadau rhwng ffactorau yn y theori newid yn well. Mae manylion y fethodoleg wedi'u nodi ym Mhennod 3 ac mae rhagor o fanylion ynghylch pa gwestiynau a gafodd eu grwpio ar gyfer pob ffactor wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

## Dadansoddi ffactorau

Cynhaliwyd ymarfer dadansoddi ffactorau i wirio a oedd y cydberthyniad rhwng y cwestiynau o dan bob ffactor yn ddigon da i gynnal archwiliad o'r cysylltiadau rhwng y ffactorau eu hunain. Dangosodd y dadansoddiad fod yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau o dan bob ffactor mewn ffordd gyson yn gyffredinol, gan ddangos bod y cwestiynau'n gysylltiedig â'r ffactorau sylfaenol fel y disgwyliwyd. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad fod y cydberthyniad rhwng y cwestiynau o dan bob ffactor yn ddigon da i archwilio'r cysylltiad rhwng y ffactorau.

Y ffactorau deilliadol ar gyfer y modelau rhieni oedd:

- ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau i'r cwricwlwm: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar ymwybyddiaeth rhieni bod ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm eu hunain a bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y pedwar diben

- gwybodaeth rhieni am ffocws y cwricwlwm newydd: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar wybodaeth rhieni bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar addysg, gwybodaeth a sgiliau eang a chytbwys a darparu profiadau bywyd go iawn
- cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar gyfleoedd i rieni gydweithio ag ysgol eu plentyn mewn perthynas â beth mae eu plentyn yn ei ddysgu a sut mae'n dysgu, sut i gefnogi'r dysgu, rhoi adborth ar y cwricwlwm a chyfrannu eu harbenigedd eu hunain
- hyrwyddo galluedd rhieni: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau am bresenoldeb amodau sy'n ffafriol ar gyfer cynnwys rhieni mewn trafodaethau ar y cwricwlwm (rhywun y gwrando arnynt a hyder yn addysg eu plentyn) a chymhelliant rhieni i gefnogi addysg eu plentyn
- ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar fodlonrwydd rhieni ag ysgol eu plentyn yn gyffredinol yn ogystal ag ansawdd a rhwyddineb y cyfathrebu â'r ysgol, y cymorth a oedd ar gael, ansawdd y gofal a ddarperir a lefelau ymddiriedaeth rhieni yn y staff
- canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau am hyder rhieni bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- canfyddiadau rhieni o gefnogi cynnydd: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau'n ymwneud â sut y cefnogwyd cynnydd cyffredinol eu plentyn gan eu hathrawon a chan addysg
- canfyddiadau rhieni o gynnydd sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y dyfodol: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar hyder rhieni bod addysg eu plentyn yn eu paratoi ar gyfer addysg ddilynol, gwaith a bywyd ehangach
- bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth am gynnydd: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar fodlonrwydd rhieni â'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am gynnydd eu plentyn, yn gyffredinol ac mewn perthynas â meysydd allweddol y cwricwlwm (llythrennedd, rhifedd ac, i rieni ysgolion uwchradd, Cymraeg)
- bodlonrwydd rhieni â'r wybodaeth a ddarperir: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar fodlonrwydd rhieni â'r ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn a pha mor aml y darperir y wybodaeth hon

Y ffactorau deilliadol ar gyfer y modelau dysgwyr oedd:

- canfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at bedwar diben: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ynghylch a oedd dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i symud ymlaen tuag at bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru (dyheadau i ddod yn uchelgeisiol a galluog, yn iach ac yn hyderus, yn fentrus ac yn greadigol, ac yn egwyddorol ac yn wybodus)
- cafodd yr ymatebion i'r amrywiadau gwahanol yng ngeiriad y cwestiwn a welwyd gan wahanol grwpiau blwyddyn eu cyfuno yn y deilliant
- dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ar gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ar lefel yr ystafell ddosbarth, gan ganolbwyntio ar y cyfathrebu rhwng dysgwyr â'u hathrawon, yn gyffredinol ac o ran yr hyn y maent yn ei ddysgu, sut y maent yn dysgu ac a ydynt yn mwynhau pynciau eu gwersi
- ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau ynghylch a oedd dysgwyr yn teimlo y gellid dibynnu ar eu hathrawon i'w helpu a'u cefnogi, ac i fod yn deg mewn ffyrdd sy'n gwneud yr ysgol yn bleserus ac yn lle y gall dysgwyr fod yn nhw eu hunain
- lles dysgwyr: deilliodd y ffactor hwn o gwestiynau'n ymwneud â chyflwr emosiynol cadarnhaol dysgwyr (bod mewn hwyliau da a dod ymlaen gyda phobl) a'u hagwedd gadarnhaol (rhagweld pethau da mewn bywyd, teimlo eu bod yn cael gofal a chael pethau i ymfalchïo ynddynt)

## Modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Fel y nodir ym Mhennod 3, er bod y cysylltiadau damcaniaethol rhwng elfennau yn y theori newid wedi'u hadlewyrchu wrth greu'r ffactorau, roedd y theori newid hefyd yn cynnwys cysylltiadau damcaniaethol rhwng ffactorau. Mae SEM yn estyniad o FA sy'n caniatáu ymchwilio i gysylltiadau rhwng ffactorau. Ymchwilir i bob perthynas unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchwel, sy'n cynhyrchu 'cyfernod llwybr' y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthyniad. Fel y nodir ym Mhennod 3, mae cyfernodau llwybr SEM o +/- 0-0.5 yn dynodi cydberthyniadau gwan i gymedrol tra bod cyfernodau o +/- 0.5-1 yn dynodi cydberthniadau cymedrol i gryf.

Ar ôl sefydlu drwy FA y gellid modelu rhai o'r ffactorau sy'n sail i'r theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu gan ddefnyddio data'r arolwg, profwyd dwy ragdybiaeth

SEM i asesu a allai'r theori newid hefyd ddisgrifio'r cysylltiadau rhwng ffactorau. Galwyd y damcaniaethau hyn yn:

- fodel dysgwyr: sy'n archwilio a oes cysylltiad rhwng cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a lles a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben
- model rhieni: sy'n archwilio oes cysylltiad rhwng y cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, hyrwyddo galluedd rhieni gan ysgolion ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol a chanfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm

Mae'r cysylltiadau a ddisgrifir gan bob un o'r modelau uchod yn cael eu dangos mewn fersiynau wedi'u haddasu o'r darlun o'r theori newid a gyhoeddwyd yn yr Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Canfu'r dadansoddiad fod y cysylltiadau a archwiliwyd rhwng ffactorau yn y model dysgwyr yn gymharol gryf a bod y rhai yn y model rhieni yn gryf, gan ddangos bod y modelau'n cyd-fynd yn dda â data'r arolwg. Dangosir isod y cysylltiadau yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o'r modelau dysgwyr a rhieni, ac yna'r prif ganfyddiadau sy'n ymwneud â phob un. Yn Ffigurau 21 a 22 isod, mae'r eitemau ar y chwith yn ffactorau (neu'n newidynnau darogan) y rhagdybir eu bod yn gysylltiedig â, neu'n darogan, y rhai yn y canol (rhyng-newidynnau) y rhagdybir yn eu tro eu bod yn gysylltiedig â, neu'n darogan, y rhai ar y dde (ffactorau deilliant). Mae'r saethau'n dynodi cyfeiriad tybiedig y cysylltiad. Mae'r rhifau'n dynodi'r cyfernodau safonedig, sy'n dangos cryfder y cysylltiad rhwng ffactorau.

Mae'r lliwiau'n gysylltiedig â'r theori newid a gyflwynwyd yn yr Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Gweithgareddau i ymarferwyr yw'r ffactorau mewn blychau glas golau, deilliannau tymor byr a pharhaus yw'r rhai mewn melyn golau, defnyddir glas tywyll ar gyfer gweithgareddau ymarferwyr (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u bwriadu i gynnwys rhieni) a melyn tywyll ar gyfer deilliannau tymor canolig a pharhaus fel y'u cyflwynir yn y theori newid. Ym mhob blwch, cyflwynir crynodeb o gwestiynau'r arolwg a gafodd eu llwytho i'r ffactor hwn. Mae testun coch yn dynodi gwerthoedd nad oeddent yn nodedig yn ystadegol. Cyflwynir rhagor o wybodaeth dechnegol am y diagramau yn Atodiad D.

**Metrigau ffit y model**

I asesu ffit FA a SEM, y mynegeion ffit allweddol a'r trothwyon dymunol sy'n dynodi ffit dda ar gyfer y model oedd:


- mynegeion ffit gymharol:
    - Mynegai ffit gymharol (CFI): o leiaf > 0.9 neu'n ddelfrydol > 0.95
    - Mynegai Tucker-Lewis (TLI): o leiaf > 0.9 neu'n ddelfrydol > 0.95
- mynegeion ffit absoliwt
    - Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig (RMSEA): < 0.05
    - Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig (SRMR): < 0.08

Noder, ar gyfer yr FA a'r SEMs, lle yr oedd rhywfaint o ddata ar goll ac roedd yn rhaid eu hamcangyfrif, defnyddiwyd yr amrywiadau mwy cadarn o'r mynegeion ffit gymharol mewn modelau gyda gwerthoedd amcangyfrifedig.

**Crynodeb o'r canfyddiadau: model dysgwyr**

Roedd y “Model dysgwyr” yn rhagdybio y byddai lefelau cydweithio dysgwyr ar gynllunio'r cwricwlwm, eu hymddiriedaeth yn yr ysgol a'u lles yn effeithio ar ganfyddiadau dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben. Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn ddeilliannau tymor canolig neu'n weithgareddau yn y theori newid.

**Ffigur 20. Model dysgwyr: archwilio a oes cysylltiad rhwng cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a lles a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben**




Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y model yn cyd-fynd â'r data yn gymharol dda a bod cydberthyniadau cymedrol i uchel rhwng y rhan fwyaf o'r ffactorau. O ran ystadegau ffit gymharol, cynhyrchodd model SEM y dysgwyr CFI cadarn o 0.919 a TLI o 0.910, ar gyfer ffit absoliwt cynhyrchodd y model RMSEA o 0.043 ac SRMR o 0.058. Mae'r ddau ystadegyn ffit

absoliwt yn dangos bod y model yn ffit dda, tra bod y mesurau ffit gymharol yn agos iawn at y trothwy ar gyfer ffit dda o ran y model. Felly, mae'r model hwn yn darparu cynrychiolaeth resymol o'r cysylltiadau a welir yn nata ymatebion y dysgwr ond efallai fod cysylltiad mwy cymhleth nag y mae'r model hwn yn ei gyfleu.

Mae'r canfyddiadau'n dangos:

- bod cysylltiad cryf iawn rhwng dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ac ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol
- bod cysylltiad cymedrol rhwng dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm a lles dysgwyr
- bod cysylltiad cryf rhwng ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol a chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben
- bod cysylltiad rhwng lles dysgwyr a'u canfyddiad o gynnydd tuag at y pedwar diben

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu:

- bod cysylltiad clos rhwng dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ac ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol, yn fwy felly na lles dysgwyr, ac mae gan ddysgwyr sy'n cael profiad o gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm hefyd lefel uchel o ymddiried yn eu hysgol, ac i'r gwrthwyneb
- bod y cysylltiad llawer mwy clos rhwng canfyddiadau dysgwyr o'u cynnydd tuag at y pedwar diben a lefel ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol na'r cysylltiad â lefel eu lles.
- yr ymddengys fod cysylltiad cymedrol rhwng lles dysgwyr a chydweithio â dysgwyr ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae'n debygol nad yw hyn yn achosol – mae'n annhebygol mai cydweithio ar ddylunio'r cwricwlwm fydd y prif ffactor sy'n effeithio ar les. Mae'n ymddangos yn fwy tebygol y bydd ysgolion sy'n meithrin mwy o gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm hefyd yn cymryd camau eraill sy'n meithrin lles dysgwyr, gan arwain at y cysylltiad cadarnhaol a welwyd yma.


**Crynodeb o'r canfyddiadau: model rhieni**

Roedd y “Model rhieni” yn rhagdybio y byddai'r cyfleoedd i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni a lefelau ymddiriedaeth rhieni mewn ysgolion yn effeithio ar ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm.

Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn ddeilliannau tymor canolig neu'n weithgareddau yn y theori newid.[Troednodyn 18]

[18] Archwiliwyd bodlonrwydd rhieni â gwybodaeth hefyd ond nid yw'n cael ei ddangos yn y diagram model oherwydd nad oedd yn rhan o'r model 'gorau'. Gweler Atodiad D.

**Ffigur 21. Model rhieni: archwilio a oes cysylltiad rhwng y cyfle i rieni i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol a chanfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**




Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y model yn cyd-fynd â'r data yn dda a bod cydberthyniadau cymedrol i uchel rhwng y rhan fwyaf o'r ffactorau. O ran ystadegau ffit gymharol, cynhyrchodd y model SEM rhieni CFI cadarn o 0.938 a TLI o 0.929, ar gyfer ffit absoliwt cynhyrchodd y model rhieni RMSEA o 0.053 ac SRMR o 0.060. Mae'r ffit gymharol ac un o'r ystadegau ffit absoliwt ill dau yn dangos bod y model yn ffit dda, gyda'r ail werth mesur absoliwt yn agos iawn at y trothwy ar gyfer ffit dda i'r model. Felly, mae'r model hwn yn disgrifio'r cysylltiadau a welir yn nata'r arolwg yn eithaf da.

Mae'r canfyddiadau'n dangos:

- mae cysylltiad cryf rhwng y cyfle y mae rhieni'n ei gael i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ac ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni
- mae cysylltiad cryf rhwng ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni a lefelau ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol
- mae cysylltiad gwan rhwng y cyfle y mae rhieni'n ei gael i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ac ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol

- mae cysylltiad cryf rhwng galluedd rhieni a chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm
- mae cysylltiad cymedrol rhwng hyrwyddo galluedd rhieni a chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm
- mae cysylltiad gwan a negyddol rhwng cyfle rhieni i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm a chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm.
- o'r tri ffactor sy'n sail i **ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**, mae cydberthynas gryfach rhwng y ffactor **cyfraniad rhieni at gynnydd** ac **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** na **hyrwyddo galluedd rhieni** (o'u cymharu â'r ffactorau sylfaenol eraill)

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu:

- cysylltiad cryf iawn rhwng ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol a hyrwyddo galluedd rhieni. Mae'n ymddangos bod ysgolion sy'n hyrwyddo galluedd hefyd yn meithrin lefelau uchel o ymddiriedaeth, ac i'r gwrthwyneb
- pan fydd rhieni'n cydweithio ag ysgolion ar ddylunio'r cwricwlwm, gall hyn fod yn gysylltiedig â'u hymddiriedaeth yn yr ysgol a'u hymdeimlad o gynnydd tuag at nodau'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y graddau y mae'r ysgol yn cefnogi galluedd rhieni fel rhan o'r cydweithio hwn hefyd yn effeithio ar y berthynas hon. Ymddengys fod cysylltiad negyddol rhwng cynyddu cydweithio heb hyrwyddo galluedd a lefelau ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm. Yn rhesymegol felly, gallai cynyddu hyrwyddo galluedd rhieni fod yn ystyriaeth bwysig, ochr yn ochr â gweithgareddau eraill, wrth ysgogi gwelliannau i ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gynnydd – nid yw ysgogi cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm yn unig yn ddigonol
- gallai hyrwyddo mwy ar alluedd rhieni a chydweithio ar ddylunio'r cwricwlwm fod yn bwysig o wella ymddiriedaeth a'r canfyddiadau o gynnydd. Ymddengys fod cysylltiad negyddol hefyd rhwng meithrin cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm heb feithrin galluedd a lefelau ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm.
- gall meithrin galluedd rhieni, ochr yn ochr â ffactorau eraill, fod yn bwysig o ran cyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig o ran dyheadau penodol y Cwricwlwm i Gymru sy'n gysylltiedig â'r pedwar diben.

- efallai fod y ffordd y mae cydweithio ar ddylunio'r cwricwlwm yn cael ei wneud yn bwysig; yn enwedig a yw rhieni'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac a ydynt yn frwdfrydig am y broses.